*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂ**N AC ACHUB GOGLEDD CYMRU yn cael ei gynnal DDYDD LLUN 17 **GORFFENNAF** 2023 yn rhithiol **trwy Zoom**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2023**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

7. **Adroddiad y Cadeirydd**

8. **Penodi Archwilydd Mewnol Newydd – er gwybodaeth**

9. **Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys 2022/23**

10. **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23**

11. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23**

12. **Alldro Ariannol 2022/23**

13. **Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23**

14. **Strategaeth Amgylcheddol 2023/30**

15. **Monitro Perfformiad Ebrill 2022 - Mawrth 2023**

## 16. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100 A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 17. Dim

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 17 Ebrill2023** yn rhithiol trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am **09.30 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Dyfed Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Marc Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Nodwyd efallai y byddai'n rhaid i'r Cyng. Carol Beard a'r Cyng. John Brynmor Hughes adael y cyfarfod yn gynnar.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau buddiant i'w cofnodi.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 IONAWR 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Nid oedd materion yn codi i'w cofnodi.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i ddarparu ar gyfer y cyfarfod hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn eu gwaith swyddogol rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mawrth 2023.

6.2 Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynychu'r seremonïau Dathlu Cyflawniad Ffenics os yn bosibl, gan eu bod yn ddigwyddiadau sy'n calonogi ac yn ysbrydoli.

6.3 Gofynnwyd a oedd y Cadeirydd yn teimlo bod y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol o fudd i'r Awdurdod. Atebodd y Cadeirydd fod hwn yn ymwneud â deddfwriaeth newydd a theimlai y byddent yn dod yn gynhyrchiol iawn wrth iddynt ddatblygu. Roedd y Cadeirydd hefyd yn teimlo y byddai cael cyfarfodydd cyson gyda'r Dirprwy Weinidog yn sicr o fudd mawr i'r Awdurdod.

6.4 Dywedodd y Prif Swyddog Docx hefyd fod hwn yn gyfle da i ni allu trafod materion sy'n gyffredin ar draws y tri gwasanaeth tân yng Nghymru, ac y byddai manteision hyn i'w gweld yn y dyfodol.

6.4 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

**7 DYFARNIADAU CYFLOG DIFFODDWYR TÂN A GWEITHREDU DIWYDIANNOL POSIBL**

7.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx y papur ar Ddyfarniadau Cyflog Diffoddwyr Tân a Gweithredu Diwydiannol Posibl, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â datblygiadau'r anghydfod dros gyflog diffoddwyr tân a'r posibilrwydd o weithredu diwydiannol, pwnc yr oedd yr Aelodau wedi derbyn gwybodaeth gyson amdano dros y chwe mis diwethaf.

7.2 Manteisiodd y Prif Swyddog Docx ar y cyfle hwn i fynegi pa mor falch oedd hi o'r modd proffesiynol yr oedd cymaint o staff y Gwasanaeth wedi paratoi ar gyfer gweithredu diwydiannol posibl.

7.3 Nodwyd na chafwyd cyllid ychwanegol yng Nghymru i gwrdd â'r Dyfarniad Cyflog, a olygai wahaniaeth o tua £1 miliwn i'r Gwasanaeth rhwng yr hyn a gafodd ei ragamcan yn y gyllideb a'r union ddyfarniad. Yr Awdurdod felly fyddai'n gorfod darparu'r swm ychwanegol hwn. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod setliad wedi'i gyrraedd yn newyddion positif i bawb dan sylw.

7.4 Roedd un Aelod yn teimlo ei bod yn anhygoel bod modd dod i gytundeb o ran cynnig cyflog heb dderbyn cynnig o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, ac awgrymodd y dylid trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

7.5 Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r mater hefyd yn cael ei godi yn y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol nesaf gyda'r Dirprwy Weinidog.

7.6 Nodwyd ymhellach, er bod y mater hwn wedi'i godi'n flaenorol yn y Pwyllgor Archwilio a bod arsylwadau wedi'u gwneud, nad oedd cyfeiriad at y sylwadau hynny a wnaed o fewn y cyfarfod hwnnw yn y papur. Cytunodd y Prif Swyddog Docx y dylai'r adroddiad adlewyrchu'r cofnodion gan y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn well a byddai papurau'r dyfodol yn cael eu diwygio'n unol â hynny.

7.7 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi bod cynnig cyflog yr NJC i weithwyr wedi ei dderbyn yn unol ag amodau a thelerau'r llyfr llwyd;**

**(ii) nodi nad oedd paratoadau ar gyfer gweithredu diwydiannol yn digwydd bellach;**

**(iii) nodi'r goblygiadau ariannol;**

**(iv) codi'r mater o gyllid ychwanegol ar gyfer y dyfarniad cyflog yn y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol; a**

**(iv) sicrhau bod papurau yn y dyfodol yn adlewyrchu cofnodion y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn well.**

## 8 ALLDRO DROS DRO 2022/23

8.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tan Cynorthwyol MacArthur bapur Alldro Amcanol 2022-23, a oedd yn cyflwyno'r diweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022/23, ar 28 Chwefror 2023. Amlygwyd nifer o agweddau pwysig.

8.2 Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi cynghori'r Gwasanaeth nad oedd ganddynt y gallu i gwblhau'r gwaith o fewn yr amserlenni arferol ar gyfer archwilio'r cyfrifon blynyddol, ac roedd dyddiad cwblhau diwygiedig, sef diwedd Tachwedd 2023, wedi ei osod ar gyfer pob Awdurdod Lleol ac Awdurdod Tân. Byddai drafft terfynol y cyfrifon felly'n cael ei roi i'r Aelodau yn y cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023.

8.3 Cafodd yr aelodau wybod, er mwyn monitro gwariant o'r fath, y byddai data ar absenoldeb salwch yn cael ei ddarparu fel rhan o fonitro perfformiad o hyn ymlaen.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, fel y manylir arnynt o fewn yr adroddiad;**

**(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a phroblemau yn y gadwyn gyflenwi;**

**(iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog parhaus;**

**(iv) cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai sydd wedi'u clustnodi.**

## 9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYNLLUN CORFFORAETHOL YR AWDURDOD AR GYFER 2021-24

9.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw yr Adolygiad Blynyddol o bapur Cynllun Corfforaethol 2021-24 yr Awdurdod, a ddarparodd yr Aelodau â Chynllun Corfforaethol 2021-24 wedi ei ddiweddaru i'w gymeradwyo yn dilyn ei adolygiad blynyddol.

9.2 Nododd un Aelod bod yr adroddiad yn cynnwys cryn dipyn o ddata, a gofynnodd tybed sut roedd y data hwn yn cael ei gyfathrebu i'r gymuned a pha mor dda y teimlwyd bod hynny'n cael ei wneud.

9.3 Cadarnhaodd y Dirprwy Prif Swyddog Tân Forshaw fod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth a bod cyfarfodydd ymgynghori gyda gwahanol randdeiliaid yn cael eu cynllunio mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a fyddai hefyd yn gyfle i gyflwyno data a gwybodaeth.

9.4 Gofynnwyd sut roedd y data'n cymharu â data Gwasanaethau Tân eraill o fewn Cymru, yn enwedig o ran Galwadau Diangen lle'r oedd y data i'w weld yn peri pryder. Atebodd y Dirprwy Prif Swyddog Tân Forshaw drwy ddweud bod yr Awdurdod wedi derbyn gwybodaeth ynghylch pob maes adrodd o fewn yr Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol. Nodwyd cynnydd o ran galwadau diangen mewn eiddo domestig ac annomestig a byddai Archwilio Cymru yn cynhyrchu adroddiad ynglŷn â galwadau oherwydd Larymau Tân Awtomatig ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru a fyddai'n cael ei ddarparu i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 17 Gorffennaf 2023.

9.5 Nododd un Aelod fod un rhan o bump o'r holl alwadau'n rhai diangen, ac y byddai adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei groesawu er mwyn edrych i mewn i hyn ymhellach.

9.6 Codwyd cwestiwn ynghylch y dangosyddion statudol a sut roedd y ffigurau ar hyn o bryd yn cymharu â'r cyfnod cyn y pandemig, gan ei bod yn ymddangos eu bod wedi codi'n sylweddol. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw y byddai'r ffigyrau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol.

9.7 Nodwyd na chafwyd unrhyw farwolaethau oherwydd tân damweiniol yn y cartref eleni, am y tro cyntaf yng Ngogledd Cymru. Roedd hyn oherwydd ymdrechion yr holl weithwyr i ddarparu cyngor atal dros y degawd diwethaf. Roedd yr aelodau'n teimlo bod hyn yn rhywbeth i'w ddathlu.

9.8 Cafodd y Gwasanaeth ei longyfarch gan yr Aelodau am yr uchod, ac am y gwaith y maent yn ei wneud ar atal o fewn y Gymuned yr oedd yr Aelodau'n teimlo ei fod yn effeithiol a gwerthfawr.

9.9 Diolchwyd i'r Dirprwy Forshaw am ei adroddiad, ac am y data a geir ynddo.

9.10 **PENDERFYNWYD:**
- **(i) nodi gwedd newydd adolygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023-24 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol;**
- **(ii) nodi bod y data sydd ynddo yn destun archwiliad terfynol;**
- **(iii) cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

## 10. CYNLLUNIAU LLESIANT Y BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS – I'W CYMERADWYO

10.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur Gynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus oedd yn darparu Cynlluniau Llesiant drafft y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i'r Aelodau i'w cymeradwyo.

10.2 Nodwyd bod yr adroddiadau a ddarparwyd yn cynnwys y cyfnod rhwng 2023 a 2028 a'u bod wedi cael eu diwygio a'u hadnewyddu.

10.3 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a**
**(ii) chymeradwyo'r tri chynllun llesiant yn rhinwedd eu rôl fel yr Awdurdod Tân ac Achub.**

## 11. DATGANIAD POLISI TÂL 2023-24

11.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur y Datganiad Polisi Tâl 2023-24, oedd yn hysbysu'r Aelodau am gyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a oedd yn codi o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf). Amlygwyd nifer o agweddau pwysig.

11.2 Nodwyd bod y Polisi hwn wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r Panel Gweithredol, a oedd yn eu tro wedi ei gymeradwyo.

11.3 Gofynnodd un Aelod a fyddai'n bosibl edrych ar ymarferoldeb ariannol darparu car i brif swyddogion o fewn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, ac ymatebwyd fod hyn yn unol â'r Amodau a Thelerau Cenedlaethol a'i fod yn rhan o'r pecyn cydnabyddiaeth ariannol.

11.4 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
**(ii) cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

12.1 Cyflwynodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Aelodau. Cyflwynodd yr adroddiad hwn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

12.2 Nodwyd, er mai dyma oedd 18fed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, mai hon oedd y flwyddyn gyntaf iddi ddod yn ddyletswydd statudol i'w ddarparu.

12.3 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23.**

## 13 AILBENODI AELODAU ANNIBYNNOL

13.1 Cyflwynodd Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod, y papur Ailbenodi Aelodau Annibynnol, oedd yn cynnig ailbenodi dau Aelod Annibynnol i Bwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

13.2 Nododd un Aelod bod problemau o ran datgan buddiant ar yr eitem hon oherwydd y ffaith nad oedd llawer o wybodaeth wedi'i darparu am yr Aelodau Annibynnol dan sylw, oedd yn golygu ei bod yn anodd i rywun wybod a oedden nhw'n eu hadnabod neu beidio.

13.3 Cadarnhaodd y Clerc y byddai'r papur yn cael ei ddiwygio yn y dyfodol er mwyn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn. Nodwyd mai dim ond os yw rhywun yn adnabod yr Aelodau dan sylw ar lefel bersonol y mae angen datgan buddiant.

13.4 Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorydd Dylan Rees a'r Cynghorydd Gwynfor Owen, gan fod y ddau yn adnabod Gareth Pritchard ar lefel bersonol.

13.5 Nodwyd mai dim ond yr Awdurdod Tân Llawn fyddai'n gallu gwneud y penderfyniad hwn ac na ellid ei ddirprwyo.

13.6 **PENDERFYNWYD:**
**(i) ailbenodi Gill Murgatroyd a Gareth Pritchard am gyfnod o bedair blynedd, o 1 Medi 2023.**

## 14 ADRODDIAD CYNNYDD AR YR ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH TÂN

14.1 Darparodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Millington y papur Adroddiad Cynnydd ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys gyda throsolwg o bwrpas cynnal yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r fethodoleg fyddai'n cael ei defnyddio. Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd i weithgor Aelodau'r Awdurdod a gyfarfu hyd yma ar 14 Mawrth 2023 a 04 Ebrill 2023.

14.2 Nodwyd bod nifer o opsiynau wedi cael eu hystyried, a bod cais wedi ei wneud am gyfuniad o dri o'r opsiynau hynny. Bydd gwaith craffu ar ddrafft terfynol yr opsiwn hwn yn cael ei wneud gan y gweithgor ar 02 Mai a'r Panel Gweithredol ar 19 Mehefin, cyn iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod Llawn ar 17 Gorffennaf.

14.3 Nodwyd bod y papur hwn at ddibenion gwybodaeth ac nad oedd angen gwneud penderfyniadau ar hyn o bryd.

14.4 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

**15 STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL 2023-2030**

15.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Millington Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau o ran y cynnydd a wnaed yn y gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd tuag at gwblhau Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol. Wedi iddi gael ei chwblhau, bydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'w chymeradwyo.

15.2 Roedd aelodau'r gweithgor wedi derbyn drafft cyntaf y Strategaeth Amgylcheddol ddydd Gwener 14 Ebrill 2023.

15.3 Nodwyd bod amseroedd y gweithdai yn y dyfodol y cyfeirir atynt yn y papur wedi cael eu newid, a byddai'r holl weithdai nawr yn dechrau am 09:00.

15.4 Cafodd aelodau o Gyngor Sir Wrecsam eu hannog i gynnig eu henwau i eistedd ar y gweithgorau ar gyfer gweithgorau'r Ganolfan Cynaliadwyedd a Hyfforddiant Newydd.

15.5 Diolchwyd i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Milington a'r Rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, Tim Christensen, am eu cyflwyniadau ysgogol a diddorol yng nghyfarfod y gweithgor ar 04 Ebrill.

15.6 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gwblhau Strategaeth amgylcheddol ddrafft ar gyfer y cyfnod 2023-2030.**

**16 Y DIWEDDARAF AM Y GANOLFAN HYFFORDDI NEWYDD**

16.1 Cyflwynodd y Dirprwy Prif Swyddog Tân Forshaw bapur yn rhoi Diweddariad ar y Ganolfan Hyfforddi Newydd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed ar gynhyrchu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu tân ac achub newydd yng Ngogledd Cymru.

16.2 Nodwyd bod dal angen cael cynrychiolydd o Wrecsam ar gyfer gweithgor y Ganolfan Hyfforddi Newydd.

16.3 Gofynnwyd a oedd ymholiadau wedi'u gwneud gyda Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o ran rhannu'r cyfleusterau hyn, a'r ymateb a gafwyd oedd bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd.

16.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i)** **nodi'r cefndir o ran adolygu cyfleusterau hyfforddiant tân ac achub yng Ngogledd Cymru**;

**(ii)** **nodi bod y ddarpariaeth hyfforddiant bresennol yn dod i ddiwedd ei hoes;**

**(iii)** **nodi bod cam nesaf y prosiect wedi dechrau i gadarnhau addasrwydd y tir a bennwyd; a**

**(iv)** **nodi'r amserlenni sydd wedi cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu achos busnes manwl at ystyriaeth yr Aelodau.**

## 17 MATERION BRYS

17.1 Nid oedd materion brys.

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Gorffennaf 2023.

**Diwedd y cyfarfod: 11:00 o'r gloch.**

*This document is available in English* **EITEM AGENDA 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad: | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys ers yr adroddiad cynnydd diwethaf a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 17 Ebrill 2023.

2. Cadarnhau’r broses a’r amserlenni gyda'r Aelodau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod ar ddyfodol darpariaeth frys i gymunedau Gogledd Cymru.

3. Gofyn am gadarnhad gan yr Awdurdod o'r opsiynau sydd i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4. Ers i’r Awdurdod gomisiynu Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys ym mis Medi 2021, mae gwaith eang wedi’i wneud a chyflwynwyd y canfyddiadau i'r Gweithgor Darpariaeth Frys dan arweiniad Aelodau. Mae’r gweithgor wedi cyfarfod bum gwaith rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mehefin 2023. Mae’r grŵp wedi bod yn ffocysu ar ystyried opsiynau’n ymwneud â model darparu gwasanaethau yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran argaeledd ac er mwyn gallu ymateb i risgiau gweithredol yn y dyfodol.

5. Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion ymgynghori'r sector cyhoeddus ac yn rhoi trosolwg o'r cyn-ymgynghoriad sydd eisoes wedi’i gynnal.

6. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio dod i benderfyniad ar yr opsiynau i'w dilyn er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

**ARGYMHELLIAD**

7. Gofynnir i'r Aelodau naill ai:

   i) Cymeradwyo'r argymhelliad i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch opsiynau 1 a 2; neu
   ii) Fel arall, cytuno i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch opsiynau 1, 2 a 3

**GWYBODAETH**

8. Cyhoeddwyd adolygiad Archwilio Cymru o Gydnerthedd Corfforaethol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2021. Argymhellir y dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd i nodi cyfleoedd i sicrhau'r trefniadau ymateb brys gorau bosibl.

9. Yn ogystal, roedd yr asesiad o'r sefyllfa gan y Prif Swyddog Tân, a gyflwynwyd i Aelodau'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, yn tynnu sylw at nifer o risgiau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Roedd y rhain yn cynnwys yr heriau o sicrhau digon o ddiffoddwyr tân ar-alwad sy'n gweithio ar y 36 gorsaf system dyletswydd rhan amser (RDS) yng Ngogledd Cymru

10. Mewn ymateb, cytunodd yr Awdurdod i gychwyn rhaglen o adolygiadau gan gynnwys Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR). Prif amcan yr ECR oedd ystyried y trefniadau presennol ac argymell opsiynau i ddarparu ymateb brys teg a chynaliadwy ledled Gogledd Cymru gyfan, gan gydbwyso'r galw a risgiau cymunedol presennol ac yn y dyfodol.

11. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei oruchwylio gan Weithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys sydd dan arweiniad Aelodau. Mae'r aelodaeth yn cynnwys chwe Aelod, un o bob awdurdod lleol cyfansoddol.

12. Comisiynwyd cwmni annibynnol, ORH, i weithio gyda thîm yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae ORH yn arbenigwyr yn y diwydiant ac maen nhw'n dadansoddi data amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio yn y sector brys. Maen nhw wedi darparu cymorth technegol mewn perthynas â dadansoddi data a modelu i werthuso'r trefniadau darpariaeth frys gyfredol ac i nodi'r lleoliadau gorau bosibl ar gyfer unrhyw orsafoedd staff dydd ychwanegol.

13. Mae pum cyfarfod o'r gweithgor wedi'u cynnal i edrych ar yr opsiynau posibl ar gyfer gwneud gwelliannau; 14 Mawrth, 4 Ebrill, 2 Mai, 5 Mehefin a 22 Mehefin 2023. Gwahoddwyd holl Aelodau'r Awdurdod i'r cyfarfod cyntaf a'r olaf.

14. Drwy drafod, mae’r Aelodau wedi diystyru dau opsiwn:

15. Parhau â'r trefniadau presennol o ran darpariaeth frys, derbyn y risg sydd ar gael yn ystod y dydd a pheidio ag adleoli diffoddwyr tân yn ddyddiol mwyach i liniaru'r risgiau hynny.

16. Parhau â'r trefniadau presennol o ran darpariaeth frys ac agor tair gorsaf staff dydd ychwanegol am gost ychwanegol o £2.25 miliwn.

17. I grynhoi, gwrthodwyd y sefyllfa bresennol oherwydd anghydraddoldeb y gwasanaeth ymateb ledled Gogledd Cymru, y risgiau sy'n gysylltiedig i ddiffoddwyr tân a’r cyhoedd, a'r costau cysylltiedig.

18. Nododd yr Aelodau eu bod yn dymuno ymgynghori ar yr opsiynau hynny sy'n ceisio bodloni nodau'r ECR trwy ailddyrannu diffoddwyr tân presennol i orsafoedd staff dydd newydd.

- **Opsiwn 1** Byddai hyn yn golygu y byddai'r 12 swydd diffoddwr tân gwledig a'r 28 swydd diffoddwr tân amser cyflawn yn cael eu hailddyrannu o orsaf y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i'r tair gorsaf staff dydd newydd. Byddai’r ddarpariaeth ar gyfer y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i fodel criw dydd, yn debyg i'r model sydd ar waith ar hyn o bryd ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Bydd hyn yn parhau i fod yn ychwanegol at ddiffoddwyr tân presennol y System RDS sy'n criwio'r ail beiriant tân ym mhob un o'r gorsafoedd hyn.

- **Opsiwn 2** Model amgen sy'n darparu gwell gwasanaeth argyfwng drwy gyflwyno tair gorsaf staff dydd newydd, ond sydd hefyd yn cyflawni arbedion o £1.1 miliwn tuag at y cynnydd yng nghyllideb 2024/25, sydd tua £6 miliwn ar hyn o bryd, mae felly’n cyfyngu’r cynnydd blwyddyn i flwyddyn i £4.9m. Mae'r opsiwn hwn yn newid y model criwio yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i fodel staff dydd, sy'n golygu mai diffoddwyr tân y System RDS yn unig sy’n darparu gofal tân gyda'r nos ac mae’n golygu cael gwared ar y trydydd peiriant o Wrecsam. Mae hyn i gyd yn golygu gostyngiad o 22 swydd diffoddwr tân amser cyflawn.

- **Opsiwn 3** Mae’r newidiadau'r un fath ag opsiwn 2, ond dim ond dwy orsaf staff dydd fyddai’n cael eu cyflwyno a byddai 5 gorsaf dân RDS yn cau fel rhan o’r newidiadau hynny hefyd. Mae hyn yn ostyngiad o 36 o swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn a 38 o swyddi diffoddwyr tân y System RDS, sy’n golygu arbedion o £2.4m gan gyfyngu ar y cynnydd mewn costau blwyddyn i flwyddyn i £3.6m.

19. Dylid nodi nad yw opsiwn 3 yn cael cefnogaeth broffesiynol y Prif Swyddog Tân. Y rheswm am hyn yw am nad yw'n gwella'r ddarpariaeth frys, gan arwain at leihad o 2,087 yn nifer yr aelwydydd yng Ngogledd Cymru sy'n gallu derbyn ymateb o fewn 20 munud. Mae hefyd yn dileu 74 o swyddi diffoddwyr tân, gan leihau capasiti Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddelio ag unrhyw Ddigwyddiadau Mawr yn y dyfodol. Hefyd, dim ond pan fydd y tair gorsaf staff dydd ychwanegol wedi'u sefydlu ac yn sicrhau darpariaeth frys yn ystod y dydd y gellir ystyried uno gorsafoedd tân y System RDS.

**YMGYNGHORI**

20. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd wrth ystyried newid mawr mewn gwasanaethau o dan amrywiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chyfraith gyffredin.

21. Ym mis Ebrill 2023, ymgysylltodd y Gwasanaeth â'r Sefydliad Ymgynghori (tCI), sef sefydliad dielw sydd wedi hen ennill ei blwyf, sy'n hybu gwaith ymgynghori o ansawdd uchel gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Maen nhw wedi cael eu defnyddio gan sefydliadau ar draws y sector gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

22. Bydd y Sefydliad yn darparu adolygiad cymheiriaid cymwys a Thystysgrif Parodrwydd i Ymgynghori i sicrhau bod yr Awdurdod yn mabwysiadu arfer gorau yn unol â Siarter Ymgynghori, a bod unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gyflawni yn ôl y safonau gofynnol.

23. Elfen allweddol o'r broses ymgynghori yw cyn-ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys cynnal grwpiau ffocws gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys partneriaid golau glas, grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, staff a chyrff cynrychioliadol. Pwrpas cyn-ymgynghori yw cael cipolwg a dealltwriaeth ehangach i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a llunio'r ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd.

24. Yn ystod y cyfnod cyn-ymgynghori, cafodd amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd eu harchwilio drwy gyfres o weithdai, seminarau a grwpiau ffocws, lle casglwyd safbwyntiau ac adborth ystod eang o bobl i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau'r Awdurdod. Roedd y themâu allweddol a gododd o'r ymgysylltiad hwn yn cynnwys:

- Cyllid – Deall y pwysau cyllidebol.
- Risgiau yn y dyfodol – Gallai newid yn yr hinsawdd a thechnoleg newydd olygu mwy o alw o ran adnoddau.
- Atal ac amddiffyn – sut bydd ein hymgysylltiad â'r cyhoedd a busnesau yn cael ei effeithio.
- Cyfathrebu – Allweddol i'n helpu i ddeall yr heriau a wynebir ac effeithiau unrhyw gynigion.

25. Daeth y Gwasanaeth â'i weithgareddau cyn-ymgynghori i ben gydag arweiniad a chefnogaeth y Sefydliad Ymgynghori ym mis Mehefin, er mwyn sicrhau parodrwydd ymgynghori mewn pryd ar gyfer cynnal proses ymgynghori lawn.

26. Yn dilyn cymeradwyaeth yr Aelodau, cynigir bod ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau ar 21 Gorffennaf, ac yn parhau hyd at 22 Medi 2023. Bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 16 Hydref 2023.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Cyllideb** | Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd gan unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth frys oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn y blynyddoedd i ddod. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd wrth ystyried newid mawr i'r gwasanaethau o dan amrywiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chyfraith gyffredin. Mae prif gorff yr adroddiad yn nodi sut mae'r awdurdod yn bwriadu cyflawni'r rhwymedigaethau hynny |
| **Staffio** | Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto a fydd yn effeithio ar staff. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiynau yr ymgynghorir arnynt, bydd staff yn cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig sy'n rhan o'r opsiynau. |

| | |
|---|---|
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer Darpariaeth Frys drwy asesiadau effaith cydraddoldeb ac integredig. |
| **Risgiau** | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau'n effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad: | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.llyw.cymru) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swydd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mehefin 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
i) nodi'r wybodaeth a ddarperir.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod y Prif Swyddog Tân (CFO) yn rheolaidd. Fe wnaethant hefyd gyfarfod cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân (FBU) cyn cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023.

6 Ar 4 Ebrill 2023, 2 Mai 2023, 5 Mehefin 2023 a 22 Mehefin 2023 mynychodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gyfarfodydd gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

7 Ar y 14 Ebrill 2023 aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i gyfarfod gweithgor y Ganolfan Hyfforddi Newydd. Dilynwyd hyn ar 10 Mai 2023 gydag ymweliadau â chanolfannau hyfforddi Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer a GTA Manceinion Fwyaf.

8 Ar 14 Ebrill 2023, aeth y Cadeirydd i 'Seremoni Dathlu Cyflawniad' ar gyfer recriwtiaid newydd yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

9 Ar 24 Ebrill 2023, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i ddigwyddiad ymddeoliad yng Ngorsaf Dân Pwllheli ar gyfer y Rheolwr Gwylfa, Mike Evans, a oedd wedi cwblhau 48 mlynedd o wasanaeth gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

10 Ar 26 Ebrill 2023, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod hybrid o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog.

11 Ar 28 Ebrill 2023, aeth y Cadeirydd i 'Seremoni Dathlu Cyflawniad' yng Ngorsaf Dân Llanfairfechan a chyflwyno tystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cwrs Ffenics.

12 Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu 'Seremonïau Dathlu Cyflawniad' ar gyfer cwblhau cyrsiau Ffenics yng Ngorsafoedd Tân Rhuthun, y Fflint a Phrestatyn. Aeth y Dirprwy Gadeirydd hefyd i ddigwyddiad ymddeoliad yng Ngorsaf Dân y Fflint ar gyfer Tommy Probert.

13 Ar 27 Mai 2023, aeth y Cadeirydd i Orsaf Dân Rhosneigr i gefnogi'r digwyddiad golchi ceir elusennol.

14 Ar 16 Mehefin 2023, aeth y Cadeirydd i 'Seremoni Dathlu Cyflawniad' yng Ngorsaf Dân Llangefni a chyflwyno tystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cwrs Ffenics.

15 Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân wedi bod yn cynnal cyfarfodydd rhithiol gydag Arweinwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i'w hysbysu am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Hyd yn hyn, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal ag arweinwyr awdurdodau Conwy, Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r aelodau yn eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb ar gyfer teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Trefniadau Archwilio Mewnol o fis Ebrill 2023** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu'r cadarnhad i'r Aelodau o benodiad Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy fel archwilydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2026.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

3 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ei ganfyddiadau. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheoli Mewnol yn flynyddol.

4 Daeth y trefniadau archwilio mewnol blaenorol gyda Chyngor Bwrdeistref Conwy i ben ddiwedd 2022/23. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y gallu mwyach i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2023, cynhaliwyd ymarfer caffael i ddod o hyd i gyflenwr dewisol.

5 Goruchwyliwyd y broses gan banel dan arweiniad aelodau sy'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Thrysorydd yr Awdurdod a argymhellodd yn unfrydol y dylid penodi Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy (MIAA).

6 O dan delerau'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr mewnol yr Awdurdod.

## SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio ar 19 Mehefin 2023 a derbyniodd adroddiad yn dilyn y broses gaffael. Rhoddodd y Pwyllgor gefnogaeth unfrydol i argymhelliad y Panel i benodi Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy fel archwilwyr mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2026.

## ARGYMHELLION

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i. Nodi penodiad Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy fel darparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2026.

## CEFNDIR

9 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheolaeth fewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

10 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ei ganfyddiadau. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

11 Daeth y trefniant presennol i ben ar 31 Mawrth 2023 ac mae angen gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – Mawrth 2026.

## GWYBODAETH

12 Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar 20 Mawrth 2023, cafodd ymarfer ei gychwyn ar gyfer caffael gwasanaethau i gwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2023 – Mawrth 2026 gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron y sector cyhoeddus ar gyfer Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd.

13 Nid yn unig y mae gan gyflenwyr ar y fframwaith hwn y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol, ond maent hefyd wedi dangos y safonau priodol mewn meysydd ehangach fel caethwasiaeth fodern a gwerth cymdeithasol.

14 Roedd yr ymarfer yn cynnwys datblygu manyleb gwasanaeth gynhwysfawr ac asesiad ariannol i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni gwerth am arian.

15 Mae'r panel o aelodau sy'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Thrysorydd yr Awdurdod wedi argymell yn unfrydol y dylid penodi Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy (MIAA). Cefnogir yr argymhelliad hwn gan swyddogion yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan MIAA o fewn eu cyflwyniad tendr.

16 Cafodd Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy ei ffurfio ym 1990 fel rhan o wasanaeth a rennir y GIG i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol ar draws cyrff y GIG. Erbyn hyn, mae cwmpas y gwaith wedi tyfu i gynnwys ystod eang o wasanaethau, o archwiliadau mewnol i lywodraethu a rheoli risg ar gyfer ystod amrywiol o gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub a Heddluoedd.

17 Mae tîm MIAA mewn sefyllfa dda i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Roedd cyflwyniad MIAA yn dangos ymrwymiad i'w staff trwy'r achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Bydd yr arweinydd ymgysylltu dwyieithog, Angharad Ellis, yn darparu cefnogaeth o ddydd i ddydd ar y contract.

18 Derbyniodd y panel gyflwyniad ar y strategaeth archwilio arfaethedig a nododd fod MIAA yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar risg, gan hefyd gydnabod yr angen am hyblygrwydd i addasu i risgiau sy'n esblygu dros gyfnod y cynllun.

19 Roedd y panel yn fodlon bod gan MIAA y gallu a'r arbenigedd i gyflawni eu gwaith arfaethedig o fewn y gyllideb a ddynodwyd.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef "hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig o ansawdd uchel, ymatebol a gwell fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb brys barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol o fewn y trefniadau gosod cyllideb. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'u gallu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Pennaeth Cyllid, Helen Howard** |
| Pwnc | **Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/2023** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am weithgarwch rheoli'r trysorlys a dangosyddion darbodus ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn un o ofynion y Cod Darbodus (y Cod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio gan godau, statudau a chanllawiau proffesiynol. Y sefyllfa fenthyca ar 31 Mawrth 2023 oedd £26.5m sydd o fewn y terfyn a gymeradwywyd gan aelodau. Gwerth benthyciadau tymor byr oedd £8.7m sydd o fewn y terfyn a osodwyd o fewn y strategaeth. Ni chynhaliwyd unrhyw fenthyciadau cyfradd amrywiol yn ystod y flwyddyn ariannol.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL NEU BWYLLGOR ARCHWILIO**

3. Bu'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus 2022/23 yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2023. Nododd y Pwyllgor Archwilio y gweithgaredd a rhoddodd ei gefnogaeth i gymeradwyo Dangosyddion Darbodus 2022/23.

**ARGYMHELLIAD**

4. Argymhellir bod yr Aelodau'n:

   i) nodi gweithgaredd rheoli'r trysorlys; ac yn
   ii) cymeradwyo'r dangosyddion darbodus terfynol ar gyfer 2022/23.

**CYFLWYNIAD**

5. Mae gweithgaredd rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael ei reoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chanllawiau perthnasol. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Rheolaeth Trysorlys Sefydliad Siartredig y Gyfrifeg Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo adroddiadau lled-flynyddol a blynyddol rheoli'r trysorlys.

6. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 mewn cyfarfod ar 14 Mawrth 2022. Mae'r Awdurdod wedi benthyg symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i'r risgiau ariannol gan gynnwys effaith refeniw newid cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli'r risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

7. Mae Cod Darbodus 2021 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Gyfalaf, dogfen gryno a gymeradwyir gan yr Awdurdod sy'n ymdrin â gwariant cyfalaf ac ariannu, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Cymeradwywyd Strategaeth Gyfalaf yr Awdurdod, sy'n cydymffurfio â gofyniad CIPFA, mewn cyfarfod ar 14 Mawrth 2022.

## CYD-DESTUN ALLANOL

### Cefndir economaidd

8. Parhaodd y rhyfel yn Wcráin i gadw chwyddiant byd-eang yn uwch na thargedau'r banc canolog ac arhosodd rhagolwg economaidd y DU yn gymharol wan gyda siawns o ddirwasgiad ysgafn. Parhaodd y cefndir economaidd yn ystod cyfnod Ionawr i Fawrth gael ei nodweddu gan brisiau ynni a nwyddau uchel a chwyddiant uchel,

9. Cynyddodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc swyddogol i 4.25% yn ystod y flwyddyn ariannol, o 0.75% ym mis Mawrth 2022.

10. **Adolygiad credyd:** Yn dilyn newidiadau credyd gan yr asiantaeth ardrethi, gostyngodd ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, Arlingclose, y terfyn hyd uchaf a argymhellir ar gyfer adneuon ansicredig ar gyfer holl fanciau/sefydliadau'r DU a'r tu allan i'r DU ar ei restr gwrthbarti i 35 diwrnod fel mesur rhagofalus. Roedd y banciau/sefydliadau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i gyd yn parhau ar y rhestr.

11. Gan fod disgwyl i anweddolrwydd y farchnad barhau'n nodwedd, o leiaf yn y tymor agos ac, fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbartïon yr Awdurdod a argymhellwyd gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

## CYD-DESTUN LLEOL

12. Mae penderfyniadau dydd i ddydd ar fenthyca yn cael eu dirprwyo i swyddogion Cyllid yr Awdurdod, y mae'n ofynnol iddynt sicrhau'r math mwyaf priodol o fenthyca yn dibynnu ar y cyfraddau llog cyffredinol ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfraddau sefydlog tymor byrrach, a allai ddarparu cyfleoedd cost is yn y tymor byr/canolig.

13. Cymerir ymagwedd ofalus tuag at fuddsoddi cronfeydd gwarged. Mae adneuon arian parod sydd eu hangen er mwyn cynnal cyfalaf gweithio yn cael eu gwneud gyda banciau neu gymdeithasau adeiladu. Defnyddir sefydliadau eraill ar gyfer buddsoddiadau tymor hwy yn unig.

**Gweithgaredd Benthyca**

14. 13. Fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca fu taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog is a chael sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer, gyda hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid fel amcan eilaidd. Mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â mater allweddol fforddiadwyedd heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled a, lle bo'n ymarferol, i gadw benthyciadau a buddsoddiadau yn is na'u lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol.

15. Cynyddodd cost benthyca tymor hir a thymor byr yn ddramatig dros y flwyddyn, gyda chyfraddau ar ddiwedd mis Mawrth bron i 4% yn uwch na'r rhai ar ddechrau mis Ebrill. Mae cynnydd mewn cyfraddau wedi cael eu gyrru'n bennaf gan chwyddiant a'r angen i fanciau canolog reoli hyn drwy godi cyfraddau llog. Mae cyfraddau bellach wedi gostwng ers cyrraedd eu hanterth ym mis Medi ond maent yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac yn llawer uwch na'r normau hanesyddol diweddar.

16. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog wedi cael effaith ar gostau llog ar gyfer eleni, oherwydd y gofyniad i gymryd benthyciadau newydd sy'n gyfanswm o £10m. Roedd angen y rhain i gymryd lle benthyciadau oedd yn aeddfedu ac i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Bydd effaith y cyfraddau llog uwch yn parhau i gael effaith barhaus ar y gyllideb refeniw.

17. Y ddyled o fenthyciadau oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2023 oedd £26.46m. Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Darperir dadansoddiad pellach o broffiliau aeddfedrwydd yn Atodiad A.

18. Nodir isod y benthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a ddelir ar 31 Mawrth 2023 ac maent yn £20.46m:

| Trefniadaeth | Dadansoddiad Canran | Swm £ |
|---|---|---|
| PWLB (1 i 2 flynedd) | 31.2% | £6.39m |
| PWLB (3 i 5 flynedd) | 38.9% | £7.96m |
| PWLB (6 i 10 flynedd) | 7.9% | £1.62m |
| PWLB (10 mlynedd a mwy) | 22.0% | £4.49m |
| **Cyfanswm PWLB** | **100%** | **£20.46m** |

19. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd benthyciadau PWLB newydd gwerth cyfanswm o £10m. Mae portffolio'r benthyciad yn cynnwys Rhandaliad Cyfartal o Brif Fenthyciadau (EIP). Ar y cyfan, cynyddodd y benthyciadau a ddelir gan yr Awdurdod £2.1m o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

20. Yn ogystal â benthyca drwy'r PWLB, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau tymor byr o £6.0m wedi'u cymryd gydag awdurdodau lleol eraill ar ddiwedd y flwyddyn, fel y nodir isod:

| Trefniadaeth | Dadansoddiad Canran | Swm |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside | 50.0% | £3.0m |
| Cyngor Sir Warwick | 50.0% | £3.0m |
| **Cyfanswm benthyca tymor byr** | **100%** | **£6.0m** |

21. Roedd y benthyciadau hyn yn cynnig opsiwn tymor byr cost isel i'r Awdurdod, gyda chyfraddau llog ar gyfartaledd yn 1.3%, sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfraddau PWLB cyffredinol.

22. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023 oedd bod 22.7% o fenthyciadau tymor byr yn fenthyciadau tymor byr a gymerwyd gydag Awdurdodau Lleol eraill, a 4% yn fenthyciadau PWLB a oedd i fod i aeddfedu o fewn 12 mis. Cyfanswm y benthyciadau aeddfedu o fewn 12 mis ar 31 Mawrth 2023 oedd 26.7% o'i gymharu â'r dangosydd o 60%. Mae'r dull hwn yn gyson â chyngor Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys yr Awdurdod.

23. Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cadarnhau y dylai'r portffolio benthyca gael uchafswm o 35% o ddyled mewn benthyciadau amrywiol, gyda hyd at 100% o fenthyciadau â thelerau sefydlog. Yn ystod 2022/23 dim ond ar delerau cyfradd sefydlog y benthycodd yr Awdurdod oherwydd cyfraddau llog cyffredinol ac i roi sicrwydd.

24. Roedd cyfanswm y benthyciadau dyledus ar ddiwedd y flwyddyn o £26.46m yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf cymeradwy (CFR) ond yn uwch na'r sefyllfa diwedd blwyddyn a ragwelwyd. O ran cyngor yr ymgynghorwyr proffesiynol, manteisiodd yr Awdurdod ar amodau cyffredinol y farchnad a sicrhau benthyciadau ar gyfraddau ffafriol i sicrhau y gellid ad-dalu dyled aeddfedu a chynhaliwyd buddsoddiadau o £4.1m ar ddiwedd y flwyddyn. Y sefyllfa benthyca net, felly, oedd £23.4m.

25. Cyfanswm y llog a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol oedd £0.465m, o'i gymharu â'r gyllideb o £0.325m sy'n adlewyrchu'r cynnydd sylweddol yn y gyfradd llog yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Buddsoddiadau**

26. Cyhoeddodd CIPFA Reolaeth Trysorlys ddiwygiedig yn y Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllawiau Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

27. Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn 2022/23, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £0m a £4.1m, oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Roedd yr holl fuddsoddiadau yn adneuon trysorlys dros nos.

28. Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2022/23 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 14 Mawrth 2022 yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer gwrthbleidiau:

| Sefydliad | Disgrifiad: __________ | Terfyn |
|---|---|---|
| **Banciau** | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel tymor hir (BBB) ar hyn o bryd. | £5m |
| **Llywodraeth Ganolog** | Swyddfa rheoli dyledion | Diderfyn |
| **Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF)** | Dim ond ar y cyd â chyngor gan Arlingclose. | £1m fesul cronfa |
| **Awdurdodau Lleol** | Pawb ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a chanfodiadau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a chyda chyngor gan Arlingclose). | £2m |
| **Cymdeithasau Adeiladu** | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio). | £2m |
| **Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn)** | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy. | £2m/9 mis |

29. Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion orau bosibl, neu incwm.

30. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau’r risg o golledion oherwydd diffygdalu a’r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. Gan mai dim ond at ddibenion cyfalaf gwaith y mae'r Awdurdod yn dal arian, y sefyllfa ddiofyn yw defnyddio cyfrifon blaendal yr Awdurdod. Lle bo’n briodol, gofynnir am gyngor ac arweiniad gan ymgynghorwyr proffesiynol yr Awdurdod, Arlingclose.

31. Mae'r gyfradd banc wedi cynyddu o 0.75% ar ddechrau'r flwyddyn i 4.25% ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Fe wnaeth cyfraddau arian parod byr, a oedd wedi amrywio rhwng 0.7% - 1.5% ar ddechrau mis Ebrill, godi tua 3.5% ar gyfer adeg aeddfedu dros nos/7 diwrnod.

## Dangosyddion darbodus

32. Cymeradwywyd dangosyddion darbodus amcangyfrifedig yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2022. Mae'r Cod Darbodus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo gwerth gwirioneddol y dangosyddion darbodus hynny ar ddiwedd y flwyddyn.

33. Mae Atodiad A yn darparu atodlen o'r holl ddangosyddion darbodus gorfodol. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r terfynau allweddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod a'r alldro ar gyfer 2022/23:

| | **2022/23 Dangosydd** | **2022/23 Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca | £23.895m | £26.460m |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | £29.389m | £28.396m |

34. Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR) yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddiben cyfalaf. Yn y tymor byr, gall y gofyniad benthyca fod yn fwy na'r gofyniad cyllido cyfalaf oherwydd effaith arian parod a buddsoddiadau. Mae'r tabl uchod yn dangos bod y sefyllfa fenthyca gros yn is na'r CFR gwirioneddol ar gyfer 2022/23 o £1.94m.

35. Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy sy'n ofynnol gan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos, yn ystod 2022/23, fod yr Awdurdod wedi cynnal ei fenthyca gros o fewn ei Derfyn Awdurdodedig.

36. Y Ffin Weithredol yw sefyllfa fenthyca ddisgwyliedig yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai'n is neu dros y Ffin yn dderbyniol ar yr amod nad yw'r Terfyn Awdurdodedig yn cael ei dorri.

| | **2022/23** |
|---|---|
| Dangosydd - Terfyn Awdurdodedig | £31.389m |
| Dangosydd - Ffin Weithredol | £29.389m |
| Uchafswm y sefyllfa fenthyca yn ystod y flwyddyn | £26.738m |
| Isafswm sefyllfa benthyca yn ystod y flwyddyn | £20.244m |

**CYDYMFFURFIAETH**

37. Roedd yr holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys gymeradwy yr Awdurdod.
38. Dangosir cydymffurfiaeth â'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn y tabl uchod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Yn sicrhau bod prynu asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae perygl y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu â cholli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad a gweithgarwch rheoli trysorlys darbodus gan swyddogion Cyllid yr Awdurdod, yn unol â chyngor ymgynghorwyr y trysorlys, yw lliniaru'r risg hon. |

**Atodiad A**

**Dangosyddion darbodus**

| | | 2022/23 Dangosydd Amcangyfrifedig £'00 | 2022/23 Gwirioneddol £'00 |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 2,916 | 3,366 |
| 2 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 29, | 28,787 |
| 3 | Benthyca | 23,895 | 26, |
| 4 | Terfyn Awdurdodedig | 31,389 | 30,787 |
| 5 | Ffin Weithredol | 29, | 28,787 |
| 6 | Cymhareb o Gostau Ariannu i Wariant Net | 5.7% | 6.2% |
| 7 | Buddsoddiadau | 0 | 4,107 |
| 8 | Benthyciadau cyfradd llog sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 100% | 100% |
| 9 | Benthyciadau cyfradd llog sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 0% | 0% |
| 10 | Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca Cyfradd Sefydlog | | |
| | O dan 12 mis | 0% - 60% | 26.7% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 0% - 45% | 4.5% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 0% - 45% | 38.9% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 0% - 75% | 7.9% |
| | 10 mlynedd ac uwch | 0% - 100% | 22.0% |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith Williams (Rheolwr Archwilio)- 01492 576217**<br>keith.williams@conwy.gov.uk |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol. Mae archwiliad mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Panel Gweithredol ynglŷn â holl system y rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'n gwybodaeth barhaus o'r sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Roedd dyraniad wedi'i gynllunio o 58 diwrnod (50 diwrnod ac 8 wedi'u dwyn ymlaen o 2021/22). Mae'r adroddiad yn nodi bod 48 diwrnod o waith Archwilio Mewnol wedi'i gyflawni yn ystod 2022/23. O ganlyniad, cytunwyd y bydd 10 diwrnod yn cael eu defnyddio yn 2023/24 i gynnal archwiliadau dilynol ar y Gyflogres a Chredydwyr.

6 Mae'r adolygiadau archwilio yn rhoi lefel gadarnhaol o sicrwydd ynghylch digonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, er bod 20 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn ei lle i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt.

7 Nid yw gwaith yr adran Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n cymhwyso'r farn hon ac nid oedd unrhyw faterion o bwys yn berthnasol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

8 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig i alluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

9 Derbyniwyd ac ystyriwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2023. Nododd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad, gan gynnwys yr asesiad gan y Pennaeth Archwilio a Chaffael, a gadarnhaodd fod prosesau rheoli mewnol yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 yn ddigonol.

## ARGYMHELLION

10 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.

## CEFNDIR

### Rôl Archwilio Mewnol

11 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."

12 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu, i'r rheolwyr, asesiad gwrthrychol ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:

- Y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

13 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

14 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

**GWYBODAETH**

**Barn Archwilio Mewnol 2022/23**

15 Mae'r Pennaeth Archwilio yn fodlon bod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth am y sefydliad a'i weithdrefnau, yn ein galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Awdurdod.

16 Yn nhyb y Pennaeth Archwilio, am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, mae gan yr Awdurdod **brosesau rheoli digonol ac effeithiol** ar gyfer rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

17 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr ar wahân i'r rhai a nodwyd.

18 Yn ogystal, wrth ddod i'n barn, rydym wedi ystyried:

- Canlyniadau'r holl archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023;
- Canlyniadau camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau o flynyddoedd blaenorol;
- A oes unrhyw argymhellion yn y categori Hanfodol neu Fawr heb eu derbyn gan y rheolwyr a'r risgiau dilynol;
- Effeithiau unrhyw newidiadau sylweddol o ran amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio; ac

- Y cyfyngiadau o ran adnoddau a osodwyd ar Archwilio Mewnol sydd wedi amharu ar allu'r Gwasanaeth i gwrdd ag anghenion archwilio mewnol llawn yr Awdurdod.

19 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Crynodeb o'r Gwaith sy'n Cefnogi'r Farn Archwilio 2022/23**

20 Mae atodlen yn rhoi barn archwilio ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a chrynodeb o'r negeseuon allweddol mewn perthynas â'r holl aseiniadau archwilio a gyflawnwyd yn ystod 2022/23 ynghlwm yn **Atodiad A**.

21 Mae'r atodlen yn crynhoi'r gwaith archwilio, barnau a nifer yr argymhellion a wnaed mewn perthynas â phob maes a adolygwyd, sy'n sail i'r sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor Archwilio o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod ar gyfer 2022/23.

22 Lle bo'n berthnasol, caiff adroddiadau archwilio mewnol eu categoreiddio i roi barn archwilio ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol ar gyfer y system neu'r sefydliad penodol hwnnw. Mae'r farn archwilio ar yr aseiniadau wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Uchel
- Sicrwydd Boddhaol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Dim Sicrwydd

I gefnogi'r farn archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi'u categoreiddio fel Hanfodol, Mawr, Cymedrol a Mân, yn unol â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn asesu ac yn mesur risg.

23 Cwblhawyd dau adroddiad archwilio ac archwiliad dilynol yn ystod y flwyddyn yn cwmpasu:

- **Y Gyflogres (Rheolaethau Allweddol)** – Cynhaliwyd adolygiad i roi lefel o sicrwydd i reolwyr bod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni. Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r meysydd canlynol:
  - Polisïau a gweithdrefnau swyddfa,
  - Hawliau mynediad System iTrent,
  - Staff Newydd a Staff sy'n Gadael,
  - Tâl Rhan Amser a newidiadau i dâl Amser Cyflawn,
  - Cyflwyniadau i CThEF,
  - Didyniadau o gyflog,

- Taliadau BACS,
- Gordaliadau,
- Cyfrifon rheoli cyflogres a chysoniadau.

Gwnaeth yr archwiliad wyth argymhelliad a rhoddodd lefel *Foddhaol* o sicrwydd.

- **Credydwyr (Rheolaethau Allweddol)** – Cynhaliwyd adolygiad i roi lefel o sicrwydd i reolwyr bod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni. Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r meysydd canlynol:

  - Polisïau a Gweithdrefnau,
  - Llofnodwyr Awdurdodedig a Datganiadau Buddiannau,
  - Archebu gwaith, nwyddau a gwasanaethau,
  - Derbyn Nwyddau a Gwasanaethau,
  - Gwirio Anfonebau, Taliadau Dyblyg ac Anghysonderau,
  - Taliadau BACS,
  - Cyfrif Rheoli Credydwyr a Chysoniadau Banc,
  - Dangosyddion Perfformiad.

  Gwnaeth yr archwiliad 12 argymhelliad a rhoddodd lefel *Foddhaol* o sicrwydd.

24 Mae canlyniad pob archwiliad a gwerthusiad o ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a'u graddiad risg. Aseswyd bod pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd.

25 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, gwnaed ugain o argymhellion. Cafodd cynlluniau gweithredu, yn nodi'r ymateb y cytunwyd arno i argymhellion yr archwiliad, eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliadau, a daeth y rhain yn ôl gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r rheolwyr wedi cytuno i roi deunaw o argymhellion yr archwiliad ar waith. Yn adroddiad archwilio'r Credydwyr, cafodd dau argymhelliad (Arg 8 ac 11) eu categoreiddio fel Mân, ac mae'r rheolwyr o'r farn bod camau rheoli ar waith i wneud iawn am hyn.

26 Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA, gweithredir proses ddilynol ffurfiol o fewn yr Adran i gadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwiliad Mewnol wedi eu gweithredu gan reolwyr o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt. Fel arfer, cynhelir adolygiad dilynol chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

27 Yn **Atodiad B**, ceir amserlen o’r archwiliadau dilynol a wnaed yn ystod 2022/23. Mae’n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac o ganlyniad a weithredwyd gan y rheolwyr ymhob maes ac hefyd y newidiadau sydd wedi effeithio ar y farn archwilio wreiddiol. Mae'n amlwg bod gwelliant yn y lefelau o reolaeth fewnol mewn perthynas â’r archwiliad Gyrru Peiriannau Tân mewn Argyfwng (EFAD) a gwblhawyd yn 2021/22, gyda barn archwilio ddiwygiedig o *Sicrwydd Uchel*.

28 Yn ystod 2022/23, darparwyd 48 diwrnod archwilio o gymharu â’r dyraniad arfaethedig o 58 diwrnod, fel y nodwyd yn y cynllun archwilio blynyddol. Mae crynodeb o weithgarwch archwilio ynghlwm yn **Atodiad C** ac mae'n dangos y dyraniad arfaethedig o adnoddau archwilio o ran y diwrnodau a neilltuwyd dros adrannau a gwasanaethau ac yn cymharu'r gwaith gwirioneddol a wnaed ar gyfer 2022/23 gyda’r cynllun. Cytunwyd gyda'r rheolwyr y bydd y balans o 10 diwrnod yn cael ei ddefnyddio yn 2023/24 i gynnal archwiliadau dilynol o'r Gyflogres a Chredydwyr.

29 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae angen i'r cynllun fod yn hyblyg er mwyn gallu adlewyrchu ac ymateb i risgiau a blaenoriaethau newidiol yr Awdurdod. Adolygwyd y cynllun yn ystod y flwyddyn a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Cafodd yr archwiliad o’r Storfeydd Canolog ei ganslo ar gais y rheolwyr oherwydd i'r Rheolwr Storfeydd ymddeol ym mis Chwefror 2023 ar yr adeg yr oedd yr archwiliad i fod i gychwyn, ac oherwydd y pwysau gwaith oedd ar y staff.

## Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

30 Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn ac yn defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risg wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi’i gyflawni yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU 2017.

30 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi datblygu Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIP), sy'n ymdrin â phob agwedd ar weithgarwch archwilio mewnol ac sy'n ein galluogi i werthuso cydymffurfiad â phob agwedd ar y PSIAS.

32 Cyflwynodd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ofyniad am asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol, y mae'n rhaid ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygydd annibynnol cymwys o'r tu allan i'r sefydliad. Cwblhawyd asesiad o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ddiweddar gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol (CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Merthyr Tudful, Cyngor Bro Morgannwg a CBS Rhondda Cynon Taf). Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol ym mis Rhagfyr 2022, ac roedd hwn yn cadarnhau bod canlyniadau'r asesiad yn gadarnhaol a bod y Gwasanaeth yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â'r PSIAS a'r Cod Moeseg.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef "hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig o ansawdd uchel, ymatebol a gwell fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb brys barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Darperir Gwasanaethau Archwilio Mewnol fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac o fewn cyfyngiadau cyllidebol. |
| Cyfreithiol | Amh. |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno'n unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'u gallu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

*This report is also available in English* **EITEM AGENDA 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'r Aelodau ar gyfer 2022/23.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/Solace (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 wedi'i nodi yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith. Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2023/24 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2022/23. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

5 Yn dilyn yr asesiad hwn, cyflwynir fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Awdurdod i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi'n fewnol ac yn allanol wedyn.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23;
(ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2023/24; a
(iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23.

## CEFNDIR

7 Ers 2010/11 bu'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol ar draws y sefydliad.

## GWYBODAETH

9 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, sef Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

(i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
(ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
(iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

11 Nodir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23 yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2023/24.

12 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

13 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaengynllun gwaith 23/24 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn dangos y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i alluogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith llywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority



Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

# Cynnwys


Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da 3

Elfennau Allweddol sy'n Cyfrannu at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu 4

Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu 5

Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod 7

Egwyddorion Craidd 8

Sut Aeth yr Awdurdod i'r Afael â'r Camau Gwella Llywodraethu o 2022/23 15

Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu 2023/24 17

Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol 19

Barn a Chasgliad Llywodraethu 20




# Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da

Mae Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/Solace (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i ddangos:


- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Golyga hyn ei fod yn destun cyfres wahanol o gyfyngiadau a chymhellion allanol a mewnol i'r rhai a geir yn y sector preifat, a phob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu. Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw allbynnau a gynlluniwyd yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u cyflawni
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, darbodus, effeithiol a theg.

Mae'r egwyddorion craidd sy'n sail i Fframwaith CIPFA/Solace wedi'u nodi isod.  Mae'r tudalennau canlynol yn egluro sut mae'r Awdurdod yn cyflawni'r egwyddorion hyn.



# Cyfranwyr allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu

| | |
|---|---|
| **Yr Awdurdod Tân ac Achub** | Mae’n darparu'r arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. |
| **Y Panel Gweithredol** | Mae’n monitro perfformiad y Gwasanaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol. |
| **Gweithgorau'r Awdurdod Tân** | Mae’n ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a gosod cyllideb yr Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro’n gwneud argymhellion ar gyfer amcanion gwella/lleihau risg/llesiant i'r Awdurdod. |
| **Y Pwyllgor Archwilio** | Mae’n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli ac yn goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a’r cyfrifon blynyddol. |
| **Y Pwyllgor Safonau** | Mae’n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Awdurdod ac yn goruchwylio’r polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, lle mae caniatâd statudol i wneud hynny, mae’n cael adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu’n goruchwylio ymchwiliadau ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| **Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth** | Mae’n gosod ac yn arwain y gwaith o weithredu'r safonau llywodraethu ar draws y Gwasanaeth. Mae’n cael y cynllun gwella blynyddol ac yn cyfrannu at yr hunanasesiad blynyddol. |
| **Archwilio Mewnol** | Mae’n darparu barn annibynnol a gwrthrychol yn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu. Mae’n ymchwilio i dwyll ac afreoleidd-dra. |



# Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod system lywodraethu gadarn. Mae crynodeb o'r prif elfennau sy'n cyfrannu at y broses hon ar dudalen 2 ac yn eu plith mae:

- Adolygu effeithiolrwydd Cyfansoddiad yr Awdurdod yn rheolaidd.
- Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgor sy'n:
  - monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
  - adolygu'r trefniadau llywodraethu yn rheolaidd
  - ystyried ac adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
  - adolygu, craffu a chymeradwyo'r datganiad o gyfrifon blynyddol.
- Bod â Bwrdd Gweithredol sy'n:
  - rhoi arweiniad ar lywodraethu
  - cyfrannu at gwblhau ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
  - darparu cyfeiriad clir i'r Gwasanaeth ac uwch reolwyr.
- Defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethu, er enghraifft:
  - adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
  - trefniadau rheoli risg
  - adroddiadau rheoleiddiwr allanol
  - yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Nodir y cyflawniadau yn erbyn yr egwyddorion craidd ar dudalennau 6-12. Mae camau gwella'r Awdurdod y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/23 wedi'u cynnwys ar dudalennau 13-16, sy'n cadarnhau'r cynnydd a wnaed.

# Trefniadau Llywodraethu

Sefydlwyd yr Awdurdod newydd yn haf 2022 yn dilyn etholiadau lleol. Gweithredwyd nifer o ddiwrnodau ymgysylltu ag Aelodau i gefnogi'r broses o sefydlu aelodau newydd yr awdurdod, gan ganolbwyntio ar y trefniadau sicrwydd a llywodraethu yn yr Awdurdod.

Mae amserlen arferol cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn parhau gyda chyfarfodydd yn cael eu mynychu o bell. Mae'r trefniant hwn yn parhau i weithio'n effeithiol ac mae'n debygol o barhau hyd nes y gellir dod o hyd i ateb technegol i alluogi gweddarlledu a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Saesneg i gyfarfodydd yr Awdurdod os yw rhai cyfranogwyr yn dymuno mynychu yn bersonol ac eraill yn dymuno mynychu o bell.

Ar ddechrau 2023, mae'r Awdurdod wedi sefydlu tri gweithgor i gefnogi datblygiad tair blaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys
- Gweithgor y Strategaeth Amgylcheddol
- Gweithgor y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu newydd.

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023 cymeradwyodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol diwygiedig 2021-24 sydd wedi:

- cadarnhau amcanion hirdymor presennol yr Awdurdod
- amlinellu pa gamau gweithredu oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24
- adlewyrchu'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod
- ystyried canfyddiadau ac argymhellion diweddar Archwilio Cymru
- ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- sicrhau parodrwydd ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol wedi'i ddiweddaru ac argymhellion o swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a
- chyd-fynd â chyllideb refeniw'r Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolig.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân, yn cynnwys Prif Swyddogion, Rheolwyr Ardal a Phenaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad i graffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella i ddarparu her ac uwch oruchwyliaeth i raglenni, prosiectau a pholisïau.

Yn dilyn cyflwyno strwythur sefydliadol newydd ym mis Ebrill 2022, cwblhawyd 'adolygiad cyffyrddiad ysgafn' o'r strwythur yn unol â'i ben-blwydd cyntaf. Gan sicrhau ymgynghoriad â staff, mae hyn wedi arwain at y sefydliad yn creu capasiti ychwanegol, gweithio mwy effeithlon ac effeithiol, gan leihau costau.

Mae Strwythur Llywodraethu'r Gwasanaeth dros bwyllgorau a grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, bellach wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad. Dangos llywodraethu cadarn ar draws adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae pwysigrwydd hysbysu ac ymgysylltu â staff o hyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae cyfathrebu mewnol wedi cynyddu'n sylweddol e.e. trwy'r platfform Workplace Facebook, rhaglen well o ymweliadau gan Brif Swyddogion â Gorsafoedd Tân ac adrannau, a chyfarfodydd rheolaidd â grwpiau Rheolwyr Canol a Goruchwyliol i raeadru gwybodaeth am y cynnydd hyd yma ac i drafod yr hyn a ddisgwylir gan staff ar bob lefel.

# Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod

## Egwyddorion Llywodraethu Da

- Ymddwyn ag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth cyfraith
- Sicrhau bod ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid
- Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a fwriadwyd
- Datblygu gallu'r Awdurdod, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i weithwyr
- Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref
- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

### Ffynonellau Tystiolaeth

- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynllunio ariannol
- Trefniadau partneriaeth
- Strategaeth a pholisïau AD
- Rheolau Gweithdrefnau Contract
- Cyfansoddiad
- Disgrifiadau swydd
- Prif Swyddog Tân
- Trysorydd
- Swyddog Monitro
- Adroddiadau cyhoeddedig
- Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned
- Strategaeth Gyfathrebu
- Cynllun Gwella a Llesiant
- Asesiadau Effaith Integredig

### Ffynonellau Sicrwydd

- Adroddiadau perfformiad
- Adroddiadau ariannol
- Trefniadau democrataidd
- Adroddiadau gan reoleiddwyr ac archwilio allanol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Byrddau partneriaeth
- Adborth gan gwsmeriaid
- Ymgynghoriadau
- Strwythur Llywodraethu

### Aelodau

- Yr Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau

### Gweithrediaeth

- Y Bwrdd Gweithredol

### Ffynonellau Tystiolaeth

- Arweinyddiaeth
- Gwerthoedd Craidd
- Trefniadau cydraddoldeb
- Trefniadau Rhyddid Gwybodaeth
- Codau Ymddygiad
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd
- Polisi chwythu'r chwiban
- Pwyllgorau Archwilio a Safonau
- Cyngor ac arweiniad arbenigol
- Rheoli risg
- Rheolaethau mewnol
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Rheoli gwybodaeth
- Datblygu staff ac

⇩

**Asesiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân**

⇩

**Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu a adolygir yn chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol**

# Egwyddorion Craidd

## Ymddwyn ag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth cyfraith

- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau ac yn cynnwys y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir o fewn y gyfraith ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.
- Lle bo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio penderfyniadau.
- Mae Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion ar waith, sy'n gofyn am ddatgan buddiannau busnes a chofnodi rhoddion a/neu letygarwch a gafwyd.
- Mae gan yr Awdurdod weithdrefnau i dderbyn ac ymateb i unrhyw gwynion a geir. Mae adroddiad cryno o gwynion a negeseuon o werthfawrogiad yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn.
- Mae polisïau allweddol ar waith i atal a lleihau'r perygl o dwyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd a
- Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contract. Pan amheuir afreoleidd-dra, mae trefniadau ar waith i sicrhau yr ymchwilir iddo'n drwyadl.
- Mae'r polisi recriwtio, prosesau sefydlu a hyfforddiant yn ymgorffori ymddygiadau personol sydd â gwerthoedd moesegol. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth wedi'u gwreiddio'n llawn ac yn cynnwys; gwasanaeth i'r gymuned, anelu at ragoriaeth, pobl ac amrywiaeth a chynwysoldeb.
- Cyflawni gwobrau Efydd a Phlatinwm Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Sefydlwyd y Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol.
- Ymchwilir i achosion disgyblu ac unrhyw honiadau o gamwedd yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth.
- Cyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Caiff amcanion cydraddoldeb eu hadolygu bob blwyddyn a'u monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Yn rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gyflawni o leiaf sgiliau Cymraeg Lefel 2.
- Cyhoeddir y Cynllun Gwella a Llesiant ar wefan yr Awdurdod. Mae hwn yn manylu ar yr amcanion gwelliant sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith i atgyfeirio pobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.
- Mae'r holl gynlluniau adrannol, lle bo'n berthnasol, yn dangos eu bod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno llinell adrodd gyfrinachol newydd 'Safecall' ar gyfer staff.

## Ymddwyn ag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth cyfraith

- Mae pob cyfarfod yn cael ei hysbysebu ac mae cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn cael eu gwe-ddarlledu. Mae agendâu a phapurau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau hawdd eu deall/ hawdd eu darllen/Cymraeg o ddogfennau.
  - Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn rhanddeiliaid cyn datblygu a gweithredu newidiadau allweddol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y Cynllun Gwella a Llesiant.
  - Mae'r Gwasanaeth wedi dechrau ar Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac mae'n gweithio tuag at arfer gorau wrth baratoi ar gyfer unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus trwy weithio gyda'r Sefydliad Ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y Gwasanaeth yn cynnal dadansoddiad trylwyr o randdeiliaid fel rhan o'i baratoadau cyn ymgynghori fel y gall ddeall yn llawn pwy allai gael eu heffeithio a sut, yn ogystal â'r ffordd orau o ymgysylltu â nhw. Bydd y broses hon hefyd yn cynnwys cynnal grwpiau ffocws/gweithgorau i gasglu safbwyntiau sy'n dod i'r amlwg a allai lywio ein hymgynghoriad.
- Mae'r ymrwymiad i fod yn agored hefyd yn cael ei ddangos trwy:
  - gwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol
  - y Weithdrefn Cwyno a Chanmoliaeth, sy'n cynnwys y gallu i uwchgyfeirio materion pwysig
  - y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd (a gyflwynwyd i gyfarfod Gorffennaf 2018 y Panel Gweithredol)
  - ymgysylltu â Chyrff Cynrychioli Gweithwyr
  - aelodaeth o Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru a Chyngor Hil Cymru
  - ymgysylltu â Grŵp Mynediad Arfon a Chanolfan Merched Gogledd Cymru
- Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys:
  - cyfathrebu wedi'i gyfeirio gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook a Twitter – mae hyn yn cynnwys cyfrifon corfforaethol yn ogystal â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi'u cynnal gan staff yr orsaf dân i ehangu ymgysylltiad yn y cymunedau lleol.
  - y gallu i gofrestru ar gyfer diweddariadau e-bost ar faterion penodol trwy'r wefan
  - ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Ffenics, Cadetiaid tân ac ymweliadau ysgol
  - gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau
  - grŵp Gweithredu Cadarnhaol, dan gadeiryddiaeth Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb, i gynllunio a chyfarwyddo digwyddiadau ar gyfer yr holl waith recriwtio diffoddwyr tân
  - mynychu diwrnodau agored/digwyddiadau – er enghraifft digwyddiadau wedi'u trefnu fel yr Eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau gorsafoedd tân wedi'u trefnu gan staff
  - mae'r cyfathrebu mewnol yn cynnwys cylchlythyr electronig y Diweddariad Wythnosol i staff
  - Ymgyrchoedd cyfathrebu allanol, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- Mae trefniadau partneriaeth ar waith i gyflawni rhai canlyniadau. Er enghraifft, mae Prif Swyddogion yn mynychu'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol (a gafodd eu diwygio i dri yn ystod 22/23) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Cydweithio â phartneriaid eraill yn y Gwasanaethau Brys.
- Ymrwymiad i ymgysylltu â staff ddwywaith y flwyddyn drwy'r arolwg 'Teulu Tân'.

## Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Awdurdod ac yn manylu ar yr amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae gan y Gwasanaeth bedwar gwerth craidd – Pobl; Amrywiaeth a Chynwysoldeb; Anelu at Ragoriaeth; a Gwasanaeth i'r Gymuned. Mae'r rhain yn crynhoi'r egwyddorion a'r gwerthoedd personol yr anogir y staff i'w mabwysiadu a'u harddangos. Gwerthoedd Craidd
- Mae'r Gwasanaeth wedi ennill achrediad y Rhuban Gwyn sy'n dangos ymrwymiad i ddileu trais yn erbyn menywod.
- Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau ar draws y Gwasanaeth wedi cael eu diweddaru. Ceir cydweithio parhaus â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac ystyried y risgiau presennol. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cynnwys ffrwd waith parhad busnes.
- Nod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a phroses y gyllideb flynyddol yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.
- Gwneir gwaith partneriaeth lle mae amcanion a manteision ar y cyd yn deillio o gydweithio – er enghraifft, Bwrdd Lleihau Tanau Bwriadol Strategol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi a rheoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Adolygir hwn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u hasesu'n briodol.
- Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi'r risgiau hyn, a chânt eu monitro'n rheolaidd gan yr Adran Cynllunio Corfforaethol a'u hadrodd i'r Panel Gweithredol.
- Mae penderfyniadau allweddol yn destun asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd, diogelwch a lles; y Gymraeg; cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021.
- Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith i gyfeirio pobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.
- Mae'r Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn darparu llywodraethu a goruchwyliaeth strategol.



## Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a fwriadwyd

- Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'r gwaith o osod amcanion yr Awdurdod a nodir yn y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae hyn yn amlinellu sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl. Cyhoeddir asesiad o berfformiad yr Awdurdod ym mis Hydref bob blwyddyn..
- Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi a rheoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Adolygir hwn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.
- Yn dilyn craffu gan y Grŵp Gweithredol, cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau.
- Mae monitro argaeledd, digwyddiadau, y gweithlu a'r cyllidebau, drwy'r strwythur llywodraethu, yn sicrhau bod materion yn cael eu nodi ac ymyriadau priodol yn cael eu cytuno.
- Mae Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a Dysgu Gweithredol ar y Cyd ar gael, y mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn eu llywodraethu a'u goruchwylio'n strategol ac yn gweithredu unrhyw newidiadau.
- Ceir cryn dipyn o waith partneriaeth ledled Cymru i ymateb i faterion sy'n wynebu'r sector tân a materion eraill mwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Mae cydweithio â nifer o asiantaethau yn agwedd bwysig ar waith yr Awdurdod gan gynnwys atal ac amddiffyn, ymateb i ddigwyddiadau a defnyddio adnoddau. Mae'r Gwasanaeth yn aelod effeithiol o Gyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan, y mae'r Prif Swyddog Tân yn Ddirprwy Gadeirydd arno, gan gefnogi ein hymateb i'r adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022 ar Gydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys. https://www.audit.wales/cy/publication/cydweithio-rhwng-y-gwasanaethau-brys.
- Mae prosesau cynllunio'r gyllideb yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol ag amcanion, strategaethau a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod. Mae'n dangos sut y bydd yr adnoddau'n cael eu defnyddio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i gyflawni canlyniadau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu llywodraethu a goruchwyliaeth strategol.
- Canfu adolygiad Archwilio Cymru o gydnerthedd corfforaethol (Ebrill 2021) fod yr Awdurdod wedi dangos ei gydnerthedd tymor byr, https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/north_wales_fra_corporate_resilience_welsh.pdf. O ran Llywodraethu, canfu fod gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol ond bod angen i Aelodau chwarae rhan fwy canolog wrth fynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth.  Yn ystod 22/23 newidiodd aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub yn sylweddol ac, mewn ymateb, datblygwyd proses sefydlu Aelodau newydd. Roedd hyn yn cynnwys ymgyfarwyddo â'n Dyletswyddau Statudol a gwasanaethau a ddarperir ar draws GTAGC, gan bwysleisio rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Awdurdod. Ailadroddwyd y prosesau sefydlu hyn wrth i aelodaeth yr Awdurdod newid drwy'r flwyddyn. Ceir tystiolaeth o graffu ar gyllidebau a risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth drwy sefydlu gweithgorau Aelodau'r ATA i roi cyfarwyddyd ar ddatblygu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 a phrosiect y Ganolfan Hyfforddi Newydd.

## Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion ynddo

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig i alluogi cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion. Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, Trysorydd a Swyddog Monitro.

- Mae cydweithio a gwaith partneriaeth ar waith yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn rhan o Fforwm Hyfforddiant Ymchwilio Tân Cymru gyfan. Mae hwn yn cefnogi dysgu ar y cyd ac yn hyrwyddo dull cyson ledled Cymru.
- Mae Strategaeth Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan 2021-2024 yn sail i'r ymrwymiad i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.
- Mae prosesau sefydlu ar waith ar gyfer Aelodau a gweithwyr. Ymhlith y rhain mae cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad a gofynion y rôl.
- Nodir anghenion datblygu gweithwyr drwy gyfarfodydd un i un, cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu. Mae'r Gwasanaeth bellach yn un o aelodau sefydlu Cynllun Mynediad Uniongyrchol peilot Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Bydd y cynllun yn galluogi pobl sydd â sgiliau arwain profedig o amrywiaeth o sectorau, i wneud cais am rolau Rheolwr Gorsaf heb orfod cael profiad blaenorol yn y gwasanaeth tân a heb fod wedi dilyn y llwybr dyrchafiad traddodiadol ar gyfer diffoddwyr tân.
- Mae iechyd a lles y gweithlu yn allweddol i'r sefydliad a darperir cymorth i gynnal lles corfforol a meddyliol. Cyflawnir hyn drwy ystod o fesurau gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, dull gweithio hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth i weithwyr. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn darparu llywodraethu a goruchwyliaeth strategol i hyn.
- Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff gweithredol. Cyflwynir hyfforddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys modiwlau e-ddysgu sy'n orfodol ar gyfer rhai pynciau e.e. Diogelu Data. Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu llywodraethu a goruchwyliaeth strategol ar hyn.
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer adolygiadau mewnol o gydymffurfiaeth â safonau Gwasanaeth a gofynion iechyd a diogelwch.
- Mae'r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol.
- Mae'r Gwasanaeth yn cydweddu ei brosesau hyrwyddo â fframwaith arwain Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).
- Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal asesiad manwl o'i hyfforddiant gweithredol ac wedi gweithredu Cynllun Cyflawni Hyfforddiant Gweithredol uchelgeisiol newydd ar gyfer 2023/24.


## Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

- Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol gan Adran 151, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Mae'r Swyddog Monitro'n sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig.
- Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol yn manylu ar y broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Cedwir cofrestr risgiau corfforaethol gan yr Adran Cynllunio Corfforaethol ac mae'n destun monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i lywio a chefnogi penderfyniadau.
- Mae trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol bob amser.
- Mae trefniadau rheoli yn sicrhau bod argymhellion ar gyfer gwella a wneir gan yr Archwilydd Mewnol yn cael eu cytuno a'u monitro.
- Rhoddir adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad gwasanaethau yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol.
- Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestri o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch.
- Ceir polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban sy'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu mewn modd teg a thryloyw.
- Mae polisïau a threfniadau ar waith i reoli'r modd y caiff data eu trin. Y rhain yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a Pholisi Diogelu Cyfathrebu a Gwybodaeth. Caiff y polisïau hyn eu hategu â hyfforddiant ac mae'r modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.
- Datblygwyd a chytunwyd ar brotocolau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.
- Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi darparu gwasanaethau a newid trawsnewidiol yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. Cyflwynir diweddariad ariannol ym mhob un o gyfarfodydd yr Awdurdod, gydag adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.
- Mae trefniadau Rheoli'r Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan aelodau.
- Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu drwy archwiliad allanol.



## Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

- Mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol.
- Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod (pan fyddant ar gael).
- Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson i gynorthwyo penderfyniadau.
- Mae gan yr Awdurdod gynllun cyhoeddi ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy'n sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth a gedwir.
- Mae'r Cynllun Gwella a Lles yn dogfennu amcanion yr Awdurdod.
- Cynhyrchir y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir am incwm a gwariant ac yn dangos y stiwardiaeth dros arian cyhoeddus am y flwyddyn. Cyflwynir y cyfrifon i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol.
- Mae'r Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau'r aelodau yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac adroddir amdanynt ar y rhyngrwyd.
- Mae aelodau ac uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i nodi ac adrodd unrhyw drafodion parti perthynol.
- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu tryloywder ar y trefniadau llywodraethu a'r gwelliannau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodir drwy statud ac mae'n rhoi barn am y Datganiad o Gyfrifon, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.
- Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull seiliedig ar risg, sy'n rhoi sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.
- Mae prosesau ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.
- Bydd adolygiad Archwilio Cymru o gydnerthedd corfforaethol y cyfeirir ato ar dudalen 9 yn cael ei ystyried fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol i sicrhau bod cyfleoedd i wella yn cael eu hystyried yn llawn.





# Sut Aeth yr Awdurdod i'r afael â'r Camau Gwella Llywodraethu o 2022/23

Roedd Asesiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol 2022/23 yn cynnwys y camau gwella canlynol. Dyma sut yr aethpwyd i'r afael â nhw:

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu wedi'i Gynllunio | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym mis Mehefin 2023 |
|---|---|---|---|
| Seiberddiogelwch | Gweithredu drwy'r Adran TGCh i baratoi ar gyfer cyflawni ardystiad Cyber Essentials Plus i helpu i amddiffyn rhag bygythiadau seiberddiogelwch i'r sefydliad. | Y Pennaeth TGCh, Ystafell Reoli ac Ardal y Canol | The service has introduced the Intermediate step of achieving Cyber Essentials with the intention of moving on to CE+ in the next year. Significant progress has been made on this journey with the final prerequisite technology having been introduced in a testing stage at the end of the reporting period. It is expected that Cyber Essentials will be achieved early in the 2023/24 period, with work then commencing to achieve CE+. |

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu wedi'i Gynllunio | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym mis Mehefin 2023 |
|---|---|---|---|
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth (a gyflwynwyd 1 Ebrill 2022) | Gweithredu drwy'r Adrannau Cyllid a Chynllunio Corfforaethol i wirio a chadarnhau bod y dull cynllunio integredig yn parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol. | Pennaeth Cyllid<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu mewnol a datblygu'r fframwaith sicrwydd, mae'r dulliau cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol wedi cael eu hadolygu a'u diwygio yn ystod 2022/23. Mae hyn wedi gwella cydymffurfiaeth â'r amcanion corfforaethol ac ymwybyddiaeth well o gyd-ddibyniaethau rhwng adrannau a phrosiectau mawr. |
| | Gweithredu trwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i dreialu Fframwaith Sicrwydd a Blociau Adeiladu'r Gwasanaeth a ddatblygwyd yn ddiweddar; a'u hadolygu os oes angen | Dirprwy Brif Swyddog Tân. | Cafodd y fframwaith sicrwydd a'r blociau adeiladu eu gweithredu ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor a grŵp wedi'i gymeradwyo ac mae'r fframwaith wedi'i sefydlu. Gweithredwyd fframwaith cynllunio adrannol newydd ar gyfer cynlluniau adrannol 23/24, ac mae hyn yn blaenoriaethu casglu tystiolaeth yn erbyn y Blociau Adeiladu, amcanion y Cynllun Corfforaethol ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol wrth asesu i ba raddau mae'r egwyddorion yn y Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu cymhwyso. | Y Prif Swyddog Cynorthwyol<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Yn amodol ar gymeradwyo darparwr archwilio mewnol newydd, Mersey Internal Audit Agency (MIAA) gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2023, bydd y cam hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i gynllun gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24. |
| Strategaeth Amgylcheddol | Gweithredu drwy Weithgor Cynllunio'r ATA i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd. | Pennaeth Gweithrediadau ac Ardal y Dwyrain<br><br>Pennaeth Cynaliadwyedd<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Sefydlwyd gweithgor Strategaeth Amgylcheddol ac mae'n datblygu Strategaeth Amgylcheddol 2023–2030. Y bwriad yw cymeradwyo'r strategaeth yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod Tân ym mis Gorffennaf 2023. |

| Ardal Gwella | Cam Gweithredu wedi'i Gynllunio | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym mis Mehefin 2023 |
|---|---|---|---|
| Archwilio Mewnol | Adolygu'r contract ar gyfer darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i sicrhau ei effeithiolrwydd parhaus o ran sicrhau trefniadau llywodraethu a sicrhau y gweithredir ar argymhellion. | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) | Mae penodi Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn un o swyddogaethau dirprwyedig y Pwyllgor Archwilio. Daeth y trefniadau presennol i ben ar 31 Mawrth 2023 a chadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r penodiad gael ei wneud drwy ymarfer cystadleuol gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd sector cyhoeddus Gwasanaethau Masnachol y Goron. Disgwylir i'r ymarfer hwn ddod i ben yn ystod mis Mehefin 2023 a bydd yr archwilwyr mewnol newydd yn cael eu penodi am y cyfnod o dair blynedd sy'n cwmpasu blynyddoedd ariannol 2023/24 – 2025/26. Bydd y penodiad yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2023. |
| Datblygiad Aelodau'r ATA | Gan weithio gyda'r ATA, cynllunio rhaglen fwy strwythuredig ar gyfer Datblygu Aelodau i gefnogi'r Aelodau i fod yn effeithiol wrth gyflawni eu rolau arwain a llywodraethu ar yr Awdurdod. | Prif Swyddog Cynorthwyol<br><br>Clerc yr ATA<br><br>Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu | Newidiodd aelodaeth yr ATA yn sylweddol oherwydd yr etholiadau lleol yn 2022. Mae mwyafrif yr ATA newydd yn aelodau newydd ac roedd nifer sylweddol yn gynghorwyr awdurdodau lleol newydd. Gweithredwyd rhaglen strwythur o Gymorth Datblygu i Aelodau yn 2022 yn ymgorffori pecyn sefydlu, llawlyfr yr Aelodau a'r rolau arwain a llywodraethu ar yr Awdurdod. Yn ystod 2022/23 roedd nifer fach o newidiadau i aelodaeth yr Awdurdod, a chafodd yr Aelodau newydd hyn i gyd gyfnodau sefydlu unigol. |
| Cyfansoddiad | Cam gweithredu i Glerc yr ATA ymgorffori yn y Cyfansoddiad drefniadau ar gyfer cyfnodau cyn-etholiadol yn arwain at etholiadau llywodraeth leol a chyfnodau saib rhwng Awdurdodau. | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub. | Bydd y cam hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i gynllun gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24. |

# Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu 2023/24

Mae'r camau a gynlluniwyd ar gyfer 2023/24 wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Bydd cynnydd yn ystod y flwyddyn yn cael ei adrodd i Dîm Arwain y Gwasanaeth drwy'r fforymau a ddangosir.

| Maes Gwella | Cam Gweithredu wedi'i Gynllunio | Fforwm | Cyfrifoldeb | |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau Allyriadau Carbon | Ymateb i'r argymhellion a ganfuwyd yn Adroddiad Archwilio Cymru ar Leihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Mawrth 2022 | Pwyllgor Tir ac Eiddo<br><br>Grŵp Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Gweithrediadau<br><br>Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd | Rhagfyr 2023 |
| Lleihau Galwadau Tân Diangen | Ymateb i'r argymhellion a ganfuwyd yn Adroddiad Archwilio Cymru ar leihau galwadau tân diangen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Ebrill 2023 | Pwyllgor Perfformiad Atal ac Amddiffyn | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Atal ac Amddiffyn<br><br>Pennaeth Atal ac Amddiffyn | Mawrth 2024 |
| Cydnerthedd Cymunedol a Hunan-ddibyniaeth | Adolygu'r argymhellion a geir yn adroddiad 'Gyda'n Gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd cymunedol a hunanddibyniaeth Archwilio Cymru ar gyfer effeithiau a goblygiadau i GTAGC | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Rhagfyr 2023 |
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth (a gyflwynwyd 1 Ebrill 2022) | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol wrth asesu i ba raddau mae'r egwyddorion yn y Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu cymhwyso. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Rhagfyr 2023 |
| Cyfansoddiad | Cam gweithredu i Glerc yr Awdurdod ymgorffori yn y Cyfansoddiad drefniadau ar gyfer cyfnodau cyn-etholiadol yn arwain at etholiadau llywodraeth leol a chyfnodau saib rhwng Awdurdodau. | GTAGC | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub. | Mawrth 2024 |

| Maes Gwella | Cam Gweithredu wedi'i Gynllunio | Fforwm | Cyfrifoldeb | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Adrannol | Cynnal adolygiad o'r fframwaith cynllunio adrannol ar gyfer cynlluniau adrannol 23/24, ac mae hyn yn blaenoriaethu casglu tystiolaeth yn erbyn y Blociau Adeiladu, amcanion y Cynllun Corfforaethol ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd perfformiad | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Mawrth 2024 |
| Asesiad Rheoli Risg Cymunedol (CRMA) a Chynllunio Corfforaethol | Cwblhau Asesiad Rheoli Risg Cymunedol newydd sy'n cyd-fynd â Rhaglen Rheoli Risg Cymunedol NFCC, ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Datblygu Cynllun Corfforaethol pedair blynedd 2024-2028 newydd ar gyfer GTAGC. Wedi'i alinio â'r CRMA newydd. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Mawrth 2024 |
| Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys | Gweithio tuag at ei alinio ag 'Arfer Gorau', o'r Sefydliad Ymgynghori, i sicrhau ansawdd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gwblhawyd ar gynnig gan yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Perfformiad | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Rhagfyr 2023 |



# Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos ei gynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i wneud y canlynol:

- Rheoli'n ariannol gyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli cydnerthedd ariannol i fodloni'r gofynion rhagweladwy ar wasanaethau
- Rheoli'n ariannol ddigwyddiadau annisgwyl yn ei amgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i'r Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddol ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA. Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

Fodd bynnag, nodwyd meysydd gwella, ac mae llawer ohonynt eisoes ar y gweill, gan gynnwys y canlynol:

- Bydd cyflwyno system ariannol newydd yn 2022/23 yn gofyn datblygu prosesau gosod a monitro'r gyllideb ymhellach i ymgorffori penderfyniadau ac ymgynghoriad tymor hir fel egwyddorion craidd.
- Parhau i ddatblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiweddaraf a dechrau ystyriaethau'n gynnar, ar yr opsiynau ar gyfer sicrhau cyllideb gynaliadwy, gan gynnwys archwilio unrhyw gyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau.
- Datblygu strategaeth a chynllun cyfalaf hirdymor clir am hyd at 10 mlynedd.

**Llofnod** ______________________________ **(Trysorydd) 2023**

# Barn a Chasgliad Llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethu da yn darparu'r sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethu a'r monitro sydd ar waith ar gyfer 2022/23 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ac mae wedi ymrwymo o hyd i wella'r rhain drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2023/24.

| | | |
|---|---|---|
| **Llofnod** | ______________________ | **(Cadeirydd) 2023** |
| **Llofnod** | ______________________ | **(Prif Swyddog Tân) 2023** |

MEWN·CYFYNGDER Y·GELWAIST

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**North Wales Fire and Rescue Authority**

GOGLEDD CYMRU NORTH WALES

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Fire and Rescue Service**

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad: | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno’r sefyllfa gwariant refeniw a chyfalaf heb ei harchwilio ar gyfer 2022/23, er mwyn cyflwyno’r fantolen heb ei harchwilio fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023 a chadarnhau'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r datganiad cyfrifon blynyddol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y gofyniad cyllideb net ar gyfer 2022/23 ei gymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £39.41 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn dilyn defnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau wedi'u clustnodi. Y sefyllfa alldro net yw gorwariant o £0.40 miliwn i'w dalu o'r gronfa gyffredinol.

3 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb gyfalaf 2022/23 o £2.91 miliwn ar 20 Rhagfyr 2021. Cynyddodd hyn i £3.3 miliwn yn dilyn cario cynlluniau ymlaen o 2021/22 a phrosiectau a ariennir gan grant. Y sefyllfa alldro ddrafft yw £3.4 miliwn.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i’r Aelodau:

(i) nodi’r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y manylir o fewn yr adroddiad;
(ii) nodi’r sefyllfa o ran mantolen 2022/23 heb ei harchwilio; a
(iii) nodi’r terfynau amser ar gyfer cynhyrchu'r datganiad o gyfrifon blynyddol ac archwiliad allanol ohono.

**SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Mae'r sefyllfa alldro heb ei harchwilio hon wedi cael ei hystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod ar 19 Mehefin 2023. Nododd yr Aelodau yr adroddiad

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad o gyfrifon yn flynyddol. Mae'r amserlenni a ragnodir o fewn y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad drafft o gyfrifon gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mai gyda dyddiad cau archwilio o 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac oherwydd y cyfyngiadau Covid sydd wedi effeithio ar gynhyrchu ac archwilio'r datganiad o gyfrifon, mae'r dyddiadau cau wedi'u llacio. Caniateir hyn o fewn y rheoliadau (rheoliad 10.4).

8 Yn fwy diweddar, cadarnhaodd Archwilio Cymru na fyddai'n gallu cyflawni'r archwiliad o'r datganiad o gyfrifon drafft erbyn y dyddiad cau 31 Gorffennaf 2023 a darparodd ddyddiad cau amgen, sef 30 Tachwedd 2023. Trafodwyd hyn gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2023. Cafodd hysbysiadau priodol eu rhoi ar wefan yr Awdurdod i gadarnhau hyn.

9 Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â chyngor Llywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriad â Chymdeithas Trysoryddion Cymru. Disgwyliad Llywodraeth Cymru yw y dylid paratoi'r datganiad drafft o gyfrifon ar gyfer 2022/23 erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf.

10 Mae'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2022/23 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac mae'r sefyllfa alldro heb ei harchwilio ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf wedi'i chwblhau.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

11 Cymeradwywyd y gyllideb net ar gyfer 2022/23 o £39.412 miliwn yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Rhagfyr 2021. Yn dilyn gwaith cynllunio pellach, cafodd y gofyniad cyllideb net cyffredinol ei gadarnhau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Mehefin 2022 ac ar yr adeg hon nodwyd hefyd y byddai gwariant gohiriedig o 2021/22 yn cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u clustnodi. Yn ogystal, nodwyd y risg benodol sy'n gysylltiedig â'r dyfarniadau cyflog gan fod y dyfarniadau cyflog cenedlaethol heb eu gwneud.

12 Y sefyllfa refeniw diwedd blwyddyn oedd gorwariant o £0.04 miliwn.

13 Mae'r prif benawdau gwariant a'r sefyllfaoedd alldro drafft sy'n weddill ar ôl tynnu'r darpariaethau a'r symudiadau wrth gefn a nodir isod:

| | Terfynol Cyllideb (£000) | Drafft Alldro (£000) | Amrywiant (£000) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogwyr | 30,130 | 30,353 | 223 | 0.67% |
| Safle | 2,901 | 2,992 | 91 | 3.1% |
| Trafnidiaeth | 1,204 | 1,250 | 46 | 3.9% |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 5,080 | 4,956 | -124 | -2.4% |
| Taliadau Trydydd Parti | 451 | 419 | -32 | -7.1% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2,263 | 2,424 | 161 | 7.1% |
| Incwm | -2,617 | -2,943 | -326 | 12.4% |
| **Alldro drafft** | **39,412** | **39,452** | **40** | **0.1%** |

**COSTAU GWEITHWYR**

14 Mae costau gweithwyr yn ffurfio rhan sylweddol o'r gyllideb ac yn cynnwys cyflog, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddiant a gwasanaethau gweithwyr, fel ffisiotherapi a gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

15 Mae costau gweithwyr yn cynrychioli dros 75% o'r gwariant net, ac mae'r costau yn ystod y flwyddyn o £30.3 miliwn yn cynrychioli cynnydd blwyddyn i flwyddyn o 12.6% (£26.9 miliwn ar gyfer 2021/22). Mae'r cynnydd blwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu'r recriwtio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, sef penodi 24 o ddiffoddwyr tân gweithredol dan brentisiaeth a chynnydd net o 16 aelod o staff ar y system dyletswydd rhan amser (RDS). Yn ogystal, cafodd nifer o swyddi hanfodol eu llenwi gan gynnwys Rheolwr yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a'r Rheolwr Caffael a Chontractau. Mae'n parhau i fod yn heriol i recriwtio pobl i rolau arbenigol yn y farchnad gyflogaeth bresennol ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â phwysau rydym yn ymwybodol ohono.

16 Mae'r cynnydd o ran costau cyflog yn ystod y flwyddyn hefyd yn adlewyrchu setliad y dyfarniadau cyflog i staff sydd ar delerau ac amodau llywodraeth leol (llyfr gwyrdd a llyfr glas) a diffoddwyr tân (llyfr llwyd). Yn gyffredin â'r sector cyhoeddus, roedd y setliadau hyn yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio a bu'n ofynnol i'w rheoli'n ofalus. Mae'r costau hyn wedi'u lliniaru'n rhannol trwy'r defnydd o swyddi gwag tymor byr, gostyngiadau mewn cyflog newidiol a hefyd amrywiannau mewn cyllidebau nad ydynt ar gyflogau gan gynnwys incwm ychwanegol heb ei gynllunio.

## COSTAU NAD YDYNT AR GYFLOGAU

17 Y sefyllfa alldro ar gyfer adeiladau yw £3.0 miliwn sy'n orwariant o 3.1% ac mae'n cymharu â gwariant o £2.6 miliwn yn 2021/22. Mae'r costau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys pwysau o £0.2 miliwn sy'n gysylltiedig â chontractau ynni yn dilyn adnewyddu'r contract o fis Hydref 2022. Er bod yr effaith lawn wedi ei lleihau oherwydd cymorth gan y llywodraeth ar gyfer y cyfnod hyd at fis Ebrill 2023, mae hyn yn parhau i fod yn her sylweddol ac mae wedi'i gynnwys yng nghyllidebau'r dyfodol.

18 Cafodd y sefyllfa adeiladau ei gwella hefyd trwy dderbyn £0.5 miliwn o apeliadau ardrethu annomestig cenedlaethol a ganiataodd i gyfraniad gael ei wneud tuag at y gwariant cynnal a chadw arfaethedig.

19 Y sefyllfa ddiwedd blwyddyn ar gyfer cludiant yw £1.25 miliwn sy'n gynnydd blwyddyn i flwyddyn o 20%. Mae'r costau hyn yn cynnwys gorwariant yn erbyn costau tanwydd o £0.15 miliwn sydd wedi'u lliniaru drwy danwariant yn erbyn tâl-dros-ben yswiriant a cherbydau prydles. Mae'r rhaglen adnewyddu cerbydau drwy ddarparu cerbydau ar brydles wedi cael ei gohirio oherwydd trafferthion gyda'r gadwyn gyflenwi.

20 Roedd y gwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau o £4.9 miliwn yn is na'r disgwyl oherwydd oedi cyn derbyn archebion gwerth £0.3 miliwn ar gyfer PPE hanfodol. Mae'r archebion hyn wedi'u gohirio oherwydd problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn perthynas ag argaeledd y deunyddiau a ddefnyddir. Rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn â'r cyflenwr i sicrhau bod archebion yn cael eu blaenoriaethu. Cafodd y nwyddau hyn eu derbyn ym mis Mai.

21 Mae'r gwariant trydydd parti yn £0.4 miliwn ac mae'n cynnwys darparu gwasanaethau gan gyrff sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys cyfleusterau a rheoli ystadau, gwasanaethau archwilio mewnol, gwasanaethau cyfreithiol a gweinyddu'r gronfa bensiwn. Mae'r tanwariant yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu symud y gwasanaethau ariannol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## INCWM

22 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig ar gyfer ffioedd a thaliadau a grantiau.

23 Mae'r heriau ariannol a brofwyd yn ystod 2022/23 wedi cael eu lliniaru gan fod yr incwm yn uwch na'r gyllideb. Cyflawnwyd hyn drwy dderbyn cymorth ar gyfer diffoddwyr tân dan hyfforddiant o'r ardoll prentisiaethau, derbyniadau llog uwch na'r disgwyl ar gyfer adneuon arian parod ac incwm o werthu asedau.

**Cyllid Grant Refeniw**

24 Mae dyraniadau cyllid grant 2022/23 yn dod i gyfanswm o £2.38 miliwn (2021/22: £2.397m). Mae dadansoddiad manwl o'r cyllid grant, ar gyfer 2022/23, isod. Caiff pob grant ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol i nodi unrhyw amrywiannau ac i'n galluogi i gymryd camau adferol.

| | **Dyraniad £000** |
|---|---|
| Lleihau Tanau Bwriadol | 179 |
| Offer Diogelwch yn y Cartref | 226 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 147 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 314 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,081 |
| Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 |
| Gofyn a Gweithredu | 10 |
| Cyber Essentials | 10 |
| Datblygu Gwres Carbon Net | 2 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **2,385** |

**DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI**

25 Nod cronfeydd wrth gefn yr awdurdod yw darparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a bod yn rhwyd ddiogelwch rhag ofn y bydd heriau ariannol tymor byr yn deillio o ofynion gweithgarwch neu bwysau annisgwyl.

26 Mae'r alldro dros dro yn tybio y bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cynyddu £0.65 miliwn gan gyrraedd £6.2 miliwn. Mae gan yr Awdurdod hefyd gronfa wrth gefn gyffredinol o £1.48 miliwn. Cafodd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd eu sefydlu ar gyfer gwariant disgwyliedig sydd naill ai heb fynd ymlaen yn ystod y flwyddyn neu sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod. Maent hefyd yn rhoi capasiti i'r Awdurdod esmwytho effaith costau untro fel uwchraddio systemau yn ogystal â lliniaru'r pwysau o chwyddiant eithriadol.

| | Balans 31 Mawrth 2021 | Balans 31 Mawrth 2022 | Trosglwyddiadau i mewn/(allan) 2022/23 | Balans 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth** | | | | |
| Cronfa Bensiwn | 85 | 85 | 460 | 545 |
| Cronfa Ariannu Cyfalaf | 100 | 300 | 0 | 300 |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | 90 | 90 | 0 | 90 |
| PPE Gwisg / Stoc | 250 | 250 | 0 | 250 |
| Gweddnewid | 800 | 851 | 0 | 851 |
| Gwella Cyfleusterau | 490 | 1,323 | -672 | 651 |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | 200 | 225 | -39 | 186 |
| Hyfforddiant | 100 | 250 | 0 | 250 |
| Digwyddiadau mawr | 150 | 150 | 0 | 150 |
| Gwella Systemau | 501 | 847 | -137 | 710 |
| Chwyddiant | 0 | 250 | 0 | 250 |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn** | | | | |
| Gostyngiad Grant HFSC | 195 | 195 | 0 | 195 |
| Cynllun Radio | 500 | 750 | 0 | 750 |
| Prosiectau Adeiladu Cyfalaf | 0 | 0 | 1043 | 1043 |
| **Cyfanswm** | **3,461** | **5,566** | **655** | **6,221** |

**RHAGLEN GYFALAF**

27 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £3.321 miliwn, gan gynnwys cynlluniau wedi'u cario drosodd o 2021/22 a gwariant ychwanegol wedi'i ariannu drwy grant.

28 Mae problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a phwysau chwyddiant yn parhau a bu'n angenrheidiol adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf i adlewyrchu prosiectau y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

29 Un maes arbennig o heriol yw darparu tyrau newydd. Er bod y tendrau wedi cael eu dyfarnu, bu oedi o ganlyniad i gapasiti'r cyflenwyr a chaniatâd cynllunio, a phwysau chwyddiant oherwydd cost dur. Roedd tri thŵr newydd i fod i gael eu cwblhau yn ystod 2022/23 ac mae'r rhain bellach wedi'u gohirio tan 2023/24.

30 Mae'r rhaglen mân waith wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda gwariant o £0.69 miliwn. Mae hyn yn cynnwys gwaith i uwchraddio'r cyfleusterau golchi yn Nolgellau, cyfleusterau newid i ferched yn y Rhyl, ailosod to yng ngorsaf Caernarfon ac adnewyddu drysau'r bae peiriannau tân yn y Waun.

31 Yr alldro ar gyfer y rhaglen gyfalaf yw £3.366 miliwn.

| Cynllun | Cynllun Diwygiedig | Rhagolwg | Swm Treigl Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 1,248 | 1,263 | |
| Faniau Gorsaf Amlbwrpas | 160 | - | 160 |
| Cerbydau ac Offer Cydnerthedd Cenedlaethol | 0 | 132 | |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 0 | 120 | |
| Offer Gweithdy | 20 | 12 | |
| Adnewyddu Tŵr Hyfforddi | 160 | - | 307 |
| Adeiladau - Mân Waith | 391 | 696 | 158 |
| Gweinydd Ystafell Reoli | 167 | 125 | |
| Offer Gweithredol | 92 | 93 | |
| Peiriannau Tân (d/y o 2021/22) | 923 | 925 | |
| Tyrau Hyfforddi (d/y o 2021/22) | 160 | - | |
| **Cyfanswm Cynllun Cyfalaf** | **3,321** | **3,366** | **625** |

32 Mae gan yr Awdurdod raglen adnewyddu ar gyfer peiriannau tân sy'n 15 oed ar hyn o bryd. Yn ystod 2022/23 rhoddwyd cyfanswm o 13 ar waith o gyfanswm o 54 o dendrau dŵr rheng flaen.

33 Caiff y cynllun cyfalaf ei ariannu fel a ganlyn:

| Cyllid | Swm |
|---|---|
| | £'000 |
| Benthyca | 2,351 |
| Cyllid Grant | 490 |
| Adnoddau Mewnol | 525 |
| **Cyfanswm** | **3,366** |

**ARIANNU CYFALAF A THALIADAU**

34 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw i ariannu gwariant cyfalaf ac mae'n cynnwys taliadau llog ac isafswm darpariaeth refeniw (MRP) ar gyfer defnyddio asedau.

35 Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn cynrychioli'r isafswm y mae'n rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf, a fydd wedi'i ariannu yn gyntaf drwy fenthyciadau. Mae'n rhan o holl arferion cyfrifyddu'r Awdurdod ac mae'n ymwneud â sicrhau y gall yr Awdurdod dalu'r dyledion sydd ganddo o brynu asedau cyfalaf, fel adeiladau a cherbydau.

36 Mae rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benderfynu ar swm MRP ym mhob blwyddyn ariannol, y mae'n ystyried ei fod yn ddoeth trwy gyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf sydd wedi'i gyfrifo (CFR). Y tâl MRP ar gyfer 2022/23 oedd £1.96 miliwn.

37 Y gwariant gwirioneddol oedd £2.424 miliwn sy'n orwariant o £161,000. Mae hyn yn deillio o'r cynnydd sylweddol mewn llog a welwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae effaith gyffredinol hyn wedi'i rheoli'n ofalus trwy ddefnyddio ffynonellau cyllid mewnol a thrwy ddilyn cyngor ein cynghorwyr proffesiynol i sicrhau cyfraddau buddiol yn y farchnad.

**BENTHYCA**

38 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyca allanol. Er bod y gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf drwy fenthyciadau yn y tymor byr, mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw sydd dros ben.

39 Roedd benthyciadau'r Awdurdod yn £26.46 miliwn ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cynnwys £6.0 miliwn mewn benthyciadau tymor byr dros dro, gan gyrff sector cyhoeddus eraill, a £20.46 miliwn mewn benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Cytunir ar bob benthyciad ar gyfraddau llog sefydlog ac yn dilyn cyngor gan gynghorwyr proffesiynol yr Awdurdod, Arlingclose. Adroddir ar wahân ar weithgarwch Rheolaeth y Trysorlys a'i sefyllfa alldro.

**Y FANTOLEN**

40 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod ac mae'n cynnwys asedau a rhwymedigaethau.

**ASEDAU SEFYDLOG A BENTHYCIADAU**

41 Mae asedau sefydlog yn ymwneud ag eitemau sydd â chost o fwy na £10,000 y disgwylir iddynt gael eu defnyddio dros gyfnod sy'n fwy na 12 mis. Mae asedau sefydlog yr Awdurdod yn cynnwys tir ac adeiladau, cerbydau, offer gweithredol ac offer TGCh a chostau meddalwedd. Y gwerth amcangyfrifedig ar 31 Mawrth 2023 yw £57.06 miliwn (2021/22: £39.97 miliwn).

42 Cafodd y tir a'r adeiladau eu hailbrisio ar 31 Mawrth 2023. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn gwerth o £12.42 miliwn. Mae tir ac adeiladau'r Awdurdod yn cyfrif am 82% o gyfanswm ei asedau sydd â gwerth llyfr net o £47.2 miliwn ar 31 Mawrth 2023.

43 Caniateir i'r Awdurdod ymrwymo i drefniadau benthyca i ariannu unrhyw asedau sefydlog a brynir ganddo. Ar 31 Mawrth 2022, gwerth y benthyciadau oedd £26.46 miliwn (2021/22: £24.43 miliwn). Ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraff 39 o'r adroddiad hwn.

44 Mae'r costau cyllido cyfalaf o fewn y sefyllfa refeniw yn cynnwys £0.465 miliwn sy'n gysylltiedig â thaliadau llog ar fenthyciadau (2021/22: £0.350m).

## ASEDAU CYFREDOL A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL

45 Rhaid i'r Awdurdod gynnal adnoddau digonol i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau. Cyflawnir hyn trwy reoli arian parod ochr yn ochr â balansau dyledwr a chredydwyr. Fel ar ddyddiad y fantolen, cofnododd yr Awdurdod falans o £9.22 miliwn (2021/22: £6.34 miliwn) cysylltiedig ag arian parod a dyledwyr. Caiff hyn ei wrthbwyso gan £4.48 miliwn (2021/22: £3.04 miliwn) sy'n ymwneud â'r symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod i gredydwyr.

46 Roedd y lefel arian parod yn uchel o ganlyniad i gynnal digon o arian i ad-dalu benthyciad tymor byr a thaliadau cyfalaf a oedd yn ddyledus ym mis Ebrill 2023.

## RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN

47 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyfrif am y rhwymedigaethau amcangyfrifedig sy'n ymwneud â'i gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun; Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth rhwymedigaethau'r dyfodol ei gyfrifo gan yr actiwari ar gyfer pob cynllun ac amcangyfrifir ei fod yn £227.14 miliwn ar 31 Mawrth 2023 (2021/22: £327.5 miliwn). Mae'r prisiad hwn yn cynnwys asesiad actiwaraidd o gostau heriau cyfreithiol cenedlaethol gan gynnwys dyfarniad McCloud sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a dyfarniad O'Brien sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr rhan amser

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr Awdurdod yn cynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| Staffio | Mae rheoli costau staffio yn hanfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol a darparu gwasanaethau yn effeithiol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid oes unrhyw faterion penodol i'w nodi yn yr adroddiad hwn. |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu i'r Aelodau'n briodol. |

*This document is available in English* **EITEM AGENDA 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 22/23** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sy'n rhoi manylion gwaith y bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r adroddiad blynyddol yn Atodiad 1.

2 Gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynyddu aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodir y newidiadau arfaethedig hyn yn y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i ddiweddaru yn Atodiad 2.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn rhoi manylion y gwaith a wnaed gan y bwrdd yn ystod 2022/23 ac yn darparu rhaglen waith ar gyfer 2023/24.

4 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gael cydbwysedd cyfartal o ran aelodau sy'n gyflogeion ac yn gyflogwyr. Mae cyfanswm o wyth aelod ar hyn o bryd, ond oherwydd problem argaeledd cafodd un cyfarfod ei ganslo yn ystod y flwyddyn ariannol ac un ei ohirio. Cynigir cynyddu'r aelodaeth i ddeg aelod er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Pensiwn Lleol yn gallu cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

## SYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

5 Cafodd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23 ei ystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2023. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo yn amodol ar fân welliant i roi diweddariad ariannol i'r aelodau yn dilyn archwiliad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn.

6 Roedd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol hefyd yn cydnabod yr anawsterau yn sgil argaeledd aelodau ac argymhellwyd y dylid cynyddu'r aelodaeth i ddeg aelod.

## ARGYMHELLIAD

7 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23;
ii) nodi bod eitem arall wedi'i chynnwys ar y flaenraglen waith, i gynnwys diweddariad ar agweddau ariannol y gronfa bensiwn gan gynnwys y prisiad sydd wrthi'n cael ei gynnal;
iii) cymeradwyo'r cynnydd yn aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol o wyth i ddeg aelod; a
iv) gofyn am enwebiadau gan Aelodau'r Awdurdod ar gyfer rhagor o gynrychiolaeth cyflogwyr.

## CEFNDIR

8 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Yr Awdurdod yw Rheolwr y Cynllun fel y'i diffinnir o dan Adran 4, Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i sefydlu yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf honno.

9 Cyflwynwyd y gofynion llywodraethu'n ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu cliriach gyda rolau diffiniedig penodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, a bod yr arferion gweinyddu'n gyson â'r rheiny yn y sector preifat.

10 Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015 sy'n ymwneud â chreu pensiynau lleol a pharhau i'w gweithredu i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

11 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod yn ei swyddogaeth fel Rheolwr y Cynllun drwy sicrhau ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Er mwyn hybu tryloywder, mae'n ofynnol i Reolwr y Cynllun gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

12 Fel y nodir yn nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- manylion meysydd o bryder a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed;
- manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut cafodd y rhain eu rheoli;
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi â Rheolwr y Cynllun;
- manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd;
- manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**GWYBODAETH**

13 Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23 wedi’i nodi yn Atodiad 1. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2023. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo yn amodol ar fân welliant i roi diweddariad ariannol i'r aelodau yn dilyn yr archwiliad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn. Bydd y diweddariad ariannol hefyd yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau prisiad Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy’n mynd rhagddo y disgwylir y bydd yn cynyddu rhwymedigaethau’r gronfa bensiwn yn sylweddol.

14 Nododd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ymhellach y bu’n rhaid canslo un cyfarfod yn ystod y flwyddyn a gohirio'r un olaf tan 28 Ebrill 2023. Cafodd hyn ei briodoli i ddiffyg argaeledd aelodau a chynigiwyd y dylid cynyddu'r aelodaeth o wyth i ddeg aelod i leihau'r risg o hyn yn digwydd eto. Mae'r cynigion hyn wedi'u hymgorffori yn y Cylch Gorchwyl yn Atodiad 2.

15 Byddai'r aelodau ychwanegol yn cynnwys un Aelod o’r Awdurdod Tân ac Achub i gyflawni rôl cynrychiolydd y cyflogwyr ac un i rôl cynrychiolydd y cyflogeion.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyriwyd nad ydynt yn berthnasol. |
| Cyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei ariannu o gyllideb Gwasanaethau'r Aelodau presennol. |
| Cyfreithiol | Cyflwynwyd y gofynion llywodraethu newydd sy'n ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.<br>Rheoliadau Llywodraethu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) 2015. |
| Staffio | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Ni ystyrir bod angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion gan fod yr argymhellion yn berthnasol i'r holl Aelodau beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Mae angen i bob Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r canllawiau a ddarperir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

**Atodiad 1**

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

# Bwrdd Pensiwn Lleol
# Adroddiad Blynyddol
# 2022-23

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Rolau a Swyddogaethau | 3 |
| 3. | Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd | 3 |
| 4. | Polisi Gwrthdaro Buddiannau | 4 |
| 5. | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 4 |
| 6. | Rhaglen Waith 2022/23 | 5 |
| 7. | Rhaglen Waith 2023/24 | 7 |

## 1.0 Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys sylwadau ar y canlynol:

- Manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd;
- Manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd;
- Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2022/23;
- Meysydd sy'n peri pryder neu risg a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd ganddynt; a'r
- Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/24.

## 2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac Adran 30 (1) Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sefydlwyd Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd) ym mis Ebrill 2015. Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â:

- Y deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau llywodraethiant a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y Cynllun.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a gwella trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, fe'i cynlluniwyd i weithredu fel cyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion wrth iddynt weithredu yn rhinwedd swydd rheolwr y cynllun.

## 3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y Bwrdd yn cynnwys wyth aelod fel a ganlyn:

- Pedwar cynrychiolydd cyflogwr sy'n cynnwys dau aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy enwebedig) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pedwar cynrychiolydd cyflogeion – un o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

Yn ogystal ag Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol canlynol yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau); a’r
- Rheolwr Pensiynau

Etholwyd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol i gyd yn ffurfiol yn y cyfarfod ar 21 Gorffennaf 2023. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r Cylch Gorchwyl lle mae cyfnod y penodiad ar gyfer pob aelod yn cyd-fynd ag etholiadau'r cyngor.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Bydd rôl Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli’r cyflogwyr a'r rhai sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd PSTC Richard Fairhead yn Gadeirydd am y cyfnod 2022-2024. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi'i enwebu i eistedd ar Fwrdd Ymgynghori Cenedlaethol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Roedd disgwyl i'r Bwrdd gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 ond yn dilyn ymddiheuriadau, cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 27 Hydref 2022 ei ganslo a gohiriwyd y cyfarfod ar 28 Mawrth 2023 tan fis Ebrill 2023. Byddwn yn mynd i’r afael â hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i sicrhau bod cyfarfodydd arfaethedig yn cael eu cynnal gyda'r nifer gofynnol o aelodau.

## 4.0 Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau’n ymwneud ag aelod o fwrdd pensiwn. Diffinir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o ragfarnu’r ffordd mae person yn arfer ei swyddogaethau fel aelod o fwrdd pensiwn. Mae'r Ddeddf yn glir nad yw bod yn aelod o un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ynddo'i hun yn wrthdaro buddiannau, felly ni fyddai hynny’n atal aelod o'r cynllun rhag gwasanaethu ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli gwrthdaro posibl er mwyn sicrhau nad ydynt yn dod yn wrthdaro gwirioneddol, ac mae pob aelod o'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Yn ogystal, mae gwrthdaro buddiannau'n eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd a chaiff unrhyw fuddiannau a nodir gan aelodau eu cofnodi fel y gellir cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Ni wnaed datganiadau gan unrhyw aelod, ymgynghorydd nac unrhyw un a fynychodd gyfarfodydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

Gellir gweld copi o'r polisi Gwrthdaro Buddiannau yma:

Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Ni chyhoeddwyd unrhyw wrthdaro buddiannau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n ofyniad statudol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i ymgyfarwyddo â materion manwl yn ymwneud â phensiynau, a datblygu gwybodaeth amdanynt, i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth a dealltwriaeth am y gyfraith yn ymwneud â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth arall.

Dylai aelod o'r Bwrdd ddeall yr hyn sy'n berthnasol i'w rôl a gallu nodi a herio methiant i gydymffurfio â:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- Deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion sy'n cael eu gorfodi gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; neu
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ar ôl cael eu penodi, mae'n ofynnol i aelodau gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant cynefino i aelodau newydd o'r Bwrdd a sesiynau hyfforddi parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd i'r holl aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

Mae Rheolwr y Cynllun yn cadw cofnodion priodol o weithgareddau dysgu aelodau unigol a'r Bwrdd yn gyffredinol. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod a'r aelodau i ddangos cydymffurfiaeth, os oes angen, â'r gofyniad cyfreithiol ac yn cofnodi sut y mae risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau gwybodaeth yn cael eu lliniaru.

Bob blwyddyn, bydd yr aelodau'n cwblhau ffurflen hunanasesu ar gyfer dadansoddi eu hanghenion gwybodaeth a hyfforddiant, y'i defnyddir i baratoi rhaglen hyfforddi ar gyfer y dyfodol. Mae hyfforddiant aelodau'r Bwrdd yn cael ei wneud yn fewnol i raddau helaeth heb unrhyw gost uniongyrchol; mae'r digwyddiadau cenedlaethol fel cynhadledd CLIL, hyd yn hyn, wedi bod yn rhad ac am ddim.

Gweler amserlen yn manylu ar yr hyfforddiant a gyflawnwyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod 2022/23:

| **Dyddiad** | **Pynciau a Gwmpesir** |
|---|---|
| 22 Gorffennaf 2022 | Hyfforddiant cynefino sy'n cwmpasu'r Fframwaith Cyfreithiol a Chynllun(iau) Pensiwn y Diffoddwyr Tân; yr agweddau ariannol; rheoleiddio'r cynllun; mynd i'r afael â phryderon gan gynnwys y weithdrefn datrys anghydfod mewnol (IDRP) |
| 12 Rhagfyr 2022 | Gwybodaeth, dealltwriaeth a rhwymedigaethau aelodau'r BPLl; trosolwg o Becyn Cymorth y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR); y Cod Ymarfer 14; a chyfeiriadedd y cynllun lleol. |
| 28 Ebrill 2023 | Prisiad y cynllun pensiwn |

## 6.0 Rhaglen Waith 2022/23

Trefnwyd i'r Bwrdd gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn - 22 Gorffennaf 2022, 27 Hydref 2022, 12 Rhagfyr 2022 a 28 Mawrth 2023 (wedi'i ohirio tan 28 Ebrill 2023). Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 27 Hydref ei ganslo oherwydd nifer yr ymddiheuriadau. Mae'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn wedi'i ddiffinio gan y Cylch Gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo ac yn adolygu'r Cylch Gorchwyl yn flynyddol a chafodd y fersiwn diweddaraf ei gymeradwyo yn y cyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022. Gellir dod o hyd i'r Cylch Gorchwyl trwy'r ddolen ganlynol:

Cylch Gorchwyl y BPLl 2022-23

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, cafodd y materion penodol canlynol eu hystyried gan y Bwrdd:

- Adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl
- Ystyried yr her gyfreithiol genedlaethol sy'n ymwneud â threfniadau'r cynllun pensiwn trosiannol (McCloud Judgment)
- Ystyried y mater cyfreithiol sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân ar-alwad (Dyfarniad O'Brien)
- Diweddariad ar y dadansoddiad o anghenion gwybodaeth a hyfforddiant
- Y newyddion diweddaraf am achosion yr Ombwdsmon Pensiynau
- Adolygiad o'r gofrestr risg

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol:

- Datganiadau o Fuddiant
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n canolbwyntio ar aelodaeth a chwynion mewnol ac achosion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Pensiynau
- Adroddiad Diweddaru'r Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn cadarnhau cydymffurfiaeth â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ac ansawdd data
- Diweddariad ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar y cynllun
- Diweddariad Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun
- Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r BPLl
- Y Gofrestr Risg
- Materion i'w huwchgyfeirio i'r Awdurdod llawn

Ers sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol y Diffoddwyr Tân yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi'i lywio gan aelodau'r Bwrdd a chan swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Dyma rai adroddiadau rheolaidd sydd wedi cael eu datblygu:

- Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

  Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ddarnau sylweddol o waith yn ymwneud â phensiynau, ac mae'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn sbarduno trafodaeth brydlon ymysg aelodau'r Bwrdd am effaith materion ar aelodau'r Cynllun Pensiwn a sut mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn helpu i gyflawni pwrpas y Bwrdd o sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol;

- Adroddiad Diweddaru Cronfa Bensiwn Dyfed

  Caiff hwn ei gynhyrchu gan y Gweinyddwyr ac mae'n darparu sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Yn ogystal â darparu diweddariadau rheoleiddiol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion llwyth gwaith penodol, megis y cymod Pensiwn Isafswm Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, torri amodau, a lefelau gweithgarwch ar y teclyn 'Fy Mhensiynau Ar-lein';

- Y Gofrestr Risg

  Caiff rhannau penodol o'r Gofrestr Risg eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, gan dynnu sylw at unrhyw welliannau. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gadw golwg ar y risgiau allweddol a'r mesurau rheoli a gynlluniwyd i reoli'r risgiau hynny.

Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion cyfarfodydd uchod y Bwrdd y gellir cael gafael arnynt trwy ddilyn y ddolen ganlynol: Bwrdd Pensiwn Lleol

## 8.0 Rhaglen Waith 2023/24

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith sy'n cael ei hystyried ym mhob cyfarfod. Nawr bod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ôl yr angen.

Mae'r Rhaglen Waith ar gyfer 2023/24 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

## Cynllun Blaenraglen Waith y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24

| **Eitem agenda** | 28 Ebrill 2023 | 11 Gorffennaf 2023 | 24 Hydref 2023 | 23-27 IONAWR 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r aelodaeth a chytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd | X | | | |
| Adroddiad diweddaru'r Gwasanaeth | X | X | X | X |
| Adroddiad diweddaru'r Gweinyddwr | X | X | X | X |
| Heriau cyfreithiol a materion rheoleiddio | X | X | X | X |
| Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun i Gymru | X | X | X | X |
| Y Gofrestr Risg | X | X | X | X |
| Cynefino Aelodau | X | | | |
| Dadansoddiad o anghenion hyfforddi | X | | | |
| Diweddariad hyfforddiant | X | X | X | X |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau – agweddau ar lywodraethu da | | X | X | X |
| Adroddiad Blynyddol | X | | | |
| Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl | | X | | |
| Diweddariad ariannol – gan gynnwys canlyniad y prisiad | | | X | |
| Eitemau arwyddocaol i'w huwchgyfeirio i'r Awdurdod Tân ac Achub | X | X | X | X |

**Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, Bwrdd Pensiwn Lleol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) 2015.

## Rheoli'r Cynllun

2. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel yr awdurdod gweinyddu, yw Rheolwr y Cynllun. Cyflawnir ei swyddogaethau yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod gan y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân.

## Y Bwrdd Pensiwn Lleol

3. Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC), fel yr awdurdod gweinyddu, gyda'r canlynol:

   - sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
   - sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodwyd mewn perthynas â'r cynllun gan y Rheoleiddiwr Pensiynau;
   - sicrhau bod Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael eu llywodraethu a'u gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon;
   - rôl y Bwrdd fydd goruchwylio'r materion hyn ac nid gwneud penderfyniadau;
   - gwneud unrhyw waith perthnasol yn ôl y gofyn;
   - unrhyw faterion eraill y gall rheoliadau'r cynllun eu pennu.

4. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn atebol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, Bwrdd Cynghori'r Cynllun Cenedlaethol a'r Awdurdod Gweinyddu yn eu rôl fel Rheolwr y Cynllun.

6. Bydd prif swyddogaethau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

   - adolygu prosesau, polisïau a gweithdrefnau gwneud penderfyniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau perthnasol;
   - ceisio sicrwydd bod y rhain yn cael eu dilyn o ran penderfyniadau ynghylch Pensiynau;

- ceisio sicrwydd bod perfformiad gweinyddol yn cydymffurfio â fframwaith perfformiad yr Awdurdod a bod trefniadau monitro yn ddigonol a chadarn;
- ystyried effeithiolrwydd cyfathrebu gyda chyflogwyr ac aelodau'r cynllun gan gynnwys adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu; ystyried a rhoi sylwadau ar argymhellion archwilio mewnol ac adroddiadau archwilwyr allanol.

7. Ymdrinnir ag unrhyw gŵyn neu honiad o dorri'r Rheoliadau a ddygir i sylw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Amlder Cyfarfodydd a Rhoi Gwybod am Gyfarfodydd**

8. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cyfarfod yn ddigon rheolaidd i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol; bydd pedwar cyfarfod yn cael eu trefnu yn ystod pob blwyddyn ariannol.

9. Bydd y Swyddog Cyswllt Aelodau yn rhoi gwybod i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am bob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod a bydd yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gadw.

10. Darperir papurau dri diwrnod gwaith cyn pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd Pensiwn Lleol.

11. Bydd holl agendâu a phapurau'r Bwrdd Pensiwn Lleol nad ydynt yn gyfrinachol a chofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan ATAGC, ynghyd â Chylch Gorchwyl y Bwrdd a manylion am aelodaeth y Bwrdd.

**Aelodaeth**

12. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dim llai na deg aelod (cyfanswm), a rhaid iddo gynnwys cydbwysedd cyfartal o gynrychiolwyr y cyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau'r cynllun (cyflogeion). Bydd y rhain yn gweithredu fel a ganlyn:

| Etholaeth | Diffiniad/Cyfyngiadau |
|---|---|
| Cyflogwr | Cynrychioli ATAGC |
| Aelod o'r Cynllun (cyflogai) | Cynrychioli holl aelodau'r cynllun (gweithredol, gohiriedig a phensiynwr) |

13. Bydd cyfnod y swydd ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd yn cyd-fynd ag etholiadau'r cyngor. Gall aelodau, ar ddiwedd eu tymor, fynegi dymuniad i gael eu hystyried ar gyfer cael eu hailethol.

14. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fodloni gofynion presenoldeb a hyfforddiant allweddol er mwyn cadw eu haelodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid i bob aelod:

- ymdrechu i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd
- cydymffurfio â'r cynllun hyfforddi a gynhyrchwyd gan y Rheolwr Pensiynau
- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

15. Bydd gan bob Cynrychiolydd Cyflogwr a Chynrychiolydd Aelodau'r Cynllun hawl unigol i bleidleisio.

16. Rhaid i bob aelod o fewn Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gael cyfle cyfartal i gael eu henwebu ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau.

17. Er mwyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr i'r Bwrdd, ceisir enwebiadau gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Bydd y Trysorydd a'r Swyddog Monitro (neu ddirprwy) hefyd yn cynrychioli'r cyflogwr.

18. Er mwyn penodi cynrychiolwyr aelodau'r cynllun (cyflogai) i'r Bwrdd, gofynnir am enwebiadau drwy'r Cynrychiolwyr Adrannol a Fforwm yr Undebau Llafur a gofynnir am enwebiadau pellach drwy roi hysbyseb ar wefan yr Awdurdod. Lle derbynnir mwy na thri enwebiad, bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried, eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Tân i'w penodi'n ffurfiol.

19. Os bydd aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gweithredu fel cynrychiolydd cyflogwr yn peidio â chael ei gyflogi gan y cyflogwr y mae'n ei gynrychioli, ni fydd bellach yn gymwys i eistedd ar y Bwrdd.

20. Os bydd aelod o'r Bwrdd yn absennol yn gyson, neu os bydd yn methu â bodloni'r gofynion presenoldeb a hyfforddiant allweddol fel y nodir yn (13) uchod, bydd deiliadaeth yr aelod hwnnw'n cael ei adolygu. Yn achos cynrychiolydd aelodau, gwneir hyn gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun a all wneud argymhelliad i ddiddymu'r aelodaeth os ystyrir bod hynny'n ofynnol.
Mewn achos o'r fath, bydd hawl i apelio i'r Prif Swyddog Tân cyn unrhyw argymhelliad. Yn achos cynrychiolydd cyflogwr, bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei ystyried gan gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

21. Os yw cynrychiolydd cyflogwr neu aelod o'r cynllun yn dymuno ymddiswyddo rhaid iddynt ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân, gan roi o leiaf mis o rybudd.

22. Bydd rôl Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gylchdroi ddwywaith y flwyddyn rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr a'r rhai sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

23. Swyddogaeth cynrychiolydd sy'n gweithredu fel Cadeirydd fydd:

- cytuno a gosod yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd
- rheoli'r cyfarfodydd i sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gwblhau o fewn yr amser y cytunwyd arno
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos parch dyledus i'r broses a bod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn
- ymdrechu cymaint â phosibl i gael consensws fel canlyniad
- sicrhau bod y camau gweithredu a'r rhesymeg dros y penderfyniadau a wneir yn glir ac yn cael eu cofnodi'n gywir.

24. Oherwydd natur arbenigol gwaith y Bwrdd, disgwylir presenoldeb personol ym mhob cyfarfod gan holl aelodau'r Bwrdd heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer eilydd. Fodd bynnag, byddai dirprwyon yn cael eu caniatáu, ond byddent yn gyfrifol am gynnal eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â materion pensiynau.

25. Gall y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân, gyfethol personau nad ydynt yn aelodau i gynorthwyo'r Bwrdd am gyfnod neu ar gyfer tasg benodol lle byddai hynny'n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ychwanegol. Ni fyddai'r aelodau cyfetholedig yn cael pleidleisio.

**Cworwm**

26. Rhaid i bedwar o aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol er mwyn i gyfarfod fod â chworwm. Os yw'r Cadeirydd yn absennol mewn cyfarfod a bod cworwm, yna rhaid i'r aelodau sy'n mynychu ddewis Cadeirydd i lywyddu'r cyfarfod hwnnw.

**Gwybodaeth a Sgiliau**

27. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y pedwar Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân;
- unrhyw bolisïau, gweithdrefnau neu brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gweinyddu'r Cynlluniau a fabwysiadwyd gan ATAGC a Chronfa Bensiwn Dyfed.

28. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a ragnodir yn y Rheoliadau.

29. Mater i aelodau unigol y Bwrdd Pensiwn yw bod yn fodlon bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau'n briodol fel aelod o'r Bwrdd Pensiwn.

30. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn allu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac adnewyddu a diweddaru eu gwybodaeth. Mae'n ofynnol felly i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

31. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadarnhau i'r Rheolwr Pensiynau o fewn chwe mis i ymuno â'r Bwrdd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Rheoleiddiwr Pensiynau.

32. Yn ystod cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol, rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn ystyried a chytuno ar raglen hyfforddi flynyddol.

**Safonau Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau**

33 Mae rôl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gofyn am y safonau ymddygiad uchaf ac felly bydd 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' yn gymwys i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd gadw at god ymddygiad aelodau a pholisïau diogelu data ATAGC. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu o fewn y cylch gorchwyl hwn bob amser. Yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ni ddylai aelod o'r bwrdd fod â buddiant ariannol neu fuddiant arall a allai ei niweidio wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau i'r Bwrdd. Nid yw hyn yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi yn rhinwedd aelodaeth o'r FPS yn unig.

34 Felly, bydd yn ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddatgan unrhyw fuddiannau ac unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn unol â gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae angen y datganiadau hyn fel rhan o'r broses benodi, yn ogystal ag ar adegau rheolaidd drwy gydol cyfnod aelodaeth yr aelod.

## Adrodd

35 Disgwylir i'r Bwrdd gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub a ddylai gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- manylion meysydd o bryder a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

36 Er mai dim ond un adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i'r Bwrdd ei lunio, bydd cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

37 Pe bai gan y Bwrdd bryderon y credir eu bod yn ddigon difrifol i'w hadrodd ar lefel uwch na'r arfer (i'r Rheolwr Pensiynau) dylent adrodd i'r Prif Swyddog Tân. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, achlysuron pan fydd y Bwrdd yn teimlo na weithredwyd ar argymhellion blaenorol. Mewn achosion eithafol megis toriad sylfaenol o Reoliadau neu fethiant sylfaenol gan yr Awdurdod Gweinyddu i sicrhau bod y gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol, gall y Bwrdd ystyried adrodd i Fwrdd Cynghori'r Cynllun Cenedlaethol a/neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Cydnabyddiaeth ariannol

38 Bydd cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gyfyngu i ad-daliad o'r treuliau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt wrth fynychu cyfarfodydd Bwrdd a hyfforddiant.
Disgwylir y bydd cyflogwyr aelodau bwrdd yn darparu capasiti priodol i ganiatáu i'r aelod gyflawni'r rôl hon o fewn ei ddiwrnod gwaith arferol heb unrhyw ostyngiad mewn cyflog.

39 Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau yn ddim hwyrach nag 1 mis ar ôl y gwariant.

## Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol

40 Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi ar wefan ATAGC yn dangos:

- enwau a manylion aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- sut mae aelodau'r cynllun a chyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiwn Lleol
- cyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd
- cylch gorchwyl llawn a pholisïau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut maent yn gweithredu
- Proses benodi'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

## Adolygiad

41 Mabwysiadwyd y cylch gorchwyl hwn yn ffurfiol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ebrill 2015 a chaiff ei adolygu'n flynyddol i neu ar newidiadau statudol neu reoleiddiol yn unol â pharagraff 41.

42 Mae'r Prif Swyddog Tân wedi'i awdurdodi i wneud mân newidiadau, o ganlyniad i newid statudol neu reoleiddiol, neu i ddiweddaru trefniadau sy'n dilyn ffactorau allanol eraill.

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Yr Amgylchedd)** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd** |
| Pwnc | **Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig i'w hystyried gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Mae Aelodau'r Awdurdod o bob un o'r awdurdodau lleol cyfansoddol wedi cael eu cynnull mewn Gweithgor i ddatblygu'r Strategaeth Amgylcheddol a'r targedau penodol a nodir ynddi.

## ARGYMHELLIAD

2 Gofynnir i aelodau gymeradwyo'r Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023-2030.

## CEFNDIR

3 Cyflwynwyd y Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig i Aelodau mewn Gweithgor ar 4 Ebrill 2023, ac fe'i cymeradwywyd gan y Panel Gweithredol ar 19 Mehefin 2023.

4 Mae'n cadarnhau'r ymrwymiadau deddfwriaethol a pholisi presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau mewn sawl ffordd. Daw'r dyletswyddau perthnasol i baratoi strategaeth amgylcheddol i'r Gwasanaeth o dan y pennawd 'Cymru Gydnerth':

1) **Bioamrywiaeth a Phridd** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach
2) **Lle Gwyrdd Naturiol** Cefnogi cydnerthedd cymdeithasol a lles cymunedol
3) **Gwybodaeth am Natur** Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach
4) **Ansawdd Dŵr ac Aer** Cefnogi cydnerthedd ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl

6 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru (LlC) i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero net erbyn y flwyddyn 2050.

7 Yn unol â'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi cyfres o gyllidebau carbon dros dro, gan gynnwys o dan Gyllideb Garbon 3 (CB3), uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mae hyn yn rhwymo Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, ac nid cyrff cyhoeddus penodol.

8 Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi Siarter Cynaliadwyedd Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Gwasanaethau Brys (ESESG), sy'n nodi'r ymrwymiadau perthnasol canlynol:

1) Gweithio tuag at allyriadau carbon sero-net drwy wella effeithlonrwydd ynni ein hystâd a theithio busnes a phersonol cynaliadwy.
2) Gwella effeithlonrwydd adnoddau a mabwysiadu dulliau economi gylchol o leihau gwastraff ac arbed arian.
3) Adfer a gwella bioamrywiaeth leol drwy reoli ein hystadau mewn modd ystyriol.
4) Addasu i'r newid anochel yn yr hinsawdd drwy reoli ein gallu yn rhagweithiol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau i'r galw am wasanaethau.
5) Cymryd camau i osgoi neu liniaru llygredd cyrsiau dŵr.
6) Lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil drwy fynd ati i geisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ein safleoedd, a thrwy fabwysiadu technolegau a thanwydd gwyrddach ar gyfer ein fflyd.

**GWYBODAETH**

9 Gellir dadlau mai'r mater amgylcheddol mwyaf dybryd sy'n wynebu'r Gwasanaeth yw'r angen i leihau ein hallyriadau carbon. I wneud hyn, mae angen i ni eu mesur yn gyntaf, yna gymryd mesurau priodol i'w lleihau yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

10 Yn unol â safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol, rydym yn adrodd ar ein hallyriadau carbon o dan dri chwmpas:

**Cwmpas 1: Allyriadau Uniongyrchol** – Dyma ein 'hallyriadau egsôst' lle rydym yn allyrru nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol trwy losgi tanwydd hydrocarbon ein hunain.

**Cwmpas 2: Allyriadau Anuniongyrchol** – Mae'r rhain yn allyriadau a wneir gan eraill ar ein rhan, lle mae'r cyflenwad o dan ein rheolaeth ni ac mae graddfa'r allyriadau i raddau helaeth mewn cyfrannedd uniongyrchol â'r galw. Yr unig beth rydyn ni'n adrodd arno ar hyn o bryd o dan Gwmpas 2 yw ein cyflenwadau trydan.

**Cwmpas 3: Allyriadau Anuniongyrchol** – Dyma ein cadwyn gyflenwi yn bennaf, lle gall dwyster carbon cynhyrchion neu wasanaethau fod yn aneglur a lle nad yw bob amser yn cyd-fynd â'r galw.

11 Bydd y Strategaeth Amgylcheddol yn nodi sut y byddwn yn mesur ein hallyriadau carbon o dan bob un o'r cwmpasau hyn. Bydd angen datblygu llinell sylfaen allyriadau er mwyn olrhain ein cynnydd wrth eu lleihau.

12 Yna mae'n ei gwneud yn orfodol i ddatblygu dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Amgylcheddol at ddibenion monitro mewnol, ymgysylltu â chyflenwyr i leihau allyriadau Cwmpas 3, datblygu pecyn hyfforddi Ymwybyddiaeth am Gaffael, a mabwysiadu System Rheoli Amgylcheddol gydnabyddedig.

13 Yn olaf, mae'n nodi gofyniad i ddatblygu a gweithredu'r is-gynlluniau/strategaethau canlynol sy'n nodi sut bydd allyriadau yn cael eu lleihau cymaint â phosibl:

- Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy
- Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd
- Strategaeth Lleihau Gwastraff
- Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi
- Cynllun Datgarboneiddio Pŵer

14 Mae’r gwaith o ddatblygu'r dogfennau hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Awdurdod drwy'r Gweithgor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiad uniongyrchol i gyflawni un o amcanion gwelliant a llesiant tymor hir yr Awdurdod |
| **Cyllideb** | Mae gan y Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn ystod pob blwyddyn ariannol hyd at flwyddyn galendr 2030. Nid yw'r rhain yn cael eu mesur eto. |
| **Cyfreithiol** | Mae’n cefnogi’r gwaith o gydymffurfio â chynlluniau gwelliant, a deddfwriaeth llesiant a’r amgylchedd. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau’r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol a methu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Authority

# Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030

**Mai 2023**




**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:**
North Wales Fire and Rescue Service
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ


Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg**
**This document is also available in English**

# Cynnwys

**1.0 Cyflwyniad** 3
**2.0 Cyd-destun polisi** 4
2.1 Deddfwriaeth 4
2.2 Targedau Cenedlaethol 5
**3.0 Mesur Cynnydd** 5
3.1 Trosolwg 5
3.2 Targedau 5
**4.0 Cynaliadwyedd yn y Gymuned** 6
4.1 Trosolwg 6
4.2 Targedau 6
**5.0 Caffael Cynaliadwy** 7
5.1 Trosolwg 7
5.2 Targedau 7
**6.0 Y Defnydd o Ynni** 8
6.1 Trosolwg 8
6.2 Targedau 8
**7.0 Y Defnydd o Ddŵr** 9
7.1 Trosolwg 9
7.2 Targedau 9
**8.0 Gweithgareddau Gweithredol** 10
8.1 Trosolwg 10
8.2 Targedau 10
**9.0 Gwastraff ac Ailgylchu** 11
9.1 Trosolwg 11
9.2 Targedau 11
**10.0 Fflyd** 12
10.1 Trosolwg 12
10.2 Targedau 12
**11.0 Bioamrywiaeth** 13
11.1 Trosolwg 13
11.2 Targedau 13



# 1.0 CYFLWYNIAD

1.0.1 Fel Gwasanaeth Tân ac Achub, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod a chadw ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn deall bod ein gweithredoedd yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd ac wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed amgylcheddol a hyrwyddo cynaliadwyedd ym mhob rhan o'n gweithrediadau.

1.0.2 Bydd y Strategaeth Amgylcheddol hon yn amlinellu ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu arferion cynaliadwy yn ein gweithrediadau bob dydd, lleihau ein hallyriadau carbon, a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg ein staff ac aelodau o'r gymuned.

1.0.3 Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad cyfrifol a chynaliadwy, ac rydym yn addo adolygu a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Paratowyd y strategaeth hon er mwyn darparu llwybr clir i'r Gwasanaeth gyflawni ei rwymedigaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd ar gyfer y cyfnod hyd at flwyddyn galendr 2030, gan nodi polisïau a meincnodau clir y gellir mesur ein cynnydd yn eu herbyn.

1.0.4 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau amddiffyn ac atal tân i tua 687,000 o bobl dros ardal ddaearyddol o 2,400 milltir sgwâr, yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn. Mae tua 328,742 eiddo domestig a 33,820 eiddo annomestig o dan warchodaeth GTAGC ac mae'r Gwasanaeth yn cyflogi bron i 1,000 o staff mewn rolau gweithredol, diogelwch tân, ystafell reoli a chorfforaethol.

1.0.5 Mae'r Gwasanaeth yn gofalu am dair ardal ddaearyddol, Gwynedd a Môn (y Gorllewin), Conwy a Sir Ddinbych (y Canol), Wrecsam a Sir y Fflint (y Dwyrain), gydag ystâd o 47 o adeiladau, yn amrywio o orsafoedd tân amser cyflawn, criw dydd, rhan amser a chymunedol, i swyddfeydd gweinyddol, gweithdy garej ac adeiladau a rennir gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Yn fras, bydd GTAGC yn mynd at 1,879 o danau, 958 o Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig, a 2,517 o alwadau diangen o wahanol fathau bob blwyddyn.

# 2.0 CYD-DESTUN POLISI

## 2.1 Deddfwriaeth

2.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau mewn sawl ffordd. Daw'r dyletswyddau perthnasol i baratoi strategaeth amgylcheddol i'r Gwasanaeth o dan y pennawd 'Cymru Gydnerth':

1. **Bioamrywiaeth a Phridd** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.
2. **Lle Gwyrdd Naturiol** Cefnogi cydnerthedd cymdeithasol a lles cymunedol.
3. **Gwybodaeth am Natur** Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.
4. **Ansawdd Dŵr ac Aer** Cefnogi cydnerthedd ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl.

2.1.2 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero net erbyn y flwyddyn 2050.

2.1.3 Yn unol â'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi cyfres o gyllidebau carbon dros dro, gan gynnwys o dan Gyllideb Garbon 3 (CB3), uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mae hyn yn rhwymo Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, nid cyrff cyhoeddus penodol.

2.1.4 Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth i adrodd ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ei ystâd bob tair blynedd o ddiwedd 2019.

2.1.5 Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi Siarter Cynaliadwyedd Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Gwasanaethau Brys (ESESG), sy'n nodi'r ymrwymiadau perthnasol canlynol:

1. Gweithio tuag at allyriadau carbon sero-net drwy wella effeithlonrwydd ynni ein hystâd a theithio busnes a phersonol cynaliadwy.
2. Gwella effeithlonrwydd adnoddau a mabwysiadu dulliau economi gylchol o leihau gwastraff ac arbed arian.
3. Adfer a gwella bioamrywiaeth leol drwy reoli ein hystadau mewn modd ystyriol.
4. Addasu i'r newid anochel yn yr hinsawdd drwy reoli ein gallu yn rhagweithiol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau i'r galw am wasanaethau.
5. Cymryd camau i osgoi neu liniaru llygredd cyrsiau dŵr.
6. Lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil drwy fynd ati i geisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ein safleoedd, a thrwy fabwysiadu technolegau a thanwydd gwyrddach ar gyfer ein fflyd.

## 2.2 Targedau Cenedlaethol

2.2.1 Fel Sefydliad Sector Cyhoeddus, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o dargedau gwella amgylcheddol lleol a chenedlaethol a'u hystyried.

2.2.2 Mae targedau amgylcheddol wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru o fewn strategaethau allweddol gan gynnwys 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' a 'Tuag at Wastraff Sero Net'. Dyma’r targedau amlinellol ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr a gwastraff i safleoedd tirlenwi sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector Cyhoeddus a Phreifat fesur a lleihau'r allyriadau hyn o flwyddyn i flwyddyn.

2.2.3 Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at fod y Genedl Ail-lenwi gyntaf gyda'r nod o leihau poteli plastig untro.

2.2.4 Yn 2018, cyhoeddodd DEFRA ei Gynllun Amgylcheddol 25 mlynedd sy'n amlinellu targedau mewn perthynas ag aer glân, dŵr, bioamrywiaeth, defnydd cynaliadwy o adnoddau, lleihau gwastraff, bioddiogelwch a gwella'r amgylchedd naturiol.

# 3.0 MESUR CYNNYDD

## 3.1 Trosolwg

3.1.1 Mae mesur cynnydd wrth wraidd ein strategaeth amgylcheddol. Mae'n caniatáu i'r Gwasanaeth olrhain cynnydd tuag at ein targedau penodedig a nodi meysydd lle gallwn wella.

3.1.2 Yn Adran 3.2.1 (isod), rydym yn amlinellu sut y byddwn yn datblygu'r dangosyddion allweddol y bydd y Gwasanaeth yn eu defnyddio i fesur ei gynnydd o ran lleihau ei effaith amgylcheddol. Bydd y dangosyddion hyn yn canolbwyntio ar feysydd fel defnyddio ynni, lleihau gwastraff ac allyriadau carbon, a byddant yn cael eu defnyddio i osod targedau ac olrhain cynnydd dros amser.

3.1.3 Trwy fonitro ac adrodd yn rheolaidd ar y dangosyddion hyn, bydd y Gwasanaeth yn gallu sicrhau ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion amgylcheddol a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.

## 3.2 Targedau

3.2.1 Byddwn yn mesur ein cynnydd drwy:

- Sefydlu gwaelodlin allyriadau carbon, y gallwn fesur ein cynnydd yn ei herbyn wrth leihau ein hôl troed carbon
- Dilyn y Targedau a nodir yn y Strategaeth hon – gyda chynnydd yn cael ei adrodd mewn cynlluniau gwella adrannol / corfforaethol ac yn cael ei adolygu’n rheolaidd gan Weithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Mabwysiadu System Rheoli Amgylcheddol i safon gydnabyddedig (fel ISO:14001 neu’r Ddraig Werdd)
- Paratoi dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol amgylcheddol misol
- Cyflwyno diweddariad amgylcheddol chwarterol i’r Pwyllgor Tir ac Eiddo
- Cyflwyno archwiliadau allyriadau carbon blynyddol i Lywodraeth Cymru
- Paratoi Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth bob tair blynedd

# 4.0 CYNALIADWYEDD YN Y GYMUNED

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Fel corff cyhoeddus, rydym yn ymdrechu i gael presenoldeb cadarnhaol yn y gymuned rydym yn ei gwasanaethu ac yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan lle bo hynny'n bosibl. Drwy gydol y flwyddyn, mae gorsafoedd tân yn cynnal eu Diwrnodau Agored eu hunain ar gyfer eu cymuned leol, yn cynnal ymweliadau ag ysgolion ac yn agor eu drysau i grwpiau prosiectau cymunedol.

4.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn gwneud gwaith cynhwysfawr gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch ac atal tân. Mae'r potensial am niwed difrifol i'n hamgylchedd, yn aml mewn ardaloedd sensitif, yn sgil effaith tanau cefn gwlad yn bryder difrifol. Mae effaith cynnau tân bwriadol yn tanseilio hyder cymdeithasol ac economaidd ac yn tynnu ar adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn mannau eraill.

4.1.3 Mae lleihau tanau bwriadol yn helpu i ddiogelu a chynnal ansawdd a hyfywedd parhaus yr amgylchedd a'r mannau lle'r ydym yn byw, gweithio, dysgu a threulio ein hamser hamdden.

4.1.4 Mae'n bwysig addysgu a chodi ymwybyddiaeth am effaith tanau bwriadol ar yr amgylchedd. Dylem annog cynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol wrth ymweld ag ysgolion mewn ymgais i dynnu sylw at faint o danau bwriadol sy'n cael eu cynnau yn y gymuned.

## 4.2 Targedau

4.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Hyrwyddo diogelwch cymunedol i atal tanau a digwyddiadau eraill rhag digwydd
- Cyflawni amcanion Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru
- Cyflawni'r amcanion a nodir yn ein Hadroddiad Bioamrywiaeth a'n Cynlluniau Gweithredu tair blynedd
- Creu a datblygu partneriaethau rhyngasiantaethol yn unol â Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Ymgysylltu ag ysgolion a cholegau o fewn ardal y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth am beryglon tân



# 5.0 CAFFAEL CYNALIADWY

## 5.1 Trosolwg

5.1.1 Caffael cynaliadwy yw'r broses o gaffael nwyddau a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n elfen allweddol o gyfrifoldeb cymdeithasol a stiwardiaeth amgylcheddol.

5.1.2 Fel gwasanaeth cyhoeddus cyfrifol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd caffael cynaliadwy ac rydym wedi ymrwymo i weithredu polisi cynhwysfawr sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Ein nod yw lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau, cefnogi'r cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu, a hyrwyddo arferion llafur teg.

5.1.3 Drwy gydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill a sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, ein nod yw gwella ein perfformiad ym maes caffael cynaliadwy, gyda'r nod o weithredu safonau arfer gorau ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.

5.1.4 Rydym yn ymdrechu i gydweithio a meincnodi cynnydd yn erbyn gwasanaethau brys eraill a sefydliadau sector cyhoeddus eraill er mwyn mesur ein perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus. Caiff yr holl weithgarwch caffael dros y lefelau y cytunwyd arnynt ei wneud gan Heddlu Gogledd Cymru ar ran y Gwasanaeth.

5.1.5 Fel gwasanaeth, rydym yn sicrhau bod cyflenwadau, gwasanaethau a gwaith yn cael eu caffael nid yn unig yn ôl rheoliadau'r sector cyhoeddus, ond hefyd mewn ffordd sy'n caniatáu i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) ddatblygu. Mae hon yn elfen allweddol o'n rhwymedigaeth Gwerth Cymdeithasol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Fel corff cyhoeddus, rydym yn ceisio gwneud ein proses gaffael yn fwy cynaliadwy ac felly ymrwymo i Raglen Caffael Cynaliadwy Sector Cyhoeddus Gwerth Cymru.

## 5.2 Targedau

5.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Gweithio gyda WRAP Cymru a/neu gynlluniau tebyg, i gael cipolwg arbenigol ar sut y gallwn gyflawni cynaliadwyedd yn ein proses gaffael.
- • Paratoi a gweithredu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy sy’n adlewyrchu’r arferion gorau yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod fframweithiau a chontractau caffael yn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn ystod y broses dendro. Hefyd, bydd yn amlinellu ein dull o ddod o hyd i nwyddau a gwasanaethau sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd, yn gymdeithasol gyfrifol ac yn hyfyw yn economaidd.
- • Archwilio opsiynau ar gyfer caffael lleol i gael eu darparu drwy gydweithrediad cenedlaethol/rhanbarthol yn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau golau glas eraill.
- • Parhau i weithio gyda Fire Aid i sicrhau bod offer yn cael ei ailgylchu lle bo hynny’n bosibl.
- • Datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth caffael, gan ymgorffori egwyddorion craidd gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd ar bob lefel o’r Gwasanaeth.



# 6.0 Y DEFNYDD O YNNI

## 6.1 Trosolwg

6.1.1 Fel Gwasanaeth Tân ac Achub rydym yn cydnabod pwysigrwydd lleihau ein defnydd o ynni ar draws ein hystâd. Rydym yn gwella ein system yn barhaus ar gyfer monitro defnydd ac yn rhoi mentrau arbed ynni ar waith lle bo hynny'n bosibl i leihau ein hôl troed carbon.

6.1.2 Caiff ein hadeiladau eu cynhesu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau tanwydd hydrocarbon, sy'n gynhenid anghynaliadwy ac fe fyddwn yn ceisio eu dileu.

6.1.3 Rydym yn chwilio'n barhaus am y tariffau ynni mwyaf effeithlon a gwyrdd ac ar hyn o bryd mae gennym nifer fach o safleoedd sydd â phaneli ffotofoltäig (PV) solar wedi'u gosod, gyda'r bwriad o gynyddu hyn dros gyfnod y cynllun a chynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu ar draws ein hystâd lle bynnag y bo modd.

## 6.2 Targedau

6.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Gweithio gyda Re:fit Cymru a/neu gynlluniau tebyg, er mwyn galluogi ôl-ffitio effeithlonrwydd ynni i'n hystâd mewn modd niwtral yn ariannol lle bo hynny'n bosibl.
- Ymgysylltu â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i barhau i fod yn wybodus am y datblygiadau o ran polisi, technoleg a chyfleoedd cyllido posibl.
- Monitro'n barhaus y defnydd o ynni ac effeithlonrwydd ynni cymharol ein hadeiladau er mwyn nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Paratoi a gweithredu Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi, gan nodi'r ffordd yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'n hallyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o wresogi ein hystâd o fewn cyfnod y strategaeth hon.
- Paratoi a gweithredu Cynllun Datgarboneiddio Pŵer, gan nodi'r modd rydym yn bwriadu lleihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o'n defnydd o drydan.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â'n staff a defnyddwyr adeiladu eraill i addysgu ac annog defnydd effeithlon o ynni ac ymddygiadau eraill sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.
- Ystyried bod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus drwy sicrhau bod ein hystâd ar gael at ddibenion cymunedol lle bo hynny'n bosibl



# 7.0 Y DEFNYDD O DDŴR

## 7.1 Trosolwg

7.1.1 Fel sefydliad sy'n dibynnu'n drwm ar ddŵr ar gyfer nifer o'n gweithgareddau, mae'n hanfodol ei ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Nid yn unig y defnydd o ddŵr mewn digwyddiadau ond hefyd dŵr a ddefnyddir ledled ein hystad.

7.1.2 Dros y blynyddoedd, rydym wedi gosod nifer o ddyfeisiau arbed dŵr yn ein hadeiladau ond byddai mwy'n gallu cael ei wneud o ran cynaeafu dŵr glaw ac ailddefnyddio dŵr llwyd.

7.1.3 Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth yr holl weithwyr i ddeall beth yw gwir gost a graddfa defnydd y gwasanaeth o ddŵr i sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy.

## 7.2 Targedau

7.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Meintioli'r defnydd o ddŵr corfforaethol ar draws ein hystâd
- Ystyried cynaeafu dŵr glaw, defnyddio dŵr llwyd a mesurau cadwraeth dŵr tebyg pryd bynnag y gwneir gwaith adnewyddu neu ailadeiladu
- Annog cadwraeth dŵr ac effeithlonrwydd dŵr ymysg staff a defnyddwyr eraill ein safleoedd a'u haddysgu am hyn
- Ymgysylltu â Dŵr Cymru i ddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin at ddibenion diffodd tân lle bo hynny'n bosibl

# 8.0 GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

## 8.1 Trosolwg

8.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn cynorthwyo'r cyhoedd yn rheolaidd i ddelio â'r canlyniadau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd fel llifogydd a thanau yn yr awyr agored.

8.1.2 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gweithredu ein Gwasanaeth mewn modd effeithiol sy'n rhoi ystyriaeth briodol i effaith ein gweithgareddau, boed hynny oherwydd ein defnydd o adnoddau naturiol, ein defnydd o gyfryngau diffodd tân fel ewyn, neu ein hymdrechion i leihau effaith y cynhyrchion gwastraff e.e. dŵr ffo neu fwg i'r amgylchedd.

8.1.3 Fel Gwasanaeth, rydym yn adolygu ein gweithdrefnau a'n hoffer gweithredol yn barhaus ac yn ymgorffori'n llawn yr egwyddor o asesu effaith amgylcheddol yn ein holl weithgareddau er mwyn ystyried yr amgylchedd ehangach yn llawn.

## 8.2 Targedau

8.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Sicrhau bod prosesau caffael ar gyfer cael offer gweithredol newydd yn cynnwys ystyried yr holl ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau / costau gwaredu 'diwedd eu hoes gyfan'
- Gweithio'n agos â phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau arferion gorau a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol
- Ymgysylltu â staff amgylcheddol awdurdodau lleol a phartneriaethau natur lleol i archwilio ychwanegu haenau bioamrywiaeth a sensitifrwydd amgylcheddol ar ein systemau Terfynell Data Symudol (MDT)



# 9.0 GWASTRAFF AC AILGYLCHU

## 9.1 Trosolwg

9.1.1 Mae gwastraff yn broblem sylweddol i sefydliad sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr. Lleihau faint o sbwriel rydym yn ei gynhyrchu yn y lle cyntaf yw un o'r cyfleoedd gorau sydd gennym i osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Fel corff cyhoeddus, mae angen i ni fod yn atebol am faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu a bydd ei leihau wrth ei ffynhonnell yn un o'n prif amcanion wrth symud ymlaen.

9.1.2 Yn 2010, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Wastraff i Gymru i osod targedau lleihau gwastraff ar gyfer gwahanol sectorau. Mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn rhoi'r manylion i addysgu sefydliadau ar sut i fod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050. Fel mae'r strategaeth hon yn ei amlinellu, ein nod yw cynyddu ailgylchu cymaint â phosibl, lleihau faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir ac anfon cyn lleied o wastraff â phosibl i safleoedd tirlenwi.

9.1.3 Fel Gwasanaeth, rydym yn gweithio tuag at dargedau lleihau blynyddol mewn perthynas â'n gwastraff ac yn adolygu ein contractau gwastraff yn rheolaidd i sicrhau bod y trefniadau gorau ar waith i'n helpu gyda'r targedau. Mae daearyddiaeth ardal y Gwasanaeth yn cynnig nifer o heriau logistaidd o ddydd i ddydd.

9.1.4 Fel Gwasanaeth sy'n cynhyrchu cryn dipyn o wastraff, rhaid i ni barhau i weithredu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i atal gwastraff a defnyddio cynhyrchion ailgylchadwy/bioddiraddadwy os ydyn ar gael. Trwy ystyried a chymhwyso'r hierarchaeth wastraff, mae'n rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff rhag cael ei greu yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn bwysig addysgu ein staff i fod yn ymwybodol bod lleihau faint o wastraff wrth ei ffynhonnell yn llawer mwy cynaliadwy nag ailgylchu deunyddiau gwastraff. Gall hyn osgoi neu leihau cynhyrchu dŵr gwastraff yn y lle cyntaf.

## 9.2 Targedau

9.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Paratoi a gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff, a fydd yn annog ailddefnyddio deunyddiau, lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, hyrwyddo ailgylchu a phrynu cynaliadwy, a lleihau'r defnydd o blastigau untro.






# 10.0 FFLYD

## 10.1 Trosolwg

10.1.1 Mae ein fflyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i argyfyngau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried effaith amgylcheddol ein gweithrediadau fflyd. Rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau ac ôl troed amgylcheddol ein fflyd, yn ogystal â hyrwyddo cludiant cynaliadwy yn ein Gwasanaeth. Ein nod yw arwain drwy esiampl a dangos ei bod yn bosibl cael cydbwysedd rhwng diogelwch a chyfrifoldeb amgylcheddol yn ein gweithrediadau.

10.1.2 Mae gennym fflyd fawr gan gynnwys 54 peiriant tân, un uned meistroli digwyddiad a 31 o gerbydau 'arbennig' – fel cerbydau pob tir a chludwyr ewyn; mae gennym hefyd dri pheiriant ag ysgol ac esgynlawr, offer pŵer cludadwy, offer codi a winsio ac offer arbenigol eraill i'n galluogi i ymateb i nifer o wahanol fathau o ddigwyddiadau.

10.1.3 Mae modd disgrifio ein fflyd o fewn tri chategori gwahanol. Mae'r fflyd goch yn cynnwys cerbydau gweithredol ac ymateb. Mae'r fflyd wen wedi'i darparu gan y Gwasanaeth yn gyfan gwbl, ac mae'r fflyd lwyd yn cynnwys cerbydau sy'n eiddo i weithwyr a ddefnyddir ar fusnes swyddogol.

10.1.4 Er mai'r prif danwydd a ddefnyddir o fewn y fflyd yw disel, mae nifer fach o gerbydau ac offer cludadwy yn defnyddio petrol di-blwm. Roedd yr allyriadau carbon Cwmpas 1 o'n gweithrediadau fflyd ym mlwyddyn ariannol 2021/22 bron gyfwerth â 614 tunnell o $CO_2$.

10.1.5 Mae cylch bywyd nodweddiadol peiriant tân gweithredol yn fwy na phymtheng mlynedd, gyda rhaglen dreigl o adnewyddu peiriannau.

## 10.2 Targedau

10.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Paratoi a gweithredu Cynllun Datgarboneiddio Fflyd, gan nodi sut rydym yn bwriadu dileu ein hallyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o gludiant
- Parhau i ddarparu cynllun prydlesu ceir aberthu cyflog i weithwyr lle bo'n ymarferol gwneud hynny, i gymell pobl i newid i Gerbydau Trydan
- Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau Beicio i'r Gwaith cymeradwy lle bo'n ymarferol i wneud hynny
- Chwilio am gyfleoedd i ehangu'r capasiti ar gyfer gwefru ceir trydan o amgylch ein hystâd
- Hyrwyddo cynllun cronfa geir a chludiant cynaliadwy ar gyfer staff a phartneriaid
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill wrth ddefnyddio unrhyw danwydd amgen i hyrwyddo gwerth gorau, effeithlonrwydd gweithredol a chydnerthedd cyflenwi

# 11.0 BIOAMRYWIAETH

## 11.1 Trosolwg

11.1.1 Mae llawer yn cydnabod bod bioamrywiaeth o dan bwysau gan amrywiaeth o ddylanwadau a bod cynefinoedd a rhywogaethau yn parhau i ddirywio. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ac yn gwella ein bioamrywiaeth i sicrhau ei bod yn parhau'n iach, yn wydn ac yn gallu addasu i newid. Mae newid hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth dros y degawdau nesaf, gan gynnwys colli mwy o gynefinoedd a chynnydd posib mewn rhywogaethau goresgynnol.

11.1.2 Mae rhan fawr o ardal ein Gwasanaeth yn cynnwys tir gwledig, gyda rhan sylweddol ohoni o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ardaloedd hyn yn gartref i lawer iawn o fywyd gwyllt, gan gynnal amrywiaeth gyfoethog o blanhigion a ffawna sy'n cynnwys llawer o rywogaethau sy'n frodorol i Brydain a rhai sy'n unigryw i Gymru.

11.1.3 Rydym am annog a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd a'r ardaloedd cyfagos lle bo hynny'n bosibl a diogelu'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo.

11.1.4 Ein nod yw helpu i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn ardal ein Gwasanaeth drwy gydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, grwpiau amgylcheddol lleol ac arbenigwyr a all gynghori ar y dull gorau o ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â'r ardaloedd hyn.

11.1.4 Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at warchod yr amgylcheddau pwysig hyn. Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Adfer Natur, sy'n cynnwys y strategaeth ar gyfer Natur a'r ymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y problemau roedd angen mynd i'r afael â nhw a'r amcanion ar gyfer gweithredu; Cynllun Gweithredu i gyflawni'r amcanion i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth; a strwythur llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chyflawni camau gweithredu er budd bioamrywiaeth yng Nghymru.

## 11.2 Targedau

11.2.1 Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:

- Paratoi Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth bob tair blynedd, gan nodi gwaith a wnaed a'r cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf mewn perthynas â diogelu ecosystemau a gwella bioamrywiaeth.



*This document is available in English* **EITEM AGENDA 11**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Awdurdon Tân ac Achuib Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, (Polisi Corfforaethol a Chynllunio)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Ebrill 2022 – Mawrth 2023** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) at 5,896 o achosion brys. Mae hyn yn gynnydd o 10.1% o'i gymharu a blwyddyn ariannol 2021/22 (5,355).

3 Cynyddodd presenoldeb mewn argyfyngau nad ydynt yn danau, a ddosberthir fel Galwadau Gwasanaeth Arbennig (SSC), 26.4% i 1,211. Daw hyn yn dilyn newid polisi yn ystod 2021/22 ynghylch mynychu SSC, i roi mwy o gymorth i'r cyhoedd ac asiantaethau partner gan gynyddu amlygrwydd y Gwasanaeth yn y gymuned ar yr un pryd.

4 Gostyngodd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi (ADF) yr aethpwyd atynt yn ystod y flwyddyn ariannol i 344, o gymharu â 400 yn ystod 2021/22. Mae'n bleser gennyf adrodd na fu unrhyw farwolaethau damweiniol mewn tanau mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol, a bod gostyngiad hefyd yn nifer yr anafiadau difrifol, o 5 i 3, o gymharu â 2021/22. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau parhau i ddarparu ymyriadau atal tân a mentrau i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Parhaodd tanau yn yr awyr agored i fod yn faes ffocws i'r Gwasanaeth, a all fod o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, ac mae'n faes sy'n tyfu yn y DU o gymharu â'r gostyngiad mewn tanau mewn tai yn ystod y degawd diwethaf. Gall tanau yn yr awyr agored fod yn ddigwyddiadau arbennig o heriol i'r Gwasanaeth ddelio â nhw oherwydd eu natur ansicr, maint posibl, graddfa a dwyster ac oherwydd yr amgylcheddau rhyngwyneb gwledig a gwledig-trefol y maent yn tueddu i ddigwydd ynddynt.

6 Fel y'i diffinnir gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC), mae tân yn yr awyr agored yn dân mewn glaswelltir, coetir neu gnydau:

1. sy'n cynnwys un hectar o leiaf o ardal ddaearyddol (10,000 metr sgwâr neu 100m x 100m);
2. sydd â hyd fflam parhaus o fwy nag 1.5 metr;
3. sy'n mynnu adnodd neilltuedig o 4 peiriant/adnodd tân ac achub o leiaf;
4. sy'n mynnu ymrwymo adnoddau am o leiaf chwe awr; a/neu
5. sy'n peri bygythiad difrifol i fywyd, yr amgylchedd, eiddo a seilwaith.

7 Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, bu cynnydd bach i 35 yn nifer y tanau yn yr awyr agored yr aethpwyd atynt gan gyfanswm cyfunol o 108 o gerbydau am dros 646 o oriau.

8 Mynychwyd 2,674 o Alwadau Diangen yn ystod y flwyddyn ariannol, cynnydd o 6.2% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hyn oherwydd cynnydd o 9.7% yn nifer galwadau systemau larwm tân a fynychwyd oherwydd cyfarpar (AFA) o 1,398 i 1,532, ac i alwadau diangen maleisus o 43 i 52 (20.9%). Derbyniodd y Gwasanaeth 1,485 o alwadau AFA Masnachol, a mynychwyd 17 (1.1%) ohonynt ac ni fynychwyd 1,468 (98.9%). Yn ogystal, derbyniwyd 446 o alwadau AFA mewn ysbytai, a mynychwyd 203 (45.5%) ohonynt ac ni fynychwyd 243 (54.5%).

9 Arweiniodd y newidiadau i'n polisi mynychu i ddigwyddiadau yng Ngharchar Berwyn a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig, a'r cyngor diogelwch tân a roddwyd yn ystod 2022/23, at ostyngiad yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn y carchar i 19 o 22 yn ystod 2021/22.

10 Cynyddodd perfformiad argaeledd criwiau tân yn unol â tharged argaeledd 20 gorsaf 3.5% i 324 diwrnod (88.8%) o gymharu â 313 diwrnod (85.8%) yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

## ARGYMHEILLIAD

11 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
i) nodi'r wybodaeth a ddarperir.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL 19 MEHEFIN 2023

12 Rhoddodd y Panel Gweithredol ystyriaeth i'r adroddiad monitro perfformiad yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2023, a chanolbwyntiodd ar y newyddion cadarnhaol na fu unrhyw farwolaethau damweiniol yn ymwneud â thanau mewn anheddau yn ystod 2022/23. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cofnodwyd bod hyn oherwydd dros ddegawd o waith ataliol gan y Gwasanaeth. Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad.

**GWYBODAETH**

13 **Yr Holl Ddigwyddiadau**

Parhaodd y duedd ar i fyny yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, gyda 10.1% yn fwy o ddigwyddiadau yn cael eu mynychu yn ystod y flwyddyn ariannol, 5,896 o gymharu â 5,355 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y prif gyfrannwr at y cynnydd oedd Galwadau Gwasanaeth Arbennig a gynyddodd 26.4%.

14 **Tanau**

Cynyddodd nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ystod y flwyddyn ariannol 7.0% i 2,011 o gymharu â 1,880 yn ystod 2021/22.

15 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**

Cynyddodd tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau 26.5% i 472 o 373 yn ystod 2021/22. Cynyddodd nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd i 306 o 234, gyda thanau 'Glaswelltir, Porfa, Pori ac ati' a 'Rhostir neu Weundir' yn brif gyfranwyr, gan gynyddu o 68 i 94 ac 81 i 107 yn y drefn honno. Cofnodwyd cynnydd hefyd yn 'Prysgwydd Coed – yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gardd' (20 i 31); 'Gwrychoedd' (17 i 29) a 'Llosgi gwellt/sofl' (1 i 9).

16 Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau eilaidd bwriadol 15.2% o 125 i 144. Er mai'r prif gyfranwyr at y cynnydd oedd 'Glaswelltir, Porfa, Pori ac ati' (47 i 64) a 'Prysgwydd Coed – yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gardd' (15 i 24), gostyngodd tanau "Rhostir neu Weundir" o 40 i 27.

17 **Tanau yn yr awyr agored**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, er bod cynnydd o ran mynychu tanau yn yr awyr agored i 35 o 34 yn y flwyddyn ariannol flaenorol, mynychodd 108 o gerbydau o gymharu â 136. Gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn y lleoliad i 646 awr, o gymharu â 682 o oriau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

18 **Prif Danau**

Gostyngodd prif danau 3.1% o 881 i 854 o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 ac roeddent 3.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 884. Er bod nifer y prif danau damweiniol wedi gostwng 3.4% o 738 i 711 ar sail gostyngiad mewn prif danau damweiniol mewn cartrefi, roedd prif danau damweiniol 2.0% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 697. Nid oedd nifer y prif danau bwriadol wedi newid, sef 143 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 23.5% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 187.

19 **Tanau Eilaidd**
Cynyddodd tanau eilaidd, a oedd 23.2% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 842, 18.0% o 879 i 1,037, oherwydd cynnydd o 20.2% mewn tanau eilaidd damweiniol (550 i 661). Er bod cynnydd wedi'i gofnodi yn 'Glaswelltir, coetir a chnydau' (234 i 306) ac 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (149 i 205), bu gostyngiad mewn 'Strwythurau awyr agored' (140 i 115). Cynyddodd tanau eilaidd bwriadol 14.3% (329 i 376), a chynyddodd 'Glaswelltir, coetir a chnydau' ac 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' 15.2% (125 i 144) a 23.0% (126 i 155) yn y drefn honno.

20 **Tanau Simnai**
Mae nifer y tanau simnai, nad oedd wedi newid, sef 120 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, wedi gostwng 17.2% o gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19 (145) ac roeddent 14.9% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 141.

21 **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**
Mynychodd y Gwasanaeth 14.0% yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi - 344 o gymharu â 400 yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Tanau damweiniol mewn 'Tŷ - Meddiannaeth Sengl' a 'Byngalo - Meddiannaeth Sengl' oedd yn arwain y gostyngiad o 235 i 198 ac o 62 i 40 yn y drefn honno. Prif achosion y tanau damweiniol oedd 'Coginio – coginio arall', 'Deunyddiau Llosgadwy sy'n Rhy Agos at Ffynhonnell Wres (neu dân)'; 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' a 'Choginio – Sosban Sglodion/Peiriant Ffrio Dwfn' a ostyngodd o 80 i 78, 89 i 63; 41 i 34 a 26 i 10 yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd cynnydd mewn 'Gorboethi, Achos Anhysbys' o 12 i 20.

22 **Anafiadau/Marwolaethau mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**
Doedd dim marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â 3 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Bu gostyngiad yn y nifer a anafwyd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o 113 i 71, gyda 3 person yn dioddef anafiadau difrifol o gymharu â 5 yn ystod 2021/22.

23 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**
Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol (87.2%). Bu gostyngiad o 190 i 176 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle cafodd synhwyrydd mwg/gwres ei osod, ei weithredu a galwyd am gymorth.

24 Bu gostyngiad o 78 i 43 yn nifer y digwyddiadau lle'r oedd synhwyrydd mwg wedi'i osod ond na wnaeth weithredu.

24 Bu gostyngiad o 50 i 44 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle na chafodd unrhyw synhwyrydd ei osod, a lle gosodwyd synhwyrydd a'i weithredu ond ni alwyd am gymorth, roedd nifer y digwyddiadau heb newid ar 81.

25 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Amhreswyl**

Bu gostyngiad o 54 i 48 mewn prif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 19 yn digwydd yng Ngharchar y Berwyn.

26 **Galwadau Diangen**

Parhaodd y duedd ar i fyny mewn Galwadau Diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynychu 2,674 o alwadau diangen - 6.2% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2021/22 (2,517), a 12.9% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 2,369. Bu cynnydd o 9.6% o 1,398 i 1,532 yn y rhai a oedd wedi tarddu o systemau larwm tân awtomatig (AFA) ac roedd yn cynrychioli 57.3% o'r achosion o alwadau diangen.

27 **Larymau Tân Awtomatig Amhreswyl (AFA)**

Bu cynnydd o 27.0% o 200 i 254 mewn AFAs yn bennaf oherwydd cynnydd mewn tanau mewn 'Ysbytai a Gofal Meddygol' a gynyddodd o 134 i 186. Prif achosion actifadu mewn Larymau Tân Awtomatig Amhreswyl oedd 'Diffygiol' (85 i 95); 'Wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' (35 i 40); a 'Cemegau/aerosolau' (10 i 19).

28 **AFAs Arall-Preswyl**

Bu cynnydd o 16.5% mewn LTA 'Arall-Preswyl' o 97 i 113, gyda 'Llety Nyrsys'/Meddygon' a 'Gwesty/motel' yn cynyddu o 9 i 25 ac o 15 i 23 yn y drefn honno. Fodd bynnag, gostyngodd 'Neuadd Breswyl Myfyrwyr' a 'Cartref Preswyl' o 35 i 20 ac o 23 i 15 yn y drefn honno. Er mai prif achosion actifadu yng nghategori 'Arall-Preswyl' oedd 'Coginio/llosgi tost', gyda chynnydd bach o 27 i 30, cynyddodd 'Anwedd' ac 'Ysmygu' o 4 i 9 ac o 3 i 7 yn y drefn honno. Er hynny, bu gostyngiad yn y categori 'Diffygiol' o 31 i 26.

29 **AFAs mewn cartrefi**

Dangosodd tanau damweiniol mewn cartrefi duedd barhaus i fyny, gan gynyddu 5.8.% o 1,100 i 1,165, gyda 'Tŷ -Meddiannaeth Sengl' yn brif gyfrannwr at y cynnydd, gan godi o 278 i 338, ac yna 'Byngalo - meddiannaeth sengl' yn codi o 300 i 340. Cofnodwyd gostyngiadau yng nghategori 'Fflatiau/Fflatiau Deulawr wedi'u Hadeiladu'n Bwrpasol – amlfeddiannaeth' a ''Tai Gwarchod Hunangynhwysol' o 393 i 361 ac o 87 i 74 yn y drefn honno.

30 O'r 1,165 o danau damweiniol mewn cartrefi, 'Coginio/Llosgi Tost' oedd y prif achos actifadu, gan gynyddu o 574 i 600. Cofnodwyd cynnydd bychan hefyd yn 'Arall' (58 i 69); 'Cychwyn yn Ddamweiniol/yn Ddiofal' (51 i 60); 'Ymwthiad Dŵr' (2 i 14), a lle na phenderfynwyd beth oedd yr achos (5 i 13).

31 **Galwadau Diangen Didwyll**

Cynyddodd galwadau diangen 1.3% o 1,076 i 1,090, oherwydd cynnydd mewn 'Galwadau Diangen - Eiddo heb ei Ddarganfod' (52 i 85).

32 Gostyngodd galwadau diangen didwyll yng nghategori 'Awyr Agored Arall (gan gynnwys tir)' o 295 i 239 yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn 'Llosgi rheoledig' (262 i 215).

33 Cynyddodd galwadau diangen didwyll ‘Preswyl’ 8% o 399 i 431 oherwydd cynnydd mewn ‘Arall’ ac ‘Arall Coginio’, 199 i 210 a 52 i 86 yn y drefn honno.

34 Cynyddodd galwadau diangen didwyll mewn ‘Dibreswyl’ o 74 i 83 oherwydd cynnydd mewn ‘Arall’ (24 i 31)) ac ‘Offer yn Gorboethi’ (1 i 9).

35 Gostyngodd galwadau diangen didwyll yn 'Glaswelltir, coetir a chnydau' o 127 i 116, gyda 'Llosgi Rheoledig' a 'Digwyddiad a Adroddir/Lleoliad heb ei Ddarganfod' yn gostwng o 95 i 88 ac o 22 i 16 yn y drefn honno.

36 **Galwadau Diangen Maleisus**
Roedd cynnydd mewn Galwadau Diangen Maleisus o 43 i 52 gydag ‘Annedd’ yn brif gyfrannwr at y cynnydd sef cynnydd o 21 i 36.

37 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**
Cynyddodd Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig 26.4% i 1,211 o 958 yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 63.6% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 740. Gellir priodoli hyn i'r newid mewn polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân yn y gymuned pan fo angen.

38 Cynyddodd 'Heblaw Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd' 30.1% (751 i 977). Y prif gyfrannwr at y cynnydd oedd 'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill' a gynyddodd 36.3% (226 i 355). Cafwyd cynnydd hefyd mewn 'Sicrhau mynediad/allanfa' (77 i 98); 'Rhyddhau o lifft' (75 i 87); ‘Achub Arall/Rhyddhau Pobl’ (60 i 92); gwahanu pobl oddi wrth wrthrychau (70 i 80), ‘Digwyddiadau cymorth anifeiliaid’ (6 i 46), a ‘Dim Gweithredu (dim galwadau diangen)’ (52 i 80). Fodd bynnag, roedd gostyngiadau yn 'Llifogydd' a 'Diogelu (nid Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd)' o 66 i 53 ac o 49 i 17 yn y drefn honno.

39 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC)**
Mynychodd y Gwasanaeth 13.0% yn fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd (207 i 234), lle’r oedd 69 (29.5%) yn cynnwys tynnu personau’n rhydd. Lle galwyd ar y Gwasanaeth i wneud cerbyd neu safle’n ddiogel, cynyddodd ei bresenoldeb 24.1% (83 i 103). Er i'r Gwasanaeth fynychu mwy o wrthdrawiadau ar y ffordd, roedd canran y rhain a oedd yn cynnwys rhyddhau pobl ar ei lefel isaf ers 2018/19 (39.4%) ac roedd hefyd yn is na’r cyfartaledd 3 blynedd o 36.2%.

40 **Archwiliadau Diogel ac Iach (SAWC)**
Cwblhaodd y Gwasanaeth 18,052 SAWC ac roedd 6,162 (34.1%) ohonynt yn SAWC Blaenoriaeth Uchel. O'r SAWC Blaenoriaeth Uchel, roedd 3,487 (56.6%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner.

41 **Perfformiad Gorsafoedd**
Cyflawnwyd argaeledd arfaethedig 20 gorsaf ar 324 diwrnod (88.8%) o gymharu â 313 (85.8%) yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn is na'r 363 diwrnod (99.5%) a gyflawnwyd yn 2018/19.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a hynny'n gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

## ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD:

**Am y deuddeg mis**

**Ebrill 2022 – Mawrth 2023**


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Yr Holl Ddigwyddiadau | 1-2 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliant | 3-4 |
| Prif Danau, yn ôl math o eiddo a chymhelliant | 5 |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 6-7 |
| Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Synwyryddion Mwg - Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs) | 9-10 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 11-12 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 13-14 |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau | 15-16 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT POBL YNG NGHYMRU** | |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 17-18 |
| Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf | 19 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 20-21 |

## 1. Pob Digwyddiad

**1.1** Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, mynychodd y Gwasanaeth 5,896 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, cynnydd o 10.1% ar y flwyddyn ariannol flaenorol (5,355).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | **2022-23** | **1,575** | **1,878** | **1,211** | **1,232** | **5,896** | ↑ 10.1 % | 4,975 | ↑ 18.5% |
| | 2021-22 | 1,322 | 1,415 | 1,254 | 1,363 | 5,354 | | | |
| Yr holl danau | **2022-23** | **577** | **719** | **337** | **378** | **2,011** | ↑ 7.0% | 1,867 | ↑ 7.7% |
| | 2021-22 | 575 | 480 | 347 | 478 | 1,880 | | | |
| Yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | **2022-23** | **327** | **371** | **267** | **246** | **1,211** | ↑ 26.4% | 740 | ↑ 63.6% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | 258 | 958 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | **2022-23** | **671** | **788** | **607** | **608** | **2,674** | ↑ 6.2% | 2,369 | ↑ 12.9% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | 592 | 628 | 2,517 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

**Cynnydd mewn Tanau** - priodolir y cynnydd o 7.0% mewn tanau (o 1,880 i 2,011) i'r haf poeth yn y DU a Chymru. Arweiniodd hyn felly at gynnydd o 144 o ddigwyddiadau, cynnydd o 7.7% dros y cyfartaledd 3 blynedd o 1,867.

**Cynnydd mewn AFAs (annomestig)** - Rydym yn ymwybodol o'r cynnydd mewn AFAs mewn lleoliadau annomestig. Mae'r rhan fwyaf o'r galwadau hyn yn dod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda nifer o resymau actifadu). Rydym yn parhau i weithio gyda BIPBC i leihau'r actifiadau AFA hyn. Mae cynnydd hefyd mewn mynychu digwyddiadau domestig (cartrefi) ar gyfer tanau damweiniol mewn cartrefi a chyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Cynnydd mewn digwyddiadau Arbennig y Gwasanaeth** - Daw'r cynnydd cyffredinol yn dilyn newid mewn polisi sy'n ymwneud â mynychu Digwyddiadau Arbennig y Gwasanaeth, gan gynyddu amlygrwydd criwiau yn y gymuned.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Aethpwyd at gyfanswm o 2,011 o danau; cynnydd o 7.0% o 1,880 yn 2021/22.

**2.2** **Prif danau –** Bu gostyngiad o 3.1% yn nifer y prif danau, o 881 i 854 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 3.4% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 884.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Cafwyd cynnydd o 18.0% yn nifer y tanau eilaidd, o 879 i 1,037, ac roeddent 23.2% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 842.

**2.4** **Tanau simnai –** Arhosodd nifer y tanau simnai heb newid ar 120, sef yr un fath ag yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 14.9% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 141.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | **2022-23** | **226** | **236** | **193** | **199** | **854** | ↓ 3.1% | 884 | ↓ 3.4% |
| | 2021-22 | 251 | 229 | 200 | 201 | 881 | | | |
| Tanau Eilaidd | **2022-23** | **332** | **476** | **100** | **129** | **1,037** | ↑ 18.0% | 842 | ↑ 23.2% |
| | 2021-22 | 293 | 244 | 110 | 232 | 879 | | | |
| Tanau simnai | **2022-23** | **19** | **7** | **44** | **50** | **120** | → 0.0% | 141 | ↓ 14.9% |
| | 2021-22 | 31 | 7 | 37 | 45 | 120 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

Bu gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y prif danau damweiniol. Mae'r gostyngiad wedi'i briodoli i'n gweithgareddau atal parhaus sy'n cael eu darparu yn ystod sesiynau SAWC a gweithgareddau ymgysylltu eraill â'r cyhoedd.

Mae'r cynnydd mewn tanau eilaidd damweiniol (o 550 i 661) ac eilaidd bwriadol (o 329 i 376) i'w briodoli i'r haf poeth yn y DU. Mewn cymhariaeth, roedd 2018/19 hefyd yn haf poeth a sych iawn yng Ngogledd Cymru. Cynyddodd Tanau Simnai o 6 rhwng Ch3 a Ch4 y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn annisgwyl yn dilyn cynnydd mewn prisiau tanwydd cyfleustodau a'r defnydd cynyddol o danau agored a llosgi coed. Mae GTAGC wedi bod yn gweithio gyda Scottish Power (SP) ac asiantaethau eraill ynghylch darparu 'pecynnau gaeaf' i drigolion.


**Y camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau a lleihau digwyddiadau tân:**

- Mae 18,052 SAWC wedi'u darparu ar draws Gogledd Cymru yn unol â'n strategaeth bresennol;
- Mae gwaith gyda phartneriaid strategol wedi parhau, gan nodi risgiau posibl i leihau digwyddiadau tân bwriadol;
- Mae cynlluniau ymyrraeth cynnau tanau bwriadol wedi'u hwyluso'n fewnol a chan PentrePeryglon;
- Mae Bwrdd Tanau yn yr Awyr Agored Newydd i Gymru wedi'i sefydlu a Siarter Tanau yn yr Awyr Agored Cymru Gyfan wedi'i ddrafftio i gefnogi lleihau nifer y tanau eilaidd damweiniol a bwriadol;
- Aeth timau atal i farchnadoedd ffermwyr a sioeau amaethyddol gan gynnwys sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i godi proffil effeithiau Tanau yn yr Awyr Agored yng Ngogledd Cymru;
- Mae Grŵp Llywio'r Ymgyrch (CSG)wedi parhau i weithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a thanau yn yr awyr agored yn rhagweithiol ar draws yr pob platfform y cyfryngau.
- Roedd cyfranogiad sylweddol mewn digwyddiadau Coelcerth a Thân Gwyllt cymunedol ar draws ardal y gwasanaeth

## 3 Tanau Cynradd, yn ôl math o eiddo a chymhelliant

**3.1** Yn ystod y flwyddyn ariannol, cafodd 48 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswy, o'i gymharu â 54 yn ystod 2021/22.

**3.2** Yng Ngharchar y Berwyn, digwyddodd 19 tân bwriadol, o'i gymharu â 22 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn/ Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | **2022-23** | **41** | **49** | **24** | **29** | **143** | → 0.0% | 187 | ↓ 23.5% |
| | 2021-22 | 40 | 42 | 31 | 30 | 143 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | **2022-23** | **185** | **187** | **169** | **170** | **711** | ↓ 3.5% | 697 | ↑ 2.0% |
| | 2021-22 | 211 | 187 | 169 | 170 | 737 | | | |

*The final two columns show: the average of the 3-previous financial years (based on the equivalent reporting period); the percentage change based on the difference between the current financial year and the 3-year average.

## 4 Tanau damweiniol mewn cartrefi

**4.1** Aeth y Gwasanaeth i 344 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, 55 (14.0%) yn llai nag yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (400), a 7.5% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 372.




| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma** | **% y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn** | **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **% y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | **2022-23** | **81** | **81** | **97** | **85** | **344** | ↓ 14.0% | 372 | ↓ 7.5% |
| | 2021-22 | 113 | 95 | 106 | 86 | 400 | | | |

*The final two columns show: the average of the 3-previous financial years (based on the equivalent reporting period); the percentage change based on the difference between the current financial year and the 3-year average.

**Naratif**

- Bu gostyngiad o 14.0% yn nifer yr tanau damweiniol mewn cartrefi (344 o 400) ac roeddent 7.5% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 372.

**Y camau i gefnogi cymunedau a lleihau tanau damweiniol mewn cartrefi:**

- Parhau i weithio gyda grwpiau celcio rhanbarthol i adnabod pobl sydd â risg;
- Parhau i dderbyn atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel gan asiantaethau partner, sef cyfanswm o 31.8% (5,733) o'r holl SAWC a ddarparwyd;
- Mae Rheolwyr Partneriaeth wedi archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân;
- Ymgymerwyd â menter ar y cyd rhwng GTAGC, Prifysgol Bangor, a Cartrefi Conwy lle gosodwyd gwarchodwyr stôf mewn llety myfyrwyr i leihau tanau coginio;
- Cafodd diwrnodau Agored Gorsafoedd eu hailfywiogi a gynhyrchodd SAWC ac a roddodd gyfle ychwanegol i roi cyngor diogelwch;
- Cefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol (Cymru a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Tân (NFCC)) yn unol â'n calendr Grŵp Llywio Ymgyrch (CSG) ein hunain;
- Diwrnodau allgymorth wedi'u targedu yn parhau i gael eu rhedeg yn lleol ac yn cael eu cefnogi gan asiantaethau allanol. Dosberthir taflenni mewn ardaloedd gan dimau Atal sydd wedyn yn dychwelyd i ddarparu SAWCs (Criwiau a HSSWs);
- Cynhaliwyd ymgyrch 'galw heibio' Costau Byw yn y Rhyl gan roi cyfle i dimau Atal roi cyngor pellach ar ddiogelwch;
- Ymgyrchoedd rhagweithiol yn dilyn digwyddiadau sylweddol sy'n cynhyrchu atgyfeiriadau archwiliadau diogel ac iach a sicrwydd cymunedol yn dilyn digwyddiadau;
- Mae'r bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Cartrefi Conwy, a Gofal ac Atgyweirio'n parhau i nodi cyfeiriadau â blaenoriaeth uchel – rydym yn ymgysylltu â phobl bregus sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai/lleoliadau gofal i ddarparu ymyriadau lle bo angen.
- Roedd gweithgarwch diogelwch y Nadolig yn cynnwys cefnogi banciau bwyd lleol a chyflwyno sgyrsiau diogelwch i ffoaduriaid o Wcrain.

## 5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi

**5.1** Doedd dim marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 o gymharu â 5 yn ystod flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd 3 anaf difrifol a 23 mân anaf o'i gymharu â 5 a 34 yn y drefn honno  Gostyngodd nifer yr archwiliadau rhagofalus o 31 i 20, tra bod nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle wedi gostwng o 43 i 25 hefyd.

| **Difrifoldeb yr anaf** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwiriadau Rhagofalus | 13 | 19 | 33 | 31 | 20 |
| Cymorth Cyntaf | 27 | 41 | 26 | 43 | 25 |
| Mân Anafiadau | 11 | 26 | 29 | 34 | 23 |
| Anafiadau Difrifol | 6 | 4 | 3 | 5 | 3 |
| Marwolaethau | 5 | 3 | 5 | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | 62 | 93 | 96 | 118 | 71 |


| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma** | **Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **2022-23** | **10** | **37** | **14** | **10** | **71** | ↓ 37.2% |
| | 2021-22 | 43 | 23 | 30 | 17 | 113 | |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **2022-23** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | ↓ 100% |
| | 2021-22 | 3 | 0 | 0 | 2 | 5 | |

| **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|
| 98 | ↓ 27.6% |

## 6 Larymau Mwg - Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs)

**6.1** Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi, er nad oedd pob un yn mynd ymlaen i weithio. Yn 44 o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, ni chafodd unrhyw synhwyrydd ei osod.

**6.2** Yn y 344 o danau damweiniol mewn cartrefi, roedd 301 wedi'u cyfyngu i'r ystafell darddiad, yr eitem a daniwyd gyntaf, neu roedd difrod gwres/mwg yn unig.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn/ Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg wedi osod ac wedi seinio a rhoi rhybudd | **2022-23** | **36** | **45** | **49** | **46** | **176** | ↓ 7.9% | 177 | ↓ 0.6% |
| | 2021-22 | 54 | 46 | 55 | 36 | 191 | | | |
| Larwm mwg wedi'i osod, wedi seinio ond heb rhoi rybudd | **2022-23** | **17** | **4** | **10** | **12** | **43** | ↓ 44.9% | 69 | ↓ 37.7% |
| | 2021-22 | 20 | 20 | 16 | 22 | 78 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | **2022-23** | **22** | **19** | **25** | **15** | **81** | → 0.0% | 78 | ↑ 3.8% |
| | 2021-22 | 26 | 16 | 21 | 18 | 81 | | | |
| Larwm mwg ddim wedi'i osod | **2022-23** | **6** | **13** | **13** | **12** | **44** | ↓ 12.0% | 48 | ↓ 8.3% |
| | 2021-22 | 13 | 13 | 14 | 10 | 50 | | | |

*The final two columns show: the average of the 3-previous financial years (based on the equivalent reporting period); the percentage change based on the difference between the current financial year and the 3-year average.


Cyfnod Adrodd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023

**Camau i gefnogi cymunedau drwy gynyddu perchnogaeth larymau mwg ac addysg diogelwch:**

- Nod y Gwasanaeth oedd darparu 20,000 o SAWCs yn ystod y flwyddyn ariannol; Cyflawnwyd 18,052. Y targed ar gyfer 23/24 fydd 17,500;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i adnabod y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt;
- Parhau â'r addysg a'r ymwybyddiaeth o osod larymau mwg yn gywir yng nghartrefi pobl er mwyn atal achosion actifadu diangen a galwadau diangen;
- Mae GTAGC wedi parhau i hyrwyddo profi larymau mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau;
- Parhaodd ymdrechion i sicrhau bod ein cyngor yn rhoi manylion a chamau i'w cymryd os bydd tân yn cychwyn neu larwm mwg yn actifadu yn y cartref;
- Parhaodd addysgwyr i hyrwyddo perchnogaeth a phrofi larymau mwg fel rhan o'r ddarpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru.

# 7 Galwadau Diangen

**7.1** Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, roedd 2,674 o alwadau diangen; cynnydd o 6.2% o 2,517 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd cynnydd o 9.6% mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o 1,398 i 1,532. Cynyddodd galwadau diangen didwyll rhyw ychydig, o 1,076 i 1,090.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,133 | 1,213 | 1,214 | 1,398 | 1,532 | 1,275 |
| Didwyll | 1,092 | 1,020 | 1,061 | 1,076 | 1,090 | 1,052 |
| Maleisus | 41 | 41 | 40 | 43 | 52 | 41 |
| Cyfanswm | 2,266 | 2,274 | 2,315 | 2,517 | 2,674 | 2,369 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | **2022-23** | **671** | **788** | **607** | **608** | **2,674** | ↑ 6.2% | 2,369 | ↑ 12.9% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | 592 | 628 | 2,517 | | | |
| AFA | **2022-23** | **416** | **420** | **360** | **337** | **1,532** | ↑ 9.6% | 1,275 | ↑ 20.2% |
| | 2021-22 | 311 | 403 | 345 | 339 | 1,398 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | **2022-23** | **241** | **353** | **238** | **258** | **1,090** | ↑ 1.3% | 1,052 | ↑ 3.6% |
| | 2021-22 | 278 | 287 | 235 | 276 | 1,076 | | | |
| Maleisus | **2022-23** | **14** | **15** | **9** | **14** | **52** | ↑ 20.9% | 41 | ↑ 26.8% |
| | 2021-22 | 6 | 12 | 12 | 13 | 43 | | | |

*The final two columns show: the average of the 3-previous financial years (based on the equivalent reporting period); the percentage change based on the difference between the current financial year and the 3-year average.

Cyfnod Adrodd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023

**Naratif**

- **2,676** Cyfanswm y Galwadau Diangen a fynychwyd (cynnydd o 6.2%);
- **1,532** Cyfanswm y Galwadau tân oherwydd cyfarpar (AFA) (cynnydd o 9.6%);
- Roedd larwm tân oherwydd 'cyfarpar' yn cynrychioli 57.3% o gyfanswm y Galwadau Diangen.


**Yr hyn yr ydym yn ei wneud:**

- Cynhaliodd y Gwasanaeth ddull wedi'i dargedu at atal tân yn ystod y flwyddyn ariannol i gadw'r bobl mwyaf bregus yn ddiogel yn ein cymunedau, a oedd yn cynnwys gweithio gyda darparwyr gofal trwy osod systemau llinell gofal (gall hyn gynyddu nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi rydym yn eu mynychu mewn cartrefi, ond bydd pob tro yn rhoi cyfle i ni roi mwy o gyngor a chyngor penodol weithiau). Byddwn yn parhau i fonitro AFAs mewn cartrefi y flwyddyn nesaf drwy:
    - Parhau i adolygu'r cofnod dyddiol o ddigwyddiadau gan Reolwyr Partneriaeth yn yr ardaloedd i nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a/neu alwadau mynych i'r un eiddo;
    - Parhau i weithio gyda darparwyr llinellau gofal gan sicrhau bod staff monitro galwadau yn cael yr hyfforddiant priodol ac adolygu hynny os oes angen e.e. dechreuwyr newydd;
    - Parhau i roi cyngor diogelwch pan fydd GTAGC yn mynychu AFAs mewn cartrefi;
    - Parhau i wneud atgyfeiriadau at asiantaethau allanol pan nodir a bod angen cymorth arbenigol pellach.

- **AFAs mewn safleoedd amhreswyl** - Rydym wedi gweithio gyda BIPBC i geisio lleihau gweithredoedd diangen, a chefnogi cynllun BIPBC i leihau AFAs diangen yn y dyfodol; byddwn yn parhau i fonitro hyn yn ystod y flwyddyn i ddod;

## 8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Cynyddodd galwadau gwasanaeth arbennig 26.4% i 1,211 yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, o gymharu â 958 yn 2021/22. Bu cynnydd o 13.0% o 207 i 234 mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, tra bod digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y ffordd' wedi cynyddu 30.1%, o 751 i 977. (Disgwylid y cynnydd yn nifer y Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig yr aethpwyd iddynt yn dilyn penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu gwelededd yn y gymuned).




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 414 | 469 | 509 | 751 | 977 |
| GRFfs | 221 | 179 | 105 | 207 | 234 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 755 | 648 | 614 | 958 | 1,211 |

| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma** | **% y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn** | **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **% y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | **2022-23** | **327** | **371** | **267** | **246** | **1,211** | ↑ 26.4% | 740 | ↑ 63.5% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | 258 | 958 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC) | **2022-23** | **53** | **65** | **60** | **56** | **233** | ↑ 13.0% | 164 | ↑ 42.1% |
| | 2021-22 | 31 | 56 | 68 | 52 | 207 | | | |
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | **2022-23** | **274** | **306** | **207** | **190** | **977** | ↑ 30.1% | 576 | ↑ 69.6% |
| | 2021-22 | 121 | 177 | 247 | 206 | 751 | | | |

*The final two columns show: the average of the 3-previous financial years (based on the equivalent reporting period); the percentage change based on the difference between the current financial year and the 3-year average.


**Naratif**

Mynychwyd **1,211** o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (cynnydd o 26.4%); Mynychwyd **977** o ddigwyddiadau heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (ag eithrio prosiectau) (cynnydd o 30.1%).

- Mae'r rheswm dros bresenoldeb cynyddol GTAGC mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ganlyniad i benderfyniad ymwybodol a gymerwyd gan y sefydliad i newid y dull gweithredu a bod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i geisiadau am gymorth na fyddai fel arfer yn gofyn am ymateb gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae hyn wedi arwain at fod yn fwy gweladwy yn y gymuned.
- Cynyddodd nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a fynychwyd i 234 ac roeddent yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 164. Dylid nodi bod nifer yr ymwelwyr â'r ardal, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, wedi bod yn sylweddol yn ystod 2022 (yn dilyn llacio holl gyfyngiadau Covid-19).
- Parhawyd i gyflwyno 'Stori Olivia' ar y cyd â HGC. Mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach wedi cael y cyflwyniad.
- Mae GTAGC yn rhanddeiliad ac yn gyfranogwr allweddol o Grŵp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyriadau lle bo angen.

## 9 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd / Rhyddhau

**9.1** O'r 234 gwrthdrawiad traffig ar y ffordd a fynychwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, roedd 69 (29.6%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person anafedig o'r cerbyd. Er bod 129 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau a gafodd mwyafrif yr anafedig..




| | |
|---|---|
| **234** | O wrthdrawiadau ar y ffordd |
| **129** | O ddigwyddiadau lle'r oedd pobl wedi dioddef anaf |
| **69** | O ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau pobl |

| **Difrifoldeb anafiadau *** | **Nifer o bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 49 |
| Cymorth Cyntaf | 31 |
| Man Anafiadau | 87 |
| Anafiadau - Difrifol | 58 |
| Marwolaethau | 9 |
| **Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffordd ar gael -caiff y rhain eu cofnodi yn y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân* | |

**Naratif**

Mynychwyd **234** o wrthdrawiadau ar y ffordd, cynnydd o 13.0% o 207;
Roedd **69** (29.6%) yn ymwneud â thorri pobl allan / rhyddhau personau.


Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd a fynychwyd, bu gostyngiad yn y ganran o ryddhau pobl yr oedd angen i griwiau GTAGC ymdrin â hwy. Y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr (traffig ffordd) yng Ngogledd Cymru yn ystod haf 2022 oedd y rheswm tebygol dros y cynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd.

**Camau a gymerwyd i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd:**

- Cyflwynwyd 'Stori Olivia' ar y cyd â HGC. Mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach wedi cael y cyflwyniad;
- Parhaodd staff Atal GTAGC i fynychu Grŵp Diogelwch Ffyrdd Gogledd Cymru;
- Mae GTAGC, mewn partneriaeth â Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Heddlu Gogledd Cymru (NWP), yn parhau i fod yn rhan o'r ymyrraeth 'Ffrindiau Peryg Bywyd' sy'n manylu ar ganlyniadau gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd (RTC) (marwolaethau ac anafiadau difrifol).

**10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1:**
1.1 Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol yn y cartref a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd.

**10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach**
Cwblhaodd y Gwasanaeth 18,052 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod 2022/23, gyda 5,733 (31.8%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | **2022-23** | **35.2%** | **30.2%** | **31.7%** | **30.1%** | **31.8%** | ↓ 8.4% | 32.9% | ↓ 3.3% |
| | 2021-22 | 39.5% | 34.5% | 34.6% | 32.1% | 34.7% | | | |

*The final two columns show: the average of the 3-previous financial years (based on the equivalent reporting period); the percentage change based on the difference between the current financial year and the 3-year average.

Cyfnod Adrodd: Ebrill 2022 – Mawrth 2023

**Naratif**

Cwblhawyd **18,052** o archwiliadau diogel ac iach: -
Roedd **6,162** (34.1%) yn atgyfeiriadau prif flaenoriaeth, gyda 3,487 yn dod gan asiantaeth bartner;
Roedd **2,992** (16.6%) yn archwiliadau diogel ac iach Blaenoriaeth Canolig;
Roedd **8,898** (49.3%) yn archwiliadau diogel ac iach Blaenoriaeth Isel.


**Cymryd camau i wella perfformiad a sylwadau:**

- Ni chyflawnwyd y targed o 20,000 o SAWCs. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau ariannol y mae'r Gwasanaeth yn ei wynebu bellach, mae'r adran Diogelwch Tân wedi gweld gostyngiad o 2.5 mewn swyddi Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref (HSSW) (cymeradwywyd yng nghyfarfod y FA 16 Ionawr 2023), swydd wag HSSW hirdymor heb ei llenwi, a rhai cyfnodau o absenoldeb salwch sydd wedi effeithio ar y targed;
- Dychwelyd i weithgaredd archwiliadau diogel ac iach cyn covid-19 yn dilyn gwaith ail-ymgysylltu cadarnhaol gyda'n hasiantaethau partner;
- Cyflwynwyd archwiliadau diogel ac iach fel y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr adroddiad, gan gynnwys dros y ffôn, lle bo'n briodol;
- Parhau i ddarparu ymgyrchoedd atal a chyngor diogelwch yn unol â'n calendr ymgyrch Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) a Chyfathrebu Corfforaethol;
- Parhaodd y gwaith o ailgysylltu â'r prosiect Blaenoriaeth Uchel blaenorol ac roedd yn cynnwys holl griwiau WT, DC, a WDSR;
- Parhaodd y gwaith o ddarparu ymyrraeth bwrpasol neu wedi'i deilwra i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned.
- Parhaodd yr amrywiaeth o ymyriadau a roddwyd i feddianwyr i gynyddu, gan gynnwys offer arloesol fel Stoveguards;
- Targedau SAWC i gynyddu ar gyfer yr holl wylwyr Criw Dydd ac Amser Cyflawn (12 i 15/shifft) o 1 Ebrill 2023.

## 11 Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf

**11.1** Mae gan GTAGC 44 o orsafoedd tân gyda 54 o gerbydau ymateb, gan fod gan 8 gorsaf 2 beiriant ac mae gan Wrecsam 3. Mae cynllunio ymlaen llaw yn digwydd bob dydd i ddefnyddio adnoddau i sicrhau bod 20 ar gael rhwng 0600 a 1800. Gall newidiadau byr rybudd weithiau arwain at ostyngiad na ellir ei unioni ar unwaith.

Yn ystod 2022/23, cynyddodd y nifer o weithiau y cyrhaeddwyd y trothwy o 20 3.5% i 324 diwrnod (88.8%) o gymharu â 313 diwrnod (85.8%) yn 2021/22. O 1 Ebrill 2023, mae'r Awdurdod Tân wedi cytuno mai'r lleiafswm fydd 18.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwrnodau gyda llai na 100% | 2 | 20 | 31 | 52 | 41 |
| Diwrnodau gydag argaeledd 100% | 363 | 346 | 334 | 313 | 324 |
| Cyfanswm | 365 | 366 | 365 | 365 | 365 |

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae'r tanau i gyd yn perthyn i un o dri chategori - cynradd, eilaidd neu simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio os yn adfeiliedig), cerbydau, carafanau a threlars, storio awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n danau cynradd os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achubiadau neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad a fynychwyd gan bump neu fwy o beiriannau tân. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai na thanau cynradd.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achubiadau na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynychu'r digwyddiad.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed sengl, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth - i fod yn danau cynradd), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau meddiannol yw'r rhain lle mae'r tân wedi'i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achubiadau na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynychu'r digwyddiad. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain sydd angen presenoldeb offer neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ffyrdd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynychu digwyddiadau, a all gynnwys rhywfaint o gyngor ac arolygiadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu lleoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd mae'n darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br><br>Nodyn: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi i ffwrdd' gan Reolaeth cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei ystyried fel un sydd wedi ei fynychu ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |
| Galwadau Diangen - Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wnaed gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad oedd yn bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen - Didwyll | Mae'r rhain yn alwadau a wnaed mewn ffydd dda gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn gwirionedd yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen - AFA | Mae'r rhain yn alwadau a gychwynnwyd gan larwm tân ac offer ymladd tân. Maent yn cynnwys cychwyn cyfarpar larwm yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn gweithredu a pherson yna'n galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel rhan o drefniant sefydlog yn rheolaidd, h.y. heb unrhyw 'farn' dan sylw, er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeiladu - Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hostel a strwythurau di-barhaol preswyl. |
| Adeilad - Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad - Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, gwestai a sefydliadau preswyl busnesau gwely a brecwast, Cartrefi Nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyrennau, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau yn yr awyr agored | Tân glaswelltir, coetir a chnwd lle mynychwyd y digwyddiad gan 4 cerbyd neu fwy, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod difrod tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |